

---

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

# ADRODDIAD BLYNYDDOL ar gyfer 2020/2021

ar Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-2023

---



Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



**Hydref 2021**

## Croeso gan Arweinydd y Cyngor

Yr adeg hon y llynedd ysgrifennais yma am y gwrthgyferbyniad llwyr rhwng sut y dechreuodd y flwyddyn a sut y daeth i ben, ac rydym yn yr un sefyllfa eleni. Ddechrau'r flwyddyn hon, roeddem yng nghanol cyfyngiadau symud, a bron wedi cyrraedd brig cyntaf yr achosion. Roedd y penawdau'n llawn ffigurau marwolaethau a chreu ysbytai maes brys ac roedd cymunedau ledled y sir eisoes wedi dod at ei gilydd i ddechrau cefnogi ei gilydd mewn ffyrdd na allem fod wedi'u dychmygu o'r blaen. Credaf y gallwn gytuno ein bod, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi gweld ymdrechion arwrol, heriau aruthrol weithiau, a rhai o'n cyfnodau tywyllaf.



Mae ysgrifennu'r cyflwyniad hwn wedi rhoi cyfle i mi fyfyrto ar y flwyddyn ddiwethaf, ac ystyried y flwyddyn o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r adroddiad yn ein hatgoffa o'r cyfan a gyflawnwyd gennym. Ymhen ychydig wythnosau caeodd ysgolion a sefydlwyd canolfannau gofal plant i gefnogi gweithwyr allweddol. Addaswyd canolfannau hamdden a lleoliadau chwaraeon yn ysbytai maes â channoedd o welyau ysbyty. Dosbarthwyd miloedd o barseli bwyd i'r rhai a oedd yn gwarchod eu hunain, a rhoddwyd cymorth a chynghor i dros 4,000 o fusnesau bach. Wrth ichi ddarllen yr adroddiad hwn bydd y rhifau a'r ystadegau yn dangos yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni, ac mae'n dyst i waith caled ac ymrwymiad swyddogion, aelodau, gweithwyr rheng flaen a chymunedau ledled Sir Gaerfyrddin. Cyflawnwyd hyn drwy eich ymdrechion chi, a hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am weithio'n galed i'n helpu i ddod drwy'r flwyddyn hon.

Mae'r pandemig wedi rhoi lle blaenllaw a chanolog i leoliaeth wrth inni ganolbwyntio ar Adfer Economaidd. Mae ein Cynllun Adfer Economaidd yn cyd-fynd ag anghenion busnesau a chymunedau ledled Sir Gaerfyrddin, gan fanteisio ar gyfleoedd i gyflymu newid er mwyn galluogi llwyddiant yn economi'r dyfodol. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi busnes, pobl a lleoedd. Gyda'r cymorth hwn gall economi Sir Gaerfyrddin ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chydychymunedau mwy cynaliadwy.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at ein gweledigaeth i gynyddu gwariant caffael lleol yn sylweddol. Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi mwy o ysgogiad a ffocws ar y maes gwaith hwn, ac mae ein cynlluniau i adolygu trefniadau caffael bwyd lleol wedi'u hehangu o fwyd yn unig i gynnwys holl wariant caffael y Cyngor. Mae gan y gwaith hwn gysylltiad agos iawn â chynllun adfer economaidd y Cyngor ac mae caffael blaengar yn un o themâu allweddol y cynllun hwnnw.

Yn 2019, ni oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng hinsawdd ac yn gynnar y llynedd ni oedd y cyntaf i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu dod yn awdurdod carbon seronet erbyn 2030. Mae llawer i'w wneud, ond mae llawer ar y gweill eisoes gyda'n ffocws cychwynnol ar ein hôl troed carbon mesuradwy. Rydym wedi lleihau allyriadau carbon ein hadeiladau a'n fflyd yn sylweddol eisoes, a bydd y gwaith hwn yn parhau; rydym yn buddsoddi mewn pwyntiau gwefru ceir trydan i gefnogi teithio cynaliadwy ac mewn cyfleusterau beicio i annog teithio llesol; rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy, gwella ein bioamrywiaeth ac edrych ar atebion sy'n seiliedig ar natur - a dim ond rhan fach o'r hyn yr ydym yn ei wneud yw hyn. Byddwn yn parhau i ddiogelu a gwella Sir Gaerfyrddin fel ei bod yn parhau i dyfu a ffynnu er budd ein cymunedau a'n dyfodol. Ac wrth baratoi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae sylfeini eraill y mae'n rhaid eu gosod, a'r sylfeini hyn yw'r rhai pwysicaf oll o bosib, sef sicrhau bod pobl Sir Gaerfyrddin yn gallu byw'n dda a ffynnu.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi darlun clir ichi o'r flwyddyn ddiwethaf ac, fel y gwelwyd, dangos ein bod yn gallu bod yn arloesol ac yn flaengar hyd yn oed dan yr amgylchiadau anoddaf. Gwyddom fod amser heriol o'n blaenau, ond rydym yn barod i fanteisio ar bob cyfle, rydym wedi paratoi, ac rydym yn uchelgeisiol.

*Diolch ichi.*

*Y Cynghorydd Emlyn Dole*  
Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni yn y cyfeiriad hwn: **Rheoli Perfformiad Corfforaethol**, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP neu drwy anfon e-bost at [perfformiad@sirgar.gov.uk](mailto:perfformiad@sirgar.gov.uk)

# Cynnwys

COVID-19 – Blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen

Tudalen  
4

Cyflwyniad

12

## Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin

### Dechrau'n Dda

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd. 18
2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw 21
3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr 25
4. Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol 28
5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi 32

### Byw'n Dda

6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir 36
7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael 39
8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) 42

### Heneiddio'n Dda

9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel 46
10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio 50
11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin 52

### Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol 56
13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth 61
14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru 65
15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau 69 a 73

Atodiadau

78-86

# EIN BLWYDDYN COVID-19



Sefydlwyd **Canolfannau Gofal**

**Plant** i gefnogi gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed.



Rhoddwyd cymorth a chyngor i dros

**4,000**

o fusnesau bach



Rhoddwyd cymorth i **gannoedd o fusnesau** i sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i ddiogelu cwsmeriaid

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf, gyda **chynnydd o 45%** yn nifer y sesiynau defnyddwyr ar wefan y Cyngor



Cefnogwyd dros **2,000 o staff** i weithio gartref



...gan godi i roi cymorth ar gyfer dros **3,000 o gysylltiadau o bell** ar ein rhwydwaith

**Profi, Olrhain, Diogelu**



Sefydlwyd tîm pwrpasol i gefnogi'r Rhaglen **Profi, Olrhain, Diogelu** Genedlaethol

Rhoddwyd cymorth i'r GIG sefydlu

**4 ysbyty maes** â channoedd o welyau ysbyty dros dro.



Dosbarthwyd **dros 8,000** o Barseli Bwyd i helpu'r rhai oedd yn gwarchod ei hun

## SUT MAE COVID-19 WEDI NEWID SIR GAERFYRDDIN

Effeithiodd pandemig Coronafeirws COVID-19 ar lawer o'r camau gweithredu a'r targedau a osodwyd gennym ar gyfer 2020/21 a bu'n rhaid inni ddelio â'r argyfwng dan sylw. Rydym wedi cyfrif am y cyfnod hwn mewn [Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19](#). Hefyd, cyflwynodd y gwasanaethau eu hymatebion i Bwyllgorau Craffu yng nghyfarfodydd mis Tachwedd / Rhagfyr 2020. Pan fydd yn briodol, byddwn yn diweddarau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19 yn Sir Gaerfyrddin.

Isod nodir rhai effeithiau allweddol yn ystod 2020 a rhaid diolch i staff y Cyngor o amrywiaeth o wasanaethau, a fu'n gweithio gyda phartneriaid eraill mewn llawer o achosion, am eu hymdrechion a'u hymrwymiad sylweddol wrth ymateb i sefyllfaoedd hollol newydd.

*Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus*

## DECHRAU'N DDA



### PLANT AC YSGOLION

Yn dilyn dechrau'r pandemig, caeodd yr ysgolion, y meithrinfeydd a'r ddarpariaeth gofal plant i gyd. Fel rhan o'r ymateb sefydlodd Sir Gaerfyrddin 24 o ganolfannau gofal plant i ddarparu gofal plant mawr ei angen ar gyfer plant gweithwyr allweddol tra bod 4 lleoliad arbenigol wedi parhau ar agor. Aeth Dechrau'n Deg ati i addasu canolfannau gofal plant i ddarparu gofal i blant agored i niwed a phlant cyn-ysgol gweithwyr critigol a helpu lleoliadau preifat i ailagor. Roedd clybiau gwyliau'r haf ar agor drwy gydol yr haf i rieni oedd yn talu ffioedd.

Er mwyn lleihau'r effaith ar ddysgu disgyblion, rhoddwyd *Cynllun Parhad Dysgu* ar waith yn gyflym. I gefnogi'r cynllun hwn, darparwyd dyfeisiau gan gynnwys gliniaduron, Chromebooks a 4G MiFi dongles i roi cymorth i deuluoedd o ran dysgu o bell ledled Sir Gaerfyrddin.

Er mwyn i ysgolion ailagor, cydlynodd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant ymateb corfforaethol sylweddol i wneud trefniadau i ysgolion fod yn lleoedd diogel o ran COVID. Roedd hyn yn cynnwys cynnal Asesiadau Risg, wedi'u gwirio a'u cymeradwyo, ar gyfer pob safle ysgol, arwyddion, basnau golchi dwylo a threfniadau glanhau ychwanegol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod yr holl staff a disgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth ddychwelyd i'r ysgol.

Parhaodd y *Gwasanaethau Plant* drwy gydol y pandemig drwy addasu arferion gwaith, defnyddio cyfarpar diogelu personol, cadw pellter cymdeithasol ac ati i gynnal darpariaeth lawn. Roedd y tîm Cynhwysiant (Anghenion Dysgu Ychwanegol) a'r timau Ymddygiad hefyd yn darparu gwasanaeth llawn drwy gydol y pandemig. Arhosodd rhai lleoliadau arbenigol ar agor a chynigiodd pob un gymorth o bell. Roedd staff arbenigol o bob rhan o'r Adran hefyd yn gweithio yn y Canolfannau gyda dysgwyr agored i niwed a nodwyd. Darparwyd cymorth academiaidd a chymorth llesiant emosiynol lle'r oedd angen. Cynigiwyd cymorth o bell a galwadau llesiant i ddisgyblion a oedd yn cael eu tiwtora gartref drwy gydol y pandemig.

*Prydau Ysgol am Ddim* – rhoddwyd cymorth i ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ddi-oed o ddechrau'r pandemig. I ddechrau, rhoddwyd pecynnau bwyd iddynt a oedd yn cael eu casglu o ysgolion cyn i daliadau BACS gael eu rhoi ar waith, a dosbarthwyd pecynnau bwyd i rai teuluoedd ledled y sir o hyd. Mae nifer y ceisiadau am brydau ysgol am ddim (a thaliadau) wedi cynyddu yn ystod y 15 mis diwethaf oherwydd bod teuluoedd yn wynebu heriau ariannol a chaledi.

Mae'r *Grant Datblygu Disgyblion* – *Mynediad* yn cynnig cymorth ariannol i deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim brynu gwisg ysgol ac adnoddau eraill. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cyllid hwn hefyd wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig.

## BYW'N DDA



### YR ECONOMI

Ar ddechrau'r pandemig, roedd nifer yr achosion eisoes wedi peri i fusnesau newid eu harferion gwaith, megis gofyn i staff weithio gartref. Cafodd y cyfyngiadau symud a gyflwynwyd, a gwahardd teithio 'nad oedd yn hanfodol' effaith ddifrifol ar fusnesau, swyddi a'r economi. Mae busnesau yn Sir Gaerfyrddin fel arfer yn llai (hyd at 9 o weithwyr) na busnesau ledled Cymru a'r DU, a'r gwir trist amdani yw y bydd llawer o fusnesau'n methu yn sgil y pandemig, a bydd eraill yn cymryd cryn amser i ddychwelyd i'r man lle yr oeddent.

*Gwnaethom helpu dros 4,000 o fusnesau i dderbyn taliadau grant ardrethi busnes Llywodraeth Cymru o rhwng £10,000 a £25,000 gyda chyfanswm o dros £46 miliwn.*


Bu heriau economaidd i Sir Gaerfyrddin, a bydd eu heffeithiau'n amlwg ymhell ar ôl i'r pandemig ddod i ben. Gallai gymryd misoedd lawer i incwm aelwydydd godi i'r hyn yr oedd cyn y pandemig gan arwain at lefelau is o incwm gwario sy'n bwydo'r economi leol. Felly, aethom ati i hyrwyddo neges *prynu'n lleol* i helpu i ysgogi twf yn lleol, gan arwain at ddyfodol economaidd mwy sefydlog i fusnesau lleol a'u staff. Drwy gydweithio â'n partneriaid, gallwn gymryd camau i adfer hyder defnyddwyr a busnesau i ysgogi buddsoddiad yn ein heconomiâu, a fydd yn creu cyflogaeth ac yn helpu pobl ddi-waith i ddod o hyd i swyddi newydd. Dechreuodd y gwaith o gynllunio ar gyfer adferiad economaidd yn gynnar yn y pandemig a bydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae *16 o Fanciau Bwyd* yn y Sir ac rydym wedi bod yn darparu cyllid yn uniongyrchol i gefnogi llawer o'r rhain yn ystod COVID-19.

### DIGARTREFEDD

Mae argyfwng COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth digartrefedd. Er mwyn diogelu pobl ddigartref, newidiodd Llywodraeth Cymru y gyfraith ynghylch angen blaenoriaethol. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol flaenoriaethu pawb oedd yn ddigartref (yn y gorffennol roedd awdurdodau lleol yn blaenoriaethu teuluoedd a phobl sengl agored i niwed). Mae hyn wedi cynyddu'r galw yn sylweddol gan arwain at niferoedd mawr (hyd at 150) o aelwydydd digartref yn cael llety dros dro. Ein blaenoriaeth yn ystod y 12 mis diwethaf fu mynd i'r afael â'r galw newydd hwn.

## HENEIDDIO'N DDA



### GOFAL CYMDEITHASOL

Ceisiwyd cyn belled ag y bo modd i gynnal busnes fel arfer yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cymorth parhaus i bobl sydd angen ein cymorth yn y gymuned ac sydd angen cymorth i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Rydym wedi parhau i gynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac wedi cynnal asesiadau gofal cymdeithasol lle bo angen.

Y maes lle gwelwyd risg fwyaf ac effaith fwyaf COVID-19 fu'r Sector Cartrefi Gofal. Bu nifer o achosion yn Sir Gaerfyrddin ac mae'r sector, sy'n cynnwys ein darpariaeth fewnol a'n darpariaeth a gomisiynwyd, wedi wynebu heriau enfawr i ofalu am y rhai a oedd yn eiddil iawn, ac i rai, yn anffodus ar ddiwedd eu hoes. Aeth staff yr ail filltir i ddiogelu preswylwyr yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau llym gan ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Dangosodd staff wytnwch ac ymrwymiad rhyfeddol gan barhau i ddarparu gofal i'n preswylwyr mwyaf agored i niwed drwy gydol y pandemig.

## AMGYLCHEDD IACH, DIOGEL A LLEWYRCHUS




Yn ystod y cyfyngiadau symud, aiddarganfu pobl yr *amgylchedd*. Yn fwy nag erioed o'r blaen rydym wedi sylweddoli bod ein hamgylchedd naturiol yn hanfodol i'n llesiant. Roedd mwy o bobl yn defnyddio *llwybrau troed a llwybrau beicio*.

Ailhyfforddwyd *glanhawyr*, a chyflogwyd glanhawyr ychwanegol i sicrhau safon uwch o lanhau ar draws pob lleoliad. Roedd hyn wedi helpu i gadw ein canolfannau ysgolion, ein hysgolion, ein canolfannau dosbarthu bwyd, ein depos, ein swyddfeydd allweddol a'n tai gwarchod ar agor. Roedd y safonau glanhau uwch yn hanfodol i leihau trosglwyddo'r feirws a meithrin hyder a sicrwydd bod yr amgylchedd gwaith mor ddiogel ag y gallwn ei wneud.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, bu gwelliant mewn *Ansawdd Aer yn ystod y flwyddyn* oherwydd bod llai o gerbydau ar y ffordd. Y prif lygrydd sy'n peri pryder i Sir Gaerfyrddin yw Nitrogen Deuocsid (NO<sub>2</sub>).

Roedd casgliadau gwastraff ac ailgylchu yn hanfodol i iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd yn ystod argyfwng COVID-19, ac roedd gweithwyr gwastraff yn cael eu hystyried yn 'weithwyr allweddol' gan y Llywodraeth ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr epidemig. Parhaodd yr ystod lawn o wasanaethau casglu gwastraff o dŷ i dŷ drwy gydol y pandemig, er gwaethaf rhai o'r heriau logistaidd a heriau o ran adnoddau a achoswyd gan COVID-19 ar adegau; roedd hyn yn dyst i ymrwymiad a natur benderfynol yr holl dimau a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith i sicrhau bod y gwasanaethau pwysig hyn yn parhau. Roedd ein preswylwyr yn amlwg yn gwerthfawrogi hyn.

## LLYWODRAETHU



Ar ôl oedi byr, cynhaliwyd llywodraeth ddemocrataidd a gwaith craffu drwy gyflwyno cyfarfodydd democrataidd rhithwir. Roedd gwaith craffu'n bosibl drwy gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a chyfarfodydd arweinwyr grŵp. Ni oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol rhithwir. Roedd hyn yn gofyn am sicrhau system feddalwedd ar gyfer cyfarfodydd ar-lein a dull o ddarparu cyfleusterau cyfieithu i aelodau ac i'r cyhoedd.

### Technoleg Gwybodaeth

Mae penderfyniad yr Awdurdod, cyn y pandemig, i fuddsoddi £1.9m mewn mentrau gweithio ystwyth, gan gynnwys rhoi'r offer cywir i staff i'w galluogi i weithio mewn ffordd fwy ystwyth a hyblyg, ynghyd â gwelliannau i gadernid y rhwydwaith TG, wedi helpu i gefnogi proses symud ddi-dor bron i weithio gartref. Gyda'r offer cywir gallai staff weithio gartref ar unwaith heb amharu ar gwsmeriaid.

Mae'r defnydd o dechnoleg, ac yn enwedig Microsoft Teams, wedi bod yn elfen hanfodol o ymateb y Cyngor i'r pandemig, ac mae'n helpu i gefnogi'r broses o fabwysiadu ffordd lawer mwy deinamig a chynhyrchiol o weithio. Mae wedi hwyluso gwell cyfathrebu a gweithio mewn tîm yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig dros 40 o wasanaethau cyngor trafodiadol i'r cyhoedd ar-lein, ac mae llawer o'r rhain wedi'u datblygu'n gyflym iawn.

## Y gweithlu

Daeth staff i'r adwy gan ddangos ymrwymiad gofalgar a chydwybodol wrth '*wneud eu rhan*' a dangos dewrder pan oedd angen. Roedd llawer wedi mynd yr ail filltir ac wedi cadw i fynd.

Gwnaethom ddargyfeirio adnoddau o'r cychwyn cyntaf i sicrhau bod deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu dehongli a'u rhannu'n gyflym â rheolwyr a phenaethiaid. Aethom ati i addasu ein polisiau presennol yn gyflym a llunio canllawiau newydd megis Gweithio Gartref Dros Dro, Gwyliau Blyneddol a Rhoi Staff ar Ffyrlo. Gwnaethom hefyd gynnal amrywiaeth o asesiadau risg a rhoi systemau gweithio diogel ar waith i sicrhau bod gwasanaethau critigol yn parhau i gael eu darparu, a oedd, er enghraifft, yn caniatáu i weithwyr critigol gael mynediad i'r Canolfannau Dysgu yn ein hysgolion fel y gallent fynd i'r gwaith.

Mae iechyd a llesiant ein holl bobl wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i ni ac mewn ymateb, rydym wedi neilltuo adnoddau sylweddol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant ein holl weithwyr. Rydym wedi bod yn awyddus i normaleiddio trafodaethau am iechyd meddwl ac fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl lansiodd y fenter Amser i Siarad a byddwn yn parhau i adeiladu ar y fenter hon yn y dyfodol.

***Ni fyddwn yn mynd yn ôl i wneud popeth yn yr un modd ag yr oeddem yn ei wneud cyn y pandemig – roedd rhai ffyrdd newydd o weithio, a ddatblygwyd oherwydd y pandemig, mor llwyddiannus fel y byddwn yn parhau â nhw.***

Mae meysydd gwasanaeth wedi sylweddoli bod rhai o'r ffyrdd gwahanol o weithio a gyflwynwyd yn ystod y pandemig yn cynnig ffordd well o ddarparu'r gwasanaeth i'r cwsmer a chaiff y ffyrdd hyn o weithio eu mabwysiadu fel y '*norm newydd*'.

## Partneriaeth

Yn ystod y pandemig mae gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gymuned ehangach wedi bod yn hanfodol. Daeth ymddiriedaeth a pherthnasoedd a ddatblygwyd drwy weithio mewn partneriaeth dros nifer o flynyddoedd i'r amlwg wrth i bartneriaid gefnogi ei gilydd ar adeg pan brofom yr angen ar ei fwyaf. O sefydlu ysbytai maes ymhen ychydig wythnosau i sicrhau bod parseli bwyd yn cael eu dosbarthu i'r rhai oedd yn gwarchod eu hun ac yn agored i niwed, mae'r cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid wedi bod yn aruthrol a bydd yn rhywbeth i adeiladu arno ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Aethom ati i ddatblygu *gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu* yn gyflym gan gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Heddlu i gynghori pobl oedd wedi cael cysylltiad ag achosion, nodi manau â lefel uchel o achosion, a chymryd camau gorfodi os oes angen i atal COVID-19 rhag lledaenu ymhellach.

Sefydlwyd Timau Rheoli Achos Lluosog ar draws gwasanaethau ac maent wedi llywio ymateb COVID yn strategol yn y Sir. Mae'r gwaith hwn yn sicr yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn y dyfodol yn enghraifft dda iawn o weithio mewn partneriaeth.

Mae gwasanaethau'r Heddlu a Diogelu'r Cyhoedd hefyd wedi cydweithio i gynnal ymweliadau safle ar safleoedd trwyddedig gan sicrhau bod rheolau COVID yn cael eu dilyn. Yn sgil y cydweithio agos hwn, dim ond nifer cyfyngedig o hysbysiadau gorfodi sydd wedi gorfod cael eu rhoi hyd yn hyn.

Derbyniodd **Lyndsey McNicholl**, un o reolwyr gofal preswyl Cyngor Sir Caerfyrddin, Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig am ei gwasanaethau i ofal yn ystod pandemig COVID-19.





### NEWID YN YR HINSAWDD

- Mae gennym y **Cynllun Gweithredu Carbon Sero-Net** cyntaf yng Nghymru (Gweler Amcan Llesiant 12)

### ADFER

- Ni yw un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i baratoi **Cynllun Adfer Economaidd** (Gweler Amcan Llesiant 6)


### COVID-19

- **Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19**  
I ddysgu o'r modd roeddem wedi ymateb i'r pandemig rydym yn nodi ffyrdd newydd trawsnewidiol o weithio (Gweler Amcan Llesiant 15)

# Marwolaethau COVID-19 yng Nghymru

## Farwolaethau fesul 100,000 - hyd at ddiwedd Mawrth 2021

- 250 to 327
- 200 to 249
- 150 to 199
- 100 to 149
- 50 to 99



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordians 100023377  
 © Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023377



## Marwolaethau COVID-19 yn Sir Gaerfyrddin hyd at ddiwedd Mawrth 2021

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Canol (MSOAs)	Farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth	Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Canol (MSOAs)	Farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth
Brynaman, Y Garnant & Glanaman	54.1	Swiss Valley & Llangennech	196.4
Yr Hendy & Tŷ-croes	67.1	Bynea & Llwynhendy	202.0
Cydweili & Trimsaran	97.8	Glyn & Pontyberem	209.4
Llandeilo, Llangadog & Maenordeilo	126.2	Dafen & Felin-foel	213.9
Carmarthen West & Cynwyl Elfed	129.2	Llanddarog, Llangyndeyrn & Ferryside	293.8
Abergwili, Llanegwad & Carmel	135.6	Llandovery, Cil-y-cwm & Cynwyl Gaeo	304.9
Llanelli North	147.5	Llanfihangel-ar-arth & Llanybydder	317.5
Ammanford & Betws	154.4	Llan-non, Cross Hands & Pen-y-groes	319.6
Carmarthen North	154.9	Llanelli West	326.6
Llanelli South	161.4	Carmarthen South & Llangynnwr	340.6
Tre-lech, Cenarth & Llangeler	183.6	Llandybie & Saron	430.2
Whitland, Laugharne & Llansteffan	185.1	Llanelli Bigyn	581.2
Pembrey & Burry Port	190.5		

### Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - SYG

Yr ardal â'r nifer isaf o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yw *Brynaman, Y Garnant a Glanaman a Llanelli Bigyn* oedd yr uchaf.

## Marwolaethau COVID-19 yn Sir Gaerfyrddin mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Canol Farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth - hyd at ddiwedd Mawrth 2021



© Hawffaint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023377  
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023377

# CYFLWYNIAD I'N HADRODDIAD BLYNYDDOL

Adeg paratoi'r adroddiad hwn mae adnoddau'r Cyngor wedi'u hymrwymo o hyd i ddelio â'r argyfwng/gwaith adfer. Mae rhai bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael, er enghraifft, oherwydd y pwysau sydd ynghlwm wrth ddelio â'r argyfwng, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno na fydd *Data Alldro* cymharol yn cael ei gyhoeddi ar gyfer 2020-21. Byddem fel arfer yn cymharu ein canlyniadau â chanlyniadau cyngorau eraill. Yn y gorffennol rydym hefyd wedi cyhoeddi canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ond nid yw llawer o hyn ar gael.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Hefyd mae'n ddyletswydd statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (*Gweler Atodiad 1*). Yn ogystal, bydd sefydlu'r llinellau sylfaen yn ddefnyddiol i asesu'r broses.

## Gweithio gyda Phartneriaid

Fel Cyngor, nid ni yn unig sy'n gweithio i wella bywydau dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Rydym yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi sefydlu *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus* ac mae'r bartneriaeth hon wedi cyhoeddi [Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin](#). Mae'r holl gyrff cyhoeddus yn y bartneriaeth yn cyhoeddi eu Hamcanion Llesiant eu hunain, a byddwn yn gweithio i gyflawni llawer o amcanion cyffredin. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi cyhoeddi [Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21](#).

## Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor

- ⦿ Yn ystod y pandemig cynhaliwyd *Arolwg Rhieni* ymhlith rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion a chafwyd 4,433 o ymatebion. Yn yr arolwg gofynnwyd beth, yn eu barn nhw, sy'n cael yr effaith fwyaf ar lesiant ac iechyd meddwl eu plentyn/plant. Nododd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr mai'r mater sy'n achosi'r effaith fwyaf ar lesiant eu plentyn/plant yw na allant fod gyda'u ffrindiau a'u cyfoedion
- ⦿ Mewn ymateb i bandemig COVID-19, ymgynghorwyd â *busnesau Sir Gaerfyrddin* i gasglu eu barn ar effaith y pandemig ar eu busnes. Ymatebodd cyfanswm o 574 o fusnesau i'r arolwg ar-lein ym mis Mai. Mae'r ymatebion i'r gwaith ymgysylltu hwn wedi helpu i lywio ein cymorth i'r busnesau hyn.
- ⦿ Ym mis Mai, cymerodd 2,543 (32%) o'n *staff* ym mhob adran ran mewn arolwg ar y ffordd newydd o weithio yn dilyn yr achosion o COVID-19, a bydd y canlyniadau'n helpu i lywio'r ffordd o weithio yn y dyfodol.
- ⦿ Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, cynhaliwyd *ymgyngoriad digidol a rhithwir* ar y gyllideb ar gyfer 2021/22. Mewn ymateb i adborth gan y cyhoedd, lleihaodd y cyngor y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.
- ⦿ Rydym wedi ymgynghori ar nifer o *brosiectau ysgol* drwy gydol y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys: ymgynghori ar newid y ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd, newid oeddrannau derbyn mewn ysgolion, cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion a gwella adeiladau ysgolion.
- ⦿ Rydym hefyd wedi rhoi cymorth i nifer o wasanaethau ar nifer o ymgynghoriadau. Roedd y rhain yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i): Cynigion i newid enw Theatr y Glowyr, gorchmynion Diogelu Gwasanaethau Cyhoeddus, henebion hanesyddol yn y Sir, teithio llesol a gwella diogelwch manau cyhoeddus mewn ymateb i'r pandemig.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

[Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol](#) - maent yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddatblygu ein proses Asesu Effaith Integredig, sy'n sicrhau sylw a diwydrwydd dyladwy pan fydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau allweddol. Mae'r broses hon yn cynnwys ein cyfrifoldebau o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** a'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021. Prif nod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yw annog gwell penderfyniadau ac yn y pen draw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dylid defnyddio'r ddyletswydd i sicrhau bod lleihau anghydraddoldeb canlyniadau nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn ffactor canolog wrth wneud penderfyniadau. Dylai sefydliadau ystyried anghydraddoldebau cyfredol a thueddiadau yn y dyfodol wrth benderfynu sut y gallant gael yr effaith fwyaf. A rhaid i sefydliadau gael eu harwain gan leisiau pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud hyn.

Sefydlwyd **Grŵp Gorchwyl a Gorffen trawsbleidiol ynghylch Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig)** mewn ymateb i ddwy drafodaeth fanwl yn Siambr y Cyngor, gyda'r nod o ymgysylltu â thrigolion a chasglu adborth er mwyn helpu i chwalu rhwystrau a chefnogi cymunedau BAME Sir Gaerfyrddin.

Fel rhan o'r gwaith, lansiodd y grŵp arolwg cyhoeddus mewn ymateb i sylwadau am henebion hanesyddol ledled y sir. Roedd yr arolwg yn annog pobl i roi eu barn ynghylch a oedd angen i'r cyngor gymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r drafodaeth gyhoeddus, a beth ddylai'r camau hynny fod.

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y dylid gosod byrddau gwybodaeth mewn man amlwg ger Cofeb Picton ac o fewn tir y gofeb yn cyfeirio at Syr Thomas Picton a chynnwys manylion am ei yrfa filwrol yn ogystal â'i gysylltiadau hysbys â chaethwasiaeth, a chyfeiriad at hanes lleol yr ardal. Argymhellodd y grŵp hefyd osod bwrdd gwybodaeth pellach gerllaw Ystafell y Llys yn y Neuadd Sirol, lle mae portread o Syr Thomas Picton yn cael ei arddangos.

Fel rhan o'n ddyletswydd i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu, rydym wedi datblygu **Calendr Amrywiaeth**, sy'n ceisio sefydlu amserlen gyson a theg ar draws yr holl nodweddion. Byddwn yn adolygu ac yn datblygu ein calendr ac yn sicrhau ei fod yn cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru drwy Gydlyniant Cymunedol.

### **Yr iaith Gymraeg** (hefyd, gweler *Amcan Llesiant 14*)

Rydym yn parhau i weithredu **Safonau'r Gymraeg** ar draws y Cyngor a chafodd gwaith cyfathrebu mewnol sylweddol ei wneud yn ystod 2020-21. Cafodd negeseuon am y Safonau eu cyfleu i staff drwy gyflwyniadau gan y Tîm Polisi, drwy ffrydiau cyfathrebu Marchnata a'r Cyfryngau, a thrwy Arweinwyr Iaith yr Adrannau.

Mae **Fforwm Strategol Sirol yr Iaith Gymraeg**, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau hybu iaith y sir, yn ogystal â chyrrff cyhoeddus gyda swyddogion iaith, hefyd wedi parhau â'i rôl o ddatblygu rhaglen o hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ac wedi cychwyn llawer o gynllunio ar y cyd ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Hybu Sir Gaerfyrddin, sy'n unol â'r safonau Hybu. Cyfarfu'r fforwm bedair gwaith a rhoddwyd sylw penodol i brentisiaethau ac addysg ôl-16, yr iaith yn ein cymunedau, meysydd blaenoriaeth a'r Cynllun Datblygu Lleol.

# Sut rydym yn mesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant

## Mesurau Llwyddiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo newid mewn ffocws o gynhyrchiant gwasanaethau, i bob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Mae gennym gyfres o ddangosyddion a ddefnyddiwn i fesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant; mae modd gweld rhestr o'r mesurau hyn yn *Atodiad 2*.

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hefyd mae cyfres o fesurau cenedlaethol y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu. Gellir gweld rhestr o'r mesurau hyn yn *Atodiad 3*. Oherwydd COVID-19, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chasglu a chyhoeddi canlyniadau gan awdurdodau ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, ac nid yw ein canlyniadau ein hunain ar gyfer rhai o'r mesurau hyn ar gael neu nid oes modd eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd effeithiau COVID-19.

## Gwybodaeth Asesu Arall

### Bodlonrwydd Dinasyddion



#### Arolwg Cenedlaethol Cymru

Fel arfer, rydym yn cynnwys data Arolwg Cenedlaethol Cymru sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol yn ein Hadroddiad Blynyddol. Oherwydd y pandemig, nid yw llawer o'r data ar gael ar gyfer 2020/21 gan fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cynnal yr arolwg. Felly, dim ond ychydig o ganlyniadau arolwg 2020/21 sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd bod llai o bobl wedi cymryd rhan yn ogystal â diffyg parhad o ran cwestiynau arolygon yn y blynyddoedd blaenorol.



[Dolen i Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020 - canlyniadau chwarterol a misol](#)

## Canlyniad Rheoleiddio

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd ein Rheoleiddwyr nifer o adroddiadau a chaiff y rhain eu rhestru yn **Atodiad 4**.



<https://archwilio.cymru/cy>



<https://www.estyn.llyw.cymru>



<https://arolygiaethgofal.cymru>

# Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus



## Amcanion Llesiant

**1.** Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

**2.** Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

**3.** Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr.

**4.** Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol.

**5.** Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

**6.** Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

**7.** Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

**8.** Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

**9.** Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.

**10.** Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hyn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.

**11.** Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

**12.** Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

**13.** Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

**14.** Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

**15.** Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

## Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'r Amcanion Llesiant



Y Cyngorydd Emlyn  
Dole  
Yr Arweinydd

Amcan Llesiant 6 - Creu mwy  
o swyddi a thwf ledled y sir



Y Cyngorydd Mair  
Stephens  
Dirprwy Arweinydd

Amcan Llesiant 12 - Yr  
Amgylchedd

Amcan Llesiant 15 - Adeiladu  
Gwell Cyngor a Gwneud  
Gwell Defnydd o Adnoddau



Y Cyngorydd Cefin  
Campbell

Amcan Llesiant 5 - Trechu  
Tlodi

Amcan Llesiant 9 -  
Cysylltiadau da a  
chymunedau mwy diogel

Amcan Llesiant 12 - Yr  
Amgylchedd



Y Cyngorydd Jane  
Tremlett

Amcan Llesiant 9 -  
Cysylltiadau da a  
chymunedau mwy diogel

Amcan Llesiant 10 - Pobl hŷn

Amcan Llesiant 11 -  
Heneiddio'n dda



Y Cyngorydd David  
Jenkins

Amcan Llesiant 15 - Adeiladu  
Gwell Cyngor a Gwneud  
Gwell Defnydd o Adnoddau



Y Cyngorydd Linda  
Evans

Amcan Llesiant 7 - Tai  
Fforddiadwy

Amcan Llesiant 9 -  
Cysylltiadau da a  
chymunedau mwy diogel

Amcan Llesiant 11 -  
Heneiddio'n dda



Y Cyngorydd Glynog  
Davies

Amcan Llesiant 01 - Dechrau  
gorau - plant

Amcan Llesiant 2 – Plant iach

Amcan Llesiant 3 - Addysg

Amcan Llesiant 4 - Pobl ifanc



Y Cyngorydd Peter  
Hughes-Griffiths

Amcan Llesiant 2 – Plant  
iach

Amcan Llesiant 8 - Bywydau  
iach - Oedolion

Amcan Llesiant 14 - Yr Iaith  
Gymraeg a Diwylliant Cymru



Y Cyngorydd Hazel  
Evans

Amcan Llesiant 12 - Yr  
Amgylchedd

Amcan Llesiant 13 -  
Trafnidiaeth a Phrifyrdd



Y Cyngorydd Phillip  
Hughes

Amcan Llesiant 12 - Yr  
Amgylchedd

Amcan Llesiant 8 - Bywydau  
iach - Oedolion



# Dechrau'n Dda





# Amcan Llesiant 1

Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd.

## Mae nifer y Plant sy'n Derbyngofal wedi lleihau'n sylweddol

Mae dull systemig o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol ochr yn ochr â'n ffocws parhaus ar waith ataliol wedi gweld nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i leihau o flwyddyn i flwyddyn a mwy a mwy o deuluoedd yn cael cymorth i aros gyda'i gilydd. Mae hyn wedi digwydd er gwaethaf yr heriau cynyddol yn sgil pandemig COVID-19.

### Pam mae'n bwysig

- Gan fod rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd
- Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i iechyd a llesiant hirdymor. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd
- Gan fod Plant sy'n Derbyngofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i risgiau niferus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal.

### Mesur Llwyddiant



Mae % y plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy wedi gostwng i **4.7%**



### Egluro'r Canlyniadau

Rydym yn falch fod *gwelliant* mewn sefydlogrwydd lleoliadau wedi bod a bod *gostyngiad* yn nifer y plant sydd wedi symud 3 gwaith neu fwy yn ystod 2020/21, sef 4.7% (7 o 148) o gymharu â 8.6% (14 o 163) yn 2019/20, sy'n is na Chyfarfaledd Cymru o 9%. (*Gweler Siart 1*)

Mae sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn ardderchog er gwaethaf COVID-19. Cafodd Covid a chanllawiau llym Llywodraeth Cymru effaith ar agor ysgolion. Rydym yn perfformio'n dda yn gyson o ran cadw plant sy'n derbyn gofal yn yr un ysgol, sydd hefyd yn ffactor pwysig o ran gwella canlyniadau.



Yn ystod 2020/21, roedd 3 o blith 96 o blant wedi newid ysgolion (*Gweler Siart 2*). Rhoddwyd rhaglen gymorth ar waith dros yr haf hefyd a gafodd ei chroesawu. Ein prif bwyslais yn y **tymor hir** yw **atal** a chadw plant yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd, y tu allan i'r system ofal lle bynnag y bo'n bosibl, yn ogystal â darparu adnoddau ychwanegol i ofalwyr maeth i gefnogi plant yn eu gofal er mwyn cael lleoliadau sefydlog ac osgoi'r angen am eu symud ble bynnag y bo modd.

## Cynnydd o ran yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Cefnogi Teuluoedd

- Drwy gydol pandemig COVID-19 mae lleoliadau gofal plant cofrestredig, darparwyr chwarae, teuluoedd a chymunedau wedi parhau i gael cyngor, cymorth ac arweiniad i sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael i blant a phobl ifanc yn ystod y cyfyngiadau symud a chyfyngiadau eraill.
- Roedd y *Cynllun Cymorth Gofal Plant* yn galluogi darparwyr gofal plant i aros ar agor i sicrhau bod gwasanaethau critigol yn parhau i gael eu darparu. Rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020, cefnogwyd 732 o blant gweithwyr critigol gan y cynllun.
- Mae nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd gan y *Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd* wedi cynyddu 62% eleni gyda 30,197 o ddefnyddwyr ac 89,923 o ymweliadau â'r tudalennau.
- Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin oedd y gwasanaeth Dechrau'n Deg cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio ap symudol** i helpu i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd. Datblygodd y tîm yr ap i ymgysylltu mwy, ac i gyfeirio teuluoedd at wybodaeth bwysig a hyrwyddo digwyddiadau yn yr ardaloedd lleol. Mae'r ap yn parhau i fod yn ganolog o ran darparu gwasanaethau, rhannu negeseuon allweddol a rhoi gwybodaeth i'n holl deuluoedd.
- Mae'r *Tîm o Amgylch y Teulu* yn parhau i ail-lunio'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion yn y dyfodol ac wedi dechrau datblygu gwaith partneriaeth â'r 3<sup>ydd</sup> sector ochr yn ochr â chyd-greu, datblygu cymunedol a defnyddio gwirfoddolwyr. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn parhau i weithio ochr yn ochr ag ysgolion a'r *Tîm Presenoldeb* a *Diogelu* a'r *Tîm Cymorth Cynnar* i ddarparu gwasanaeth di-dor i addysg.
- Mae pob un o'r timau gofal plant wedi parhau i ddefnyddio dull systemig o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol. Mae 30 aelod o staff, gan gynnwys rheolwyr, ar fin cwblhau'r cymhwyster Blwyddyn Sylfaen mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Systemig a chafodd gweithwyr cymdeithasol o bob rhan o'r gwasanaeth Gyflwyniad 3 diwrnod i Ymarfer Systemig hefyd. Mae'r hyfforddiant wedi helpu i gynyddu hyder yn ogystal â sicrhau dull gweithredu cyson yn y timau. Nododd gwiriad sicrwydd diweddar gan [Arolygiaeth Gofal Cymru](#) (AGC) fanteision gweithio mewn podiau a oedd 'yn amlwg yn hyrwyddo dull cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau o weithio gyda theuluoedd. Cofnodion a oedd yn nodi cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n glir. Roedd y cynlluniau'n amlinellu nodau cyraeddadwy clir i ddiogelu plant a gwella eu llesiant drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion' (cyfieithiad).



### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Mae'r adain *Cynhwysiant* wedi parhau i ddarparu pob maes gwasanaeth drwy gydol y pandemig i ddisgyblion ag ADY a phob disgybl sy'n agored i niwed. Mae'r dulliau darparu wedi'u haddasu ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid megis teuluoedd, ysgolion, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant ac Iechyd, gan sicrhau y gwneir pob ymdrech i barhau i ddarparu prosesau statudol a gwasanaethau cymorth.
- Mae'r rhaglen Trawsnewid ADY ar fin cael ei rhoi ar waith ac felly mae'r prif ffocws ar gyfer gwella yn ymwneud â throsglwyddo i'r dull newydd o gynnal y dyletswyddau statudol ar gyfer plant ac oedolion ifanc ag ADY rhwng 0 a 25 oed fel y nodir yn y ddeddf newydd a'r côd ymarfer statudol.

## Pecynnau Gweithgareddau i deuluoedd Dechrau'n Deg

Mae pecynnau gweithgareddau wedi cael eu rhoi i bron 1,800 o deuluoedd Dechrau'n Deg yn Sir Gaerfyrddin er mwyn i'w plant ifanc allu eu defnyddio yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae pob pecyn yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sy'n addas i'r oedran ac sy'n dod mewn bocs sy'n gallu cael ei droi'n Focs Taro, Taro a ddefnyddir yn y sesiynau iaith a chwarae a ddarperir gan y cynllun Dechrau'n Deg. Mae eitemau eraill ar gyfer gweithgareddau yn cynnwys llyfrau, teganau anifeiliaid, swigod, paent a deunyddiau celf, pêl, pypedau canu, pecynnau creu Playdoh, pecynnau creu poteli ysgwyd, byrddau loto, creonau a sialc a deunyddiau amrywiol i'r synhwyrâu a fydd yn helpu i gymell y plant tra byddant yn aros gartref.

Dywedodd rhiant y mae ei blant wedi elwa o'r pecynnau:

*"Mae'r merched wedi cael oriau o hwyl yn gwneud gweithgareddau, ac roeddent wrth eu bodd yn gludo, peintio a defnyddio'r Playdoh.*

*Mae'r pecynnau hyn yn syniad hyfryd ac maent wedi cyrraedd ar yr union adeg iawn."*


Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru i roi dechrau'n deg mewn bywyd i blant o dan bedair oed. Dywedodd y Cyngorydd Glynog Davies, yr Aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor dros Wasanaethau Plant:

*"Mae'r pecynnau gweithgareddau hyn yn hwyl, yn gyffrous ac yn helpu i gadw meddyliau ifanc yn effro a'u hysbrydoli yn ystod y cyfyngiadau symud.*

*Rydym yn falch o weithio gyda'r heddlu sy'n helpu i ddsbarthu'r pecynnau ledled y sir."*

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi ymuno â Chyngor Sir Caerfyrddin i helpu â'r gwaith dosbarthu drwy ddefnyddio eu faniau heddlu a'u gyrwyr. Dywedodd y Prif Arolygydd Thomas Sharville, Heddlu Dyfed Powys:

*"Mae'r cynllun Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth mawr ei angen i deuluoedd ifanc yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'n bleser gan Heddlu Dyfed-Powys weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin drwy ddarparu gyrwyr a cherbydau i ddsbarthu pecynnau gweithgareddau Dechrau'n Deg i'n cymunedau."*



### Symud ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22.



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 2

### Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

#### Gordewdra ymhlith plant yn cynyddu yn Sir Gaerfyrddin

Mae data Rhaglen Mesur Plant 2018/19 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn dangos bod **dros 30%** o blant 4 i 5 oed yn Sir Gaerfyrddin dros bwysau neu'n ordew, sef y ffigur **5<sup>ed</sup> uchaf** yng Nghymru.

#### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Nododd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mai chwarae yn yr awyr agored oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd i blant ond canfu hefyd fod 32% o rieni'n poeni am ddiogelwch eu plentyn.
- ⊙ Dangosodd gweithgarwch asesu gyda phlant ysgolion cynradd fod bod yn gorfforol egniol yn ffactor pwysig er llesiant cadarnhaol plant.
- ⊙ Mae byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- ⊙ Mae arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.


#### Mesur Llwyddiant

**30.4%** o blant dros bwysau neu'n ordew (2018/19)


(Mae hwn yn gynydd ar ffigur y flwyddyn flaenorol sef 26.6% 2017/18)



Cyflawnir y rhaglen mesur plant gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) gyda phlant sy'n mynychu dosbarth derbyn mewn ysgolion yng Nghymru.



Bu tuedd ar i lawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf o fod â'r ffigur 3<sup>ydd</sup> uchaf yng Nghymru yn 2014/15 i fod ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2017/18. Yn anffodus, mae data 2018/19 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021) yn dangos cynnydd yn **% y plant dros bwysau neu'n ordew i 30.2%**, sef y 5<sup>ed</sup> uchaf yng Nghymru ac ychydig yn is na'n canlyniad ar gyfer 2014/15, sef 30.7%. Mae gordewdra yn ystod plentynod yn aml yn parhau i fywyd fel oedolyn, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon a rhai mathau o ganser.



## Cynnydd o ran yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Gweithgaredd Corfforol

- Llwyddodd y Gwasanaethau Hamdden i sicrhau Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan o £25K a chafwyd arian cyfatebol o £52k er mwyn ailddatblygu Lle Chwarae Traeth Llansteffan yn llwyr.
- Mae gwaith sy'n gysylltiedig â defnyddio tiroedd ysgol y tu allan i oriau dysgu yn dal i gael ei oedi oherwydd pandemig COVID-19 a chyfyngiadau cysylltiedig. Dyrannodd Llywodraeth Cymru ddwy ffrwd gyllido yn ystod chwarter tri drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i'w defnyddio erbyn 31 Mawrth 2021. Dyrannwyd £31,000 o gyllid refeniw i Sir Gaerfyrddin i ddarparu darpariaeth chwarae wedi'i staffio ar gyfer plant agored i niwed yn ystod gwyliau'r ysgol hyd at a chan gynnwys gwyliau'r Pasg 2021. Dyrannwyd cyfanswm o £184,092 i Sir Gaerfyrddin ar ffurf grant cyfalaf. Rhoddwyd cyngor, arweiniad a chymorth i Gyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf mewn perthynas â datblygu lle chwarae ar gyfer tref Hendy-gwyn ar Daf yn unol â rheoliadau Cyfraniadau Adran 106. Rhoddwyd cyngor, arweiniad a chymorth i'r Gweithwyr Chwarae yn y Canolfannau Plant Integredig o ran cyflwyno sesiynau chwarae rhithwir i deuluoedd o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.
- Bu'r Tîm Ysgolion Iach yn gweithio mewn partneriaeth ag Actif Sir Gâr i hyrwyddo'r ymgyrch 'Miliwn Munud' drwy ein cyfarfodydd rhwydwaith a chlwtwr a defnyddiwyd ein cyfarfodydd clwtwr tymhorol i roi gwybod i ysgolion am y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch Hybu Gweithgarwch Corfforol yn ystod COVID-19 a hefyd eu cyfeirio at Ganllawiau Addysg Gorfforol a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuentid mewn perthynas â chyflwyno gwersi Addysg Gorfforol a Hybu Gweithgarwch Corfforol.



### Bwyta'n Iach

- Lluniodd y Tîm Ysgolion Iach Becyn Cymorth ynghylch Cinio Pecyn Iach i Deuluoedd.
- Ymrwymodd yr Awdurdod Lleol i ddarparu prydau ysgol am ddim drwy gydol y pandemig gan ddarparu bagiau bwyd, talebau a thaliadau uniongyrchol fel y bo'n briodol. Roedd bagiau bwyd Prydau Ysgol am Ddim bob amser mor faethlon ag y gallem eu gwneud gan ystyried diogelwch bwyd (yn dibynnu faint o amser y byddai'n ei gymryd i'w cludo). Gwnaethom hefyd gynnig syniadau ynghylch beth i'w wneud gyda'r eitemau, e.e. salad pasta tiwna.

### Iechyd Meddwl

- Mae'r Cynllun Ysgolion Iach wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol i fynd i'r afael ag Iechyd Meddwl:
  - Wedi trefnu ac ariannu 6 chwrw 'Strategaethau i Gefnogi Person Ifanc Gorbryderus';
  - Wedi trefnu ac ariannu 2 gwrs Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuentid;
  - Wedi trefnu a chydgylltu 2 weithgaredd Cymuned Dysgu Proffesiynol - Addysg Personol a Chymdeithasol ar gyfer Ysgolion Uwchradd a oedd yn canolbwyntio ar Iechyd a Llesiant Meddyliol ac Emosiynol;
  - Wedi cyfrannu at yr ymgyngoriad ynghylch y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl drwy gynnig awgrymiadau ar sut i wella Dull Asesu'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl ar gyfer ysgolion;
  - Wedi chwarae rhan allweddol wrth sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer llunio a chyhoeddi Pecyn Cymorth Trawsrywedd i Ysgolion.

### Codi Ymwybyddiaeth

- Mae'r Cynllun Ysgolion Iach wedi creu a diweddarau sawl cyfeiriadur adnoddau sy'n hyrwyddo Iechyd Corfforol, Iechyd Meddwl ac Emosiynol, Bwyta'n Iach a mwy o ymwybyddiaeth o Ffyrdd Iach o Fyw, ac mae'r rhain wedi cael eu lanlwytho ar y Rhwydwaith Ysgolion Iach ar Hwb, Sharepoint a gwefan y Cyngor. Cynlluniwyd yr adnoddau i'w defnyddio gan ddisgyblion o bob oed a'u teuluoedd, a chan y Canolfannau Ysgol, teuluoedd â disgyblion yn dysgu gartref ac ar gyfer dysgu cyfunol gan ysgolion yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud.

- ⊙ Rhoddodd y Tîm bwyslais hefyd ar bwysigrwydd dysgu / darpariaeth yn yr awyr agored ac mae wedi rhoi gwybod i ysgolion am hyfforddiant perthnasol sy'n cael ei ddarparu a gwefannau rhagorol a all eu helpu i gynyddu'r ddarpariaeth dysgu yn yr awyr agored. O ganlyniad, cafodd nifer o athrawon hyfforddiant a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent wedi cofrestru ar wefan SOUL (Gwefan Dysgu yn yr Awyr Agored) sy'n darparu adnoddau am ddim i ysgolion.
- ⊙ Mae'r maes dysgu Iechyd a Llesiant yn ffocws allweddol wrth inni baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae grŵp strategol trawsddisgyblaethol yn canolbwyntio ar helpu ysgolion i ymgymryd â gweithgarwch pwrpasol yn y maes dysgu, fel y dangoswyd gan y rhaglen Iechyd a Hapusrwydd, a ddatblygwyd i gynorthwyo ysgolion yn ystod y pandemig. Mae llythrennedd corfforol yn ystyriaeth bwysig, gyda chyfleoedd pellach i ddysgu yn yr awyr agored e.e. drwy ein prosiect Dysgu drwy Dirweddau.

## Y ffordd rydym yn gweithio

### Miliwn Munud Actif

Wrth i'r newyddion dorri na fyddai ysgolion ledled Cymru yn agor am gryn amser yn y flwyddyn newydd oherwydd cyfnod arall o gyfyngiadau symud, aeth y tîm Cymunedau Actif ati i greu her hwyliog i ysgolion a fyddai'n dal sylw'r Sir.

Nod yr Her Miliwn Munud Actif oedd ysgogi ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'w cael i fod yn egnïol drwy'r cyfnod anodd hwn. Aeth ysgolion ati i hyrwyddo gweithgarwch corfforol, Addysg Gorfforol, adnoddau oedd ar gael gan Gymunedau Actif a gweithgareddau gan Gyrrff Llywodraethu Cenedlaethol ledled Cymru mewn ymgais i gael plant i symud mwy.

Nod yr her oedd cael holl ysgolion y sir i gyflawni 1,000,000 o funudau actif rhyngddynt, gyda phob ysgol yn derbyn ei tharged penodol ei hun ar sail nifer y disgyblion yn yr ysgol. Heriwyd yr ysgolion i gyrraedd eu targedau i gael eu cynnwys mewn raffl fyw lle roedd cyfle i ennill gwerth £500 o offer chwaraeon.

Dechreuodd yr her ar 1 Chwefror ac fe gofrestrodd 76 o ysgolion i fod yn rhan o'r her hon ledled y sir, sy'n rhif arbennig. Roedd yr her ei hun wedi'i hanelu at ddisgyblion ysgol i ddechrau, ond oherwydd yr holl negeseuon e-bost gan staff oedd am gymryd rhan, penderfynwyd y byddai'r her yn cynnwys aelodau o staff hefyd!

Yn ystod y pythefnos cyntaf cofnodwyd 580,000 o funudau actif, sef rhif anhygoel, a chofnodwyd 880,115 erbyn y drydedd wythnos ac yna ffigur terfynol o **2,033,874**.



## Dysgu yn yr Awyr Agored yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin



Mae ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin yn croesawu dysgu yn yr awyr agored.

Gan ganolbwyntio'n gadarn ar gefnogi iechyd a llesiant dysgwyr a staff, mae timau'r awdurdod lleol wedi bod yn tynnu sylw at fanteision corfforol, emosiynol ac addysgol dysgu yn yr awyr agored. Cefnogwyd ysgolion drwy amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi, adnoddau a phrosiectau, gan arwain at ddatblygiadau gwych ledled y sir.

Mae llawer o ysgolion wedi adeiladu ystafelloedd dosbarth awyr agored, ac mae'r rhan fwyaf yn mynd ati'n frwd i ddatblygu eu gerddi a'u mannau awyr agored. Yn ystod *Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored ym mis Ebrill*, cafodd lluniau o amrywiaeth gwych o weithgareddau dysgu trawsgwricwlaidd eu rhannu ar wefannau ysgolion.



Mae disgyblion wedi bod yn cerdded o amgylch yr ardal leol yn chwilio am arwyddion o'r gwanwyn. Y tymor hwn maent yn plannu ffrwythau a llysiau ac yn dysgu am fwyta'n iach. Mae llawer yn helpu i wella bioamrywiaeth drwy greu ardaloedd 'gwyllt' yn yr ardal leol.

Mae sawl prosiect wedi cael eu dechrau i gefnogi'r agenda dysgu yn yr awyr agored, gan gynnwys: *Walk The Global Walk*, *y Lanternwyr a Geiriau Diflanedig*, sydd i gyd yn hyrwyddo cysylltiad â natur ac ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd. Gyda chymorth y tîm Incredible Edibles, mae disgyblion yn creu 'gerddi heddwch', a fydd yn darparu lleoedd i blant ymlacio, myfyrio a dysgu.

Mae dau brosiect Erasmus, sef '*Utopia*' a '*Tyfu Gyda'n Gilydd ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus*' hefyd ar y gweill i alluogi ein hathrawon i ddysgu o arferion gorau mewn gwledydd megis Sweden a Gwlad Groeg.

Sefydlwyd rhaglen *Ysgolion Awyr Agored Sir Gaerfyrddin* i helpu ac arwain ysgolion wrth iddynt geisio bod yn lleoedd iachach a hapusach i bawb.

**Fideo: Dysgu yn yr awyr agored yn Ysgol Gynradd Tre Ioan**

<https://www.i2e.com/johnstown-primary-school/Mr+C/Outdoor+Learning+Autumn+2020/>

### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.





## Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr

### Mae'r gwaith o gefnogi cynnydd, cyflawniad a llesiant wedi parhau mewn amgylchiadau anodd

Yn anffodus, oherwydd COVID-19 a'r sefyllfa ar hyn o bryd, nid oes gennym ddata diwedd cyfnod allweddol ar gyfer tymor yr haf 2020 o ran y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol (CA) 2 a CA3. Ar hyn o bryd mae ysgolion yn ailasesu disgyblion ac yn nodi asesiad sylfaenol newydd i unigolion yn dilyn cyfnod y cyfyngiadau symud. Dyfarnwyd y graddau a ragwelwyd i ddisgyblion CA4 a CA5. *Nid oes gennym fynediad i'r data hwn yn ganolog fel sir felly ni ellir cymharu â blynyddoedd blaenorol.*

#### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- ⊙ Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac ym myd gwaith.
- ⊙ Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015)
- ⊙ Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#).

#### Mesurau Llwyddiant

*Sgôr gyfartalog ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 – yn seiliedig ar asesiadau athrawon yn hytrach nag arholiadau oherwydd COVID-19*

- ⊙ Y sgôr gyfartalog ddiwethaf a gyhoeddwyd yn seiliedig ar y **9 canlyniad arholiad gorau** ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn ystod 2019/20 (Blwyddyn Academaidd 2018/19) yw 367.2 lle roedd gan y merched sgôr gyfartalog o 378.5 a'r bechgyn 356.4. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ac yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 354.4.

*Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd - nid yw data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19*

- ⊙ Oherwydd y pandemig, y tarfu ar ysgolion a'r angen i ddysgu gartref am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, nid yw data presenoldeb wedi'i gofnodi yn yr un modd ac felly nid adroddwyd ar y data hwn. Roedd y data diwethaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2019/20 (Blwyddyn Academaidd 2018/19) yn dangos bod presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng ymhellach i 93.5% a bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros yr un fath, sef 93.9%.

*Bodlonrwydd ar Ysgol Gynradd Plentyn - nid yw data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19*

- ⊙ Oherwydd COVID-19, nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael ar gyfer mesur Arolwg Cenedlaethol Cymru o ran bodlonrwydd ar ysgol gynradd plentyn. Dangosodd data diweddaraf 2019/20 fod 95% o'r cyfranogwyr yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn yn Sir Gaerfyrddin, ac roedd hyn wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol (84%) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gall hyn fod yn anwadal yn dibynnu ar yr aelwydydd a holwyd yn ystod y flwyddyn.

## Cynnydd o ran yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

- ⊙ Rhoddodd swyddogion o'r adran Addysg a Gwasanaethau Plant gymorth yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol gan roi ystod bwrpasol o gymorth i ysgolion yn unol â'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer ysgolion unigol a'r cyd-destun presennol o ran y pandemig COVID. Mae ymgynghorwyr cymorth addysgol, swyddogion Cynhwysiant, Seicolegwyr Addysg, swyddogion cymorth ymddygiad a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos â'n hysgolion a'n lleoliadau, gan gefnogi prosesau gwerthuso a sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei ddarparu a'i hwyluso gan yr awdurdod lleol, ysgolion partner a'r rhanbarth yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion, eu cynnydd a'u llesiant.
- ⊙ Mae buddsoddi mewn ysgolion yn parhau fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg:



Ysgol newydd gwerth £4.3m i blant a staff  
Ysgol Rhys Prichard



Plant Pum Heol yn symud  
i ysgol newydd gwerth £4.5m



Buddsoddiad o £4.5m yn  
trawsnewid Ysgol Llangadog ar  
gyfer staff a disgyblion

- ⊙ Mae dogfen bresennol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) bellach yn ei blwyddyn olaf ond un. Byddwn yn parhau i sicrhau y cedwir at y negeseuon allweddol a bod newidiadau penodol o ran darpariaeth ysgolion yn parhau i fynd rhagddynt. Oherwydd COVID-19, mae oedi o ran rhyngweithio ag arweinwyr ysgolion ynghylch symud ar hyd y continwwm iaith. Fodd bynnag, mae trafodaethau ynghylch Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn parhau gan ganolbwyntio ar gynydd iaith.
- ⊙ Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn heriol i lywodraethwyr ysgolion. Rydym wedi gweithio gyda nhw i ddatblygu eu sgiliau digidol i hwyluso cyfarfodydd ar-lein. Rydym yn parhau i annog pobl i fod yn llywodraethwyr ysgolion.
- ⊙ Yn dilyn adolygiad o'n gwasanaethau cymorth ymddygiad arbenigol, mae'r Model Pedwar Cam newydd wedi'i roi ar waith; Cam 1 - cynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion; Cam 2 - darparu pecynnau cymorth mwy cadarn gan y tîm canolog ar y safle; a Cham 3 a 4 - gwella'r ddarpariaeth sef yr Unedau Cyfeirio Disgyblion oddi ar y safle a lleoliadau Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol hirdymor. Mae'r Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad yn cael ei ddatblygu i gynyddu capasiti gan weithio'n uniongyrchol gyda phrosesau ysgol gyfan ar gyfer hyfforddiant a chynghor i gefnogi a gwella sgiliau staff i weithio gydag unigolion gyda'r nod hirdymor o wella sgiliau ysgolion i weithio gyda disgyblion cymhleth gan leihau nifer y disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol tymor hir a chyd-fynd yn well â model ymyrraeth tymor byr.

### Y Rhaglen Iechyd a Hapusrwydd

Gydag ymdeimlad o obaith, creodd y tîm gwella ysgolion ddull ar gyfer arferion y dosbarth a gweithgareddau y gellir eu defnyddio i gefnogi staff a'u disgyblion wrth dychwelyd i'r ysgol mewn ffordd ddiogel a llawen. Ystyriwyd pob grŵp oedran ac anghenion amrywiol. Gall yr ysgolion gymhwyso'r dulliau a'r egwyddorion seicolegol a gyflwynir yn y *Rhaglen Iechyd a Hapusrwydd* yn hyblyg a gellir eu dehongli i gyd-fynd â chyd-destun yr ysgol. Mae ymchwil wedi nodi pum egwyddor allweddol sy'n cefnogi adferiad yn dilyn digwyddiad difrifol: *Ymdeimlad o ddiogelwch; ymdeimlad o dawelwch; ymdeimlad o hunan-ffeithiolrwydd a chyd-ffeithiolrwydd; cysylltioldeb cymdeithasol a hyrwyddo gobaith.*


I lawer o ddisgyblion, mae dychwelyd i'r ysgol yn rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, i eraill, mae'n gyfnod o ofid a phryder. Efallai fod rhai disgyblion yn cario baich emosiynol mawr ac mai'r ysgol yw'r unig lle maent yn gallu siarad am hyn. Mae gan oedolion yn yr ysgol sy'n gwrando ag empathi swyddogaeth therapiwtig bwysig, heb fod yn therapyddion. Mae'r gweithgareddau yn y rhaglen yn rhoi amser a chyfleoedd i ddisgyblion siarad am eu profiadau a'u hemosiynau.

Mae'r Rhaglen Iechyd a Hapusrwydd wedi'i rhannu'n 3 phrif faes:

- ymdeimlad o leoliad, ac ymdeimlad o berthyn
- gofalu am ein cyrff a'n meddyliau
- ein taith ddysgu



Cyflwynir tudalen gweithgareddau cynhwysol ar gyfer pob cyfnod ysgol yn ymwneud â phob un o'r 3 phrif faes. Mae'r holl weithgareddau â chôd lliw sy'n dangos sut maent yn berthnasol i'r 5 ffordd at les. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys gweithgareddau llythrennedd a rhifedd estynedig a chyfoeth o awgrymiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo Grym Stori. Mae'r rhaglen yn rhyngweithiol â hyperddolenni i adnoddau a deunyddiau ychwanegol. Mae hefyd yn cynnwys dolenni byw i wefannau ac apiau ategol.



### Prosiect y Lanternwyr

Ysbrydolwyd Prosiect y Lanternwyr gan y llyfr *The Lightbringers/Y Lanternwyr*, a grëwyd gan Karin Celestine, sef stori am obaith y bydd golau bob amser yn dychwelyd, hyd yn oed yn y dyddiau tywyllaf.

Lansiwyd y prosiect ym mis Ionawr 2021 i gynnig cymorth ac ysbrydoliaeth addysgol i gymunedau ysgol yn ystod dyddiau tywyllaf y pandemig gan adeiladu ar egwyddorion y *Rhaglen Iechyd a Hapusrwydd*. Cafodd pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin gopiâu dwyieithog o'r llyfr, ynghyd â syniadau ac adnoddau ymarferol i gefnogi iechyd, llesiant ac ymagwedd gydweithredol at y Cwricwlwm i Gymru. Er bod llawer o'r prosiect wedi gorfod cael ei gyflwyno ar-lein, mae'n cefnogi ymagwedd gyfannol at 'ddysgu cyfunol', gan ddarparu amrywiaeth o syniadau trawsgwricwlaidd i ysgolion a theluoedd gysylltu â natur a bod yn greadigol. Fel rhan o'r prosiect, mae disgyblion wedi mwynhau gweithio gyda'r awdur, Karin Celestine; Rufus Mufasa, Bardd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol; arbenigwyr celf ac arbenigwyr llesiant.

Ar ddiwedd yr uned gyntaf cynhaliwyd yr Her Lanternau pan gafodd ffenestri ledled Sir Gaerfyrddin eu goleuo gan lanternau hardd, gan rannu negeseuon cadarnhaol o gyfeillgarwch ac undod.

Mae Prosiect y Lanternwyr wedi rhoi cyfleoedd i deuluoedd fwynhau dysgu gyda'i gilydd, yn ogystal â hyrwyddo strategaethau i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol ar draws cymuned ehangach yr ysgol. Mae penaethiaid wedi cydnabod effaith gadarnhaol y gwaith hwn ac yn ddiweddar mae wedi cael cydnabyddiaeth yn y Senedd: [https://twitter.com/senedd\\_hmj/status/1359578890419789825?s=12](https://twitter.com/senedd_hmj/status/1359578890419789825?s=12).



### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 yn dangos Amcan Llesiant 3 wedi'i gyfuno ag Amcan Llesiant 4 i greu'r amcan canlynol:

***Dechrau'n Dda - Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau'r holl ddysgwyr***



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol.


### Gweithio tuag at sicrhau bod Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yn parhau

Mae nifer y bobl ifanc NEET Blwyddyn 11 yn Sir Gaerfyrddin wedi aros yn gyson o'i gymharu â dwy flynedd yn ôl. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET Blwyddyn 13 yn 2021. Ceir y canlyniadau o Arolwg Hynt Disgyblion Gyrfa Cymru, ond ni chafodd ei gynnal ym mis Mawrth 2020 o achos y pandemig COVID-19, ac felly ni allwn gymharu'r canlyniadau â'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf COVID-19 rydym wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn NEET, gan ddarparu cymwysterau, sicrhau proses bontio lwyddiannus i'r coleg a gwella ymgysylltiad o ran gweithgareddau a chymorth ychwanegol.

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn lleihau effaith tloedi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddu.
- ⊙ Mae mwyhau cyfleoedd bywyd plant yn hanfodol, a sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion, i Golegau Addysg Bellach, i gael prentisiaethau, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- ⊙ Mae'n galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.

### Mesurau Llwyddiant




Mae **1.8%** o ddisgyblion blwyddyn 11 a (wedi aros yn gyson o gymharu â 18/19)

**3.5%** o ddisgyblion blwyddyn 13 yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ) (gwelliant ar 4.9% yn 18/19)

### Egluro'r Canlyniadau

- ⊙ 1.8%, neu 32 o ddisgyblion **Blwyddyn 11** yn NEET yn 2020/21 (*Blwyddyn Academaidd 2019/20*), sy'n cyfateb i 96.1% o ddisgyblion, neu 1,765 o ddisgyblion sy'n dal mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Roedd nifer fach o ddisgyblion (22), naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael Sir Gaerfyrddin. Y canlyniad oedd y 15<sup>fed</sup> gorau yng Nghymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.7%.

Data Cyrchfannau ar gyfer Disgyblion B11 Sir Gaerfyrddin (Blwyddyn Academaidd 2019-20)



- ⦿ Roedd yn hysbys bod 3.5% neu 23 allan o 652, o ddisgyblion **Blwyddyn 13** yn NEET, ac roedd 15 o ddisgyblion naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael yr ardal. Y canlyniad oedd y 9<sup>fed</sup> gorau yng Nghymru ac yn gyfartal â chyfartaledd Cymru. Mae'r ffactorau oedd yn effeithio ar y canlyniad o'r blaen yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffyg adnabod gan ysgolion o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn dilyn canlyniadau Safon Uwch. Byddwn yn ceisio data ansoddol i wella'r sefyllfa hon.

## Cynnydd o ran yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

- ⦿ Ers i brosiect *Cynnydd* ddechrau bedair blynedd yn ôl mae 141 o bobl ifanc wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm, a dim ond 15 (11%) o'r bobl ifanc hynny sydd ddim mewn addysg na hyfforddiant. Er y gwelwyd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau yn sgil y pandemig, cafodd 32 o bobl ifanc eu hatgyfeirio ac aeth 75% ohonynt ymlaen i addysg bellach, hyfforddeiaeth neu waith.
- ⦿ Mae staff ôl-16 wedi cadw mewn cysylltiad â'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi. Os bernir bod unrhyw blentyn/person ifanc yn agored i niwed/mewn perygl, gofynnwyd am ganiatâd gan Bennaeth y Gwasanaeth ynghylch cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb. Lle bo'n bosibl, mae gwaith ieuentid datgysylltiedig wedi cael ei ddarparu yn lle clybiau ieuentid, a chaniatawyd i Ganolfannau Ieuentid Streets a Bwlch ailagor drwy'r Drefn Reoli Arian/Aur. Mae'r canolfannau'n cael eu defnyddio ar gyfer sesiynau galw heibio drwy apwyntiad yn unig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r un peth yn wir am Ganolfan Ieuentid Dr Mz o dan drefniadau partneriaeth.
- ⦿ Mae adolygiad dysgu ôl-16 wedi dechrau a fydd yn cwmpasu priodoldeb llwybrau dysgu yng Nghyfnod Allweddol 4 i addysg, byd gwaith a hyfforddiant ôl-orfodol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cydgysylltu'n agos â'n darparwr Addysg Bellach Lleol.
- ⦿ Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Dysgu Cymunedol wedi datblygu cyfleoedd dysgu cyfunol newydd ac arloesol ar gyfer dysgwyr Sgiliau Hanfodol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae staff wedi dilyn hyfforddiant mewn Addysgeg Ddigidol ac wedi rhoi cymorth i ddysgwyr o ran dysgu digidol yn ogystal â llythrennedd, rhifedd a dysgu iaith. Mae dysgwyr wedi parhau i gyfranogi a chyflawni deilliannau lle bo hynny'n bosibl.
- ⦿ Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuentid wedi ymuno â'r Siarter Cyfranogiad yn ystod chwarter olaf eleni, yn dilyn trafodaethau gyda Phlant yng Nghymru, ac yn deillio o waith sy'n gysylltiedig â'r hunanasesiad diwethaf a gwblhawyd gan y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y bydd pob tîm yn y gwasanaeth yn cynnal hunanasesiad o gymharu â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol o fis Mawrth 2021 ymlaen o ran ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc sy'n NEET.
- ⦿ Mae darpariaeth y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Mae MS Teams wedi cael ei ddefnyddio i gynnal Cyfarfodydd Cymorth i Gyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant, yn ogystal â Chyfarfodydd Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed. Mae'r cyswllt wedi parhau â Gyrfa Cymru. Mae Gweithwyr Cymorth Ieuentid wedi darparu cymorth un i un i blant a phobl ifanc.
- ⦿ Mae'r Awdurdod Lleol a'r Consortia Rhanbarthol yn datblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru sy'n cyd-fynd â'r tîm cynhwysiant. Mae sicrhau addysgeg dda yn diwallu anghenion disgyblion unigol ar bob lefel. Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi dechrau'r daith o gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith ymgysylltu a'r cynnydd a wneir o ran cyrraedd y nod yn y pendraw yn amrywio oherwydd amgylchiadau gwahanol ysgolion. Mae 88 o ysgolion wedi ymgysylltu â chynnig ERW y llynedd ac mae 105 bellach wedi ymgysylltu â chyfleoedd hyfforddi ERW eleni. Cymerodd 42 o ysgolion ran yn y prosiect Gwyddoniaeth a Thechnoleg a gefnogwyd gan ERW gan ddefnyddio'r grant ysgolion bach a gwledig. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â meysydd anghenion allweddol e.e. Asesu yn llywio dyluniad y cwricwlwm (gwaith trawsadrannol).
- ⦿ Rydym wedi nodi sawl maes ar gyfer datblygu gwasanaethau: Llesiant a Therapi Cerddoriaeth, Menter Cerddoriaeth i Bawb (Cerddoriaeth i Ddysgwyr Agored i Niwed a Dysgwyr sydd o Dan Anfantais) a Phontio Blwyddyn 6 (Celfyddydau Perfformio). Nodwyd y rhain drwy fentrau pilot ac awgrymiadau / cynigion gan benaethiaid.

- Rydym wedi ymestyn a datblygu Rhaglen Seren ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog (MAT) i ddysgwyr cyn-16. Rydym wedi uno â Cheredigion i helpu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyn-16 mewn tair sir (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion). Rydym wedi darparu clwb Brilliant, sefydliad dielw sy'n ceisio ehangu mynediad i'r brifysgol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i bob un o'r 30 ysgol yn y tair sir. Fe wnaethom ddatblygu partneriaeth ag ysgol filfeddygol newydd Aberystwyth gan gynnig digwyddiadau ar gyfer blynyddoedd 8 a 9 a 10-12 a threialu prosiect o ran y dyniaethau ar thema'r holocost gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar gyfer myfyrwyr o bob ysgol. Cynhaliwyd dosbarthiadau meistr mewn pynciau arbenigol hefyd; athroniaeth; ffiseg; llenyddiaeth ac ysgrifennu; y Dyniaethau a Mandarin.

## Y ffordd rydym yn gweithio

### Y Cyngor yn cynnig cam ar yr ysgol yrfaol drwy raglen brentisiaethau llwyddiannus

Mae dros 160 o brentisiaid yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, gan gefnogi'r awdurdod mewn amrywiaeth o rolau wrth iddynt gymryd camau yn eu gyrfa. Mae'r cyngor yn cynnal rhaglen brentisiaethau hir a llwyddiannus ac mae'n cydnabod y cyfraniad y mae prentisiaid yn ei wneud yn ystod Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau (Chwefror 8-14). Mae prentisiaethau'n gyfle gwych i bobl ddysgu sgiliau ymarferol a pharatoi ar gyfer byd gwaith. Mae'r rhaglenni'n darparu cymysgedd o fodiwlau gweithle ac academiaidd sy'n arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae llawer o brentisiaid yn symud ymlaen i gyflogaeth amser llawn gyda'u cyflogwr prentisiaeth neu'n symud ymlaen i gam nesaf eu gyrfa gyda chyflogwr arall.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gweithio gyda llawer o brentisiaid i gwblhau ystod eang o gymwysterau. Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod 166 o brentisiaid sy'n ymgymryd â llawer o rolau gwahanol ac yn gweithio tuag at nifer o gymwysterau gwahanol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf y pandemig, mae 10 prentis newydd wedi ymuno â thîm y cyngor.

Maent yn cynnwys Alaw Roberts ac Eve Bryan sy'n brentisiaid *MakerSpace* yn Llyfrgell Caerfyrddin a Llyfrgell Rhydaman; Alex Caswell, Evan Davies a Ben Cooke sydd wedi ymuno â'r cyngor fel prentisiaid Camau Nesaf, yn gweithio ar gynnal a chadw eiddo.

A Finn Quick, Elliot Lewis, Rhydian Jones, Tomos Williams ac Elliot Brice sy'n ymgymryd â phrentisiaethau uwch y Sefydliad Siartredig Adeiladu mewn rheoli adeiladu.

Mae prentisiaethau'r cyngor hefyd yn hyblyg - dechreuodd Poppy Evans ei phrentisiaeth gyda'r cyngor fel cynorthwydd cymorth busnes ond yn ddiweddar mae wedi symud ymlaen i'r tîm Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn helpu i recriwtio ac ymgysylltu â rhieni maeth newydd.

Mae Poppy, sy'n ymgymryd â'i phrentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn un o 10 llysgennad prentisiaethau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020/2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae'n cynnal vlog llwyddiannus am ei phrofiad prentisiaeth.

## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 yn dangos Amcan Llesiant 4 wedi'i gyfuno ag Amcan Llesiant 3 i greu'r amcan canlynol-  
**Dechrau'n Dda - Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau'r holl ddysgwyr**



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# Byw'n Dda






## Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### Mae dros draean o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn dal i fyw mewn tlodi

Yn ystod 2020, dosbarthwyd **27,691** o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn rhai oedd yn byw mewn tlodi, sef ychydig o gynnydd o gymharu â 27,576 yn y flwyddyn flaenorol.



*Diffiniad tlodi yw pan fo "incwm aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain" (yn 2020 llai na £19,967)*

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar **bob** agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau
- ⊙ Gall tlodi fod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol
- ⊙ Roedd dwy o wardiau Sir Gaerfyrddin (Tyisha a Glanymôr) yn yr 20 ward waethaf ar gyfer tlodi plant yng Nghymru (y ddau yn 41.3%) *Ffynhonnell: End Child Poverty, Loughborough University, 2019*

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

*Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi - gweler y sylw a'r siart uchod.*

#### Atal Digartrefedd

Llwyddwyd i atal **46.4%** o aelwydydd yr oedd digartrefedd yn fygythiad iddynt rhag mynd yn ddigartref

*Yr un ganran â'r flwyddyn flaenorol (46.4% 193/416 x100)*



- ⊙ O blith y 377 o aelwydydd yr oedd **digartrefedd yn fygythiad iddynt** yn ystod 2020/21, **llwyddwyd i atal 175 rhag mynd yn ddigartref - 46.4%**, yr un ganran â 2019/20 ond llai o aelwydydd yr oedd digartrefedd yn fygythiad iddynt. O ganlyniad i COVID-19, newidiodd Llywodraeth Cymru y gyfraith ynghylch digartrefedd sef bod pob person digartref sengl, waeth beth fo'i hanes blaenorol, yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ac roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu llety dros dro a llety parhaol. Yn sgil y galw newydd hwn cyflwynwyd grŵp newydd o bobl i ni (rhai sy'n cysgu ar y stryd a syrffwyr sofffa). Roedd eu hamgylchiadau'n ei gwneud yn anodd i ni wneud gwaith atal. Er gwaethaf y galwadau newydd cynyddol hyn, yn gyffredinol roeddem yn gallu cynnal ein gwaith atal digartrefedd o'i gymharu â'r llynedd.

*Y bwllch rhwng canlyniadau arholiadau disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt - nid yw data wedi'i ddiweddararu ar gael*

- ⊙ Roedd y data diwethaf a gyhoeddwyd ynghylch y **bwllch rhwng canlyniadau arholiadau disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt** am y cyfnod 2019/20 (Blwyddyn Academaidd 2018/19), sef **17.9%**. Roedd hyn wedi gostwng 1.8 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol a hwn oedd y 7<sup>fed</sup> bwllch lleiaf yng Nghymru o hyd.



## Byw mewn amddifadedd materol - nid yw data wedi'i ddiweddarau ar gael oherwydd COVID-19

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, dosbarthwyd **11.3%** o'r aelwydydd a gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn **rhai oedd yn byw mewn amddifadedd materol**, ac mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 12.9% ac yn llai na'r flwyddyn flaenorol sef 13.5%. Oherwydd COVID-19, nid oes data wedi'i ddiweddarau ar gael ar gyfer y mesur.
- Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sef y dull swyddogol o fesur amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, mae 3 ardal yn Sir Gaerfyrddin ymhlith y 100 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef Tyisha 2 sydd yn safle 17, Glanymôr 4 sydd yn safle 68 a Bigyn 4 sydd yn safle 84.

## Cynnydd o ran yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Atal tiodi

- Rhaglen Blynnyddoedd Cynnar gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sy'n benodol ar gyfer teuluoedd sydd â phlant dan 4 oed, yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Ei nod yw lliniaru effaith amddifadedd a thlodi ar deuluoedd drwy ddarparu gwasanaethau yn ystod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn. Yn ystod 2019, *Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin* oedd y **Dechrau'n Deg cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio Ap symudol** i helpu i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd. Gweler Amcan Llesiant 2.
- Fel *cyflogwr*:
  - Rydym wedi ymrwymo i dalu'r hyn sy'n cyfateb i'r "**cyflog byw gwirioneddol**" fel y'i pennwyd gan y *Living Wage Foundation* drwy dalu tâl atodol i'r gweithwyr hynny y mae cyfanswm eu cyflog fesul awr yn is na'r cyflog byw. Rydym bellach yn talu'r tâl atodol Cyflog Byw i 115 o weithwyr yn unig, gan sicrhau bod ein gweithlu cyfan yn derbyn o leiaf y cyflog byw gwirioneddol.
  - Mae gwybodaeth gyfeirio ar gael i wasanaethau cynghori ariannol i staff a bydd ein gwasanaeth iechyd galwedigaethol hefyd yn darparu cymorth ac yn cyfeirio lle bo angen.
  - Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu'r *cod ymarfer 'cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi'* sy'n gofyn i'n cyflenwyr ystyried talu'r Cyflog Byw o leiaf. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn ein prosesau caffael a thendro.
- Yn *Refeniw a Budd-daliadau*:
  - Rydym yn darparu cyngor ynghylch manteisio'n llawn ar fudd-daliadau, yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i nodi sut y gellir lleihau gwariant, yn cyfeirio pobl at gymorth arbenigol, yn rhoi cymorth i wneud cais am grantiau a budd-daliadau ac yn dosbarthu talebau banc bwyd.
  - Wrth brosesu hawliadau, mae staff Budd-dal Tai yn aml yn gallu nodi a oes angen cyfeirio pobl i gael cyngor mwy manwl ynghylch manteisio'n llawn ar fudd-daliadau, cyllidebu personol neu gyngor ynghylch dyledion. Yn ogystal, maent yn darparu cymorth i gwblhau ceisiadau am fudd-daliadau.
  - Mae ein tîm adennill y Dreth Gyngor hefyd yn nodi pryd y gallai unigolion fod yn hawlio gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu'n elwa ar gyngor ynghylch cyllidebu neu ddyledion.
  - Rydym yn gweinyddu nifer o gynlluniau budd-daliadau a ddefnyddir gan ein preswylwyr sydd angen cymorth i dalu eu rhent neu eu biliau'r Dreth Gyngor:
    - Mae Budd-dal Tai yn helpu pobl ar incwm bach i dalu eu rhent. Gellir ei ddefnyddio i dalu rhent i landlord preifat, i Gymdeithas Dai, neu i Gyngor Sir Gaerfyrddin. Hawliodd 9600 o bobl Fudd-dal Tai yn 2020/21.
    - Mae Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn daliad tymor byr y gellir gwneud cais amdano gan y rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol (gyda chostau tai) ond sy'n ei chael yn anodd talu eu rhent a derbyniodd 816 o hawlwy'r Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn 2020/21.
    - Rhoddodd cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gymorth i 16,541 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn 2020/21 i dalu biliau'r dreth gyngor ar gyfer pobl ar incwm isel sy'n hawlio budd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol.
  - Mae staff yng nghanolfannau Hwb y Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth i breswylwyr wyneb i wyneb ynghylch sawl gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor, a gall cwsmeriaid ddychwelyd eu ffurflenni cais am fudd-daliadau i'r canolfannau Hwb lle bydd staff yn gwirio bod yr holl dystiolaeth ategol wedi'i chynnwys.

## Helpu pobl i gael gwaith

	2019/20			2020/21		
	Cyfranogwyr	Cymwysterau	Wedi cael swydd	Cyfranogwyr	Cymwysterau	Wedi cael swydd
Gweithfyrdd+	184	155	70	111	30	55
Gwirfoddoli	84			29		
Cymunedau am Waith	53	33	28	111	16	7
Cymunedau am Waith a Mwy	101	180	45	154	79	58

Cafodd y Pandemig effaith sylweddol ar y ffigurau uchod a chafodd rhai timau eu hadleoli.

## Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi

- ⊙ Yn 2019/20, roedd 17.4% o blant (4,771 o ddisgyblion) yn Sir Gaerfyrddin yn gymwys i gael **prydau ysgol am ddim** yng Nghymru (18%). Fodd bynnag, ar 27 Ionawr 2021, bu cynnydd o 16% ac mae 766 o ddisgyblion ychwanegol yn gymwys yn Sir Gaerfyrddin ers mis Ionawr 2020.
- ⊙ **Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd** - Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, amharodd y pandemig yn fawr ar y gwasanaeth hwn a ddarperir mewn 95 o ysgolion yn y sir (89 ym mis Mawrth gyda'r lleill yn ailddechrau'n araf). Pan ailagorodd ysgolion am y tro cyntaf, cafodd 'bagiau' brecwast eu darparu ychydig cyn dechrau'r diwrnod ysgol mewn rhai ysgolion. Mae clybiau bellach yn cynnig niferoedd/lleoedd cyfyngedig oherwydd y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol, ac ar gyfartaledd cafodd 1,898 o blant eu bwydo bob dydd ym mis Mawrth 2021.
- ⊙ **Grant Datblygu Disgyblion** - Mae'r grant hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i deuluoedd ar incwm isel brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon ac offer. Mae cyllid ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n dechrau blynyddoedd penodol yn yr ysgol gynradd ac uwchradd a hefyd i bob plentyn sy'n derbyn gofal. Mae cyllid o hyd at £125 ar gael ar gyfer pob dysgwr cymwys ac mae'r rhai sydd ym Mlwyddyn 7 yn gymwys i gael hyd at £200. Gweinyddir y grant gan y Cyngor a'r cyfanswm a ddyrannwyd i Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2020/21 yw £5,221,000.
- ⊙ Darparu cyngor ynghylch tai yw un o brif swyddogaethau'r **tîm Cyngor a Chymorth Tenantiaeth**. Mae gan y tîm rôl gydgysylltu o ran sicrhau bod cleientiaid sydd mewn trafferthion yn cael cyngor a chymorth ar fudd-daliadau lles. Mae staff hefyd yn helpu tenantiaid y cyngor i hawlio'r budd-daliadau cywir, gan gynnwys cymorth i lenwi ffurflenni, cwblhau ceisiadau i leihau cost trethi dŵr, cyfeirio at gymorth effeithlonrwydd ynni a rhoi cyngor ynghylch bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grantiau gwisg ysgol.
- ⊙ Yn ystod y pandemig rydym wedi blaenoriaethu'r holl **bobl ddigartref** gan arwain at atal 193 o aelwydydd rhag bod yn ddigartref. Cyn hynny, rhoddwyd blaenoriaeth i deuluoedd a phobl sengl agored i niwed, ond cyflwynwyd grŵp newydd o bobl i ni yn dilyn y pandemig.
- ⊙ Ers mis Ionawr 2019, mae rhieni cymwys yn Sir Gaerfyrddin sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed wedi gallu manteisio ar 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y cynnig gofal plant ei atal gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth oherwydd COVID-19 ond cafodd ei ailgyflwyno ym mis Medi 2020. Ailddechreuodd y Cynnig Gofal Plant yn llawn yn ystod chwarter olaf y flwyddyn gyda dulliau hyrwyddo amrywiol.
- ⊙ Ar hyn o bryd mae **16 o Fanciau Bwyd** yn y Sir ac mae'r Cyngor wedi bod yn darparu cyllid yn uniongyrchol i gefnogi llawer o'r rhain yn ystod COVID-19.
- ⊙ Mae prosiect Tyisha yn parhau i gyflwyno cynllun mentrus a thrawsnewidiol i greu bywiogrwydd, cydlyniant a chynaliadwyedd i'r gymuned. Yn ei dro, bydd hyn yn rhoi uchelgais, dyheadau a buddsoddiad ar gyfer y dyfodol i'r preswylwyr a chenedlaethau'r dyfodol.
  - Rydym yn gweithio i ddarparu tai newydd, gwell mannau gwyrdd, gwella materion gwastraff, mynd i'r afael â throseddau, lleihau tldi ac amddifadedd drwy weithio'n agos gyda phartneriaid.

- Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol o ran datblygu ymdeimlad o le ar gyfer y tymor hir ond hefyd yn weithredol bob dydd. Erbyn hyn mae gennym dîm ymroddedig o wardeiniaid cymunedol, swyddogion datblygu a swyddogion tai i fynd i'r afael â'r materion craidd yn Nhyisha y mae'r preswylwyr yn dweud wrthym amdanynt.



Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad sylfaenol o'n hymagwedd at Drechu Tlodi ac yn paratoi cynllun gweithredu trawsadrannol ar gyfer y Cyngor, i ymateb i faterion allweddol sy'n ymwneud â thlodi, tlodi gwledig a thlodi plant. Byddwn yn trafod hyn ymhellach gyda rhanddeiliaid perthnasol ac aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn ystod 2021-22.

## Y ffordd rydym yn gweithio

### Cydnabod y Cyngor am roi cymorth i fanciau bwyd



Rydym wedi cael ein cydnabod yn genedlaethol ar ôl rhoi rhodd o dros £42,000 ar ffurf talebau bwyd i fanciau bwyd yn ystod y pandemig coronafeirws.

Enillodd **Egni Sir Gâr Cyfyngedig** wobwr gymunedol yng Ngwobrau Ynni Adnewyddadwy Prydain 2020 ar ôl dosbarthu'r talebau i 14 o fanciau bwyd ledled y sir gan ddefnyddio incwm a gynhyrchwyd drwy baneli haul ar doeon.

*Dyweddodd panel beirniadu Ynni Adnewyddadwy Prydain: "Maent wedi ymateb yn hael iawn o gymharu â'u ffrwd incwm. Am ymateb rhyfeddol ac effeithiol ar unwaith i argyfwng. Pe bai sefydliadau eraill ond yn dilyn eu harweiniad."*

Mae'r rhodd yn cynrychioli gwerth oddeutu £70,000 am bob megawat o solar sydd wedi cael ei osod, sef y taliad unigol mwyaf am bob megawat o solar sydd wedi cael ei osod ar gyfer unrhyw gymdeithas budd cymunedol, ffermydd solar masnachol neu bortffolio yn y DU.

Dyweddodd y Cyngorydd David Jenkins, yr Aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor dros Adnoddau a Chyfarwyddwr Egni Sir Gâr: "Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn fwy nag erioed o'r blaen mae pobl wedi gorfod defnyddio'r banciau bwyd i roi bwyd ar eu byrddau felly nid oeddem yn oedi cyn defnyddio'r arian hwn pan oedd ar gael i helpu mwy o deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ac na allant fforddio hanfodion bywyd."

Mae Egni Sir Gâr Cyfyngedig yn gymdeithas budd cymunedol o ran egni a sefydlwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn 2015. Ers hynny, mae wedi gosod 16 panel haul ar doeon adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor. Â chyfanswm o 636 kWp (*kilowatt peak*) wedi'i osod, mae'r trydan a gynhyrchwyd gan y safleoedd hyn dros y 12 mis diwethaf yn cyfateb i ostyngiad o 290 o dunelli o CO<sub>2</sub>e sy'n cyfrannu tuag at ymrwymiad y cyngor i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.

Os ydych yn cael anhawster ac yn methu â fforddio bwyd, cysylltwch â'ch bwyd banc lleol.

## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 6

Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

### Tâl Wythnosol Gros Cyfartalog wedi cynyddu 7% yn Sir Gaerfyrddin (o £536.2 i £572.1)

O ran cyflog uchaf, mae Sir Gaerfyrddin wedi codi o'r 8<sup>fed</sup> safle yng Nghymru yn 2019 i'r 3<sup>ydd</sup> safle yn 2020. Mae hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £541.7

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
- ⊙ Mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Tâl Wythnosol Gros Cyfartalog - Gweler y data wedi'i ddiweddarau uchod

#### Cyflogaeth

### Ffigur cyflogaeth yw 68.6%

(Ebrill 20 – Mawrth 21)

(71.7% o'r blaen)

Isaf ond dau yng Nghymru

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Poblogaeth Arolwg Blynyddol



Bu gostyngiad yn y ffigurau cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin o 71.7% i 68.6% (Blwyddyn yn diweddu Mawrth 2021). Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (72.2%) a chyfartaledd y DU (74.7%), y mae'r ddau ohonynt wedi hefyd wedi gostwng yn y flwyddyn ddi-gyngail hon.

Er eu bod yn siomedig, nid yw'r ffigurau hyn yn annisgwyl ac maent yn cynrychioli'r hyn a fu'n flwyddyn heriol i'r farchnad lafur leol ac ehangach. Mae amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar gyfraddau cyflogaeth ac mae rhai ohonynt y tu allan i faes gorchwyl y Cyngor. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gennym mewn hyrwyddo twf i ddatblygu economi leol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ystyrlon a chynaliadwy. Mae ein Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd a luniwyd yn ddiweddar yn manylu ar rai o'n hymrwymiaidau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o Gronfeydd Cymorth ac Adfer Busnes, hyrwyddo cyfleoedd uwchsgilio ac ailhyfforddi i wella rhagolygon cyflogaeth a pharhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu parthau twf a safleoedd strategol i ysgogi swyddi i gael eu creu.

#### Cymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch



### 40.7%

Cymwysterau hyd at NVQ Lefel 4  
neu uwch

@ Rhagfyr 2020

(41.4% o'r blaen ym mis Rhagfyr 2019)

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Poblogaeth Arolwg Blynyddol

Mae gan 40.7% o oedolion o oedran gweithio sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin **gymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch** ym mis Rhagfyr 2020, ac mae hyn yn ddirywiad bach ar 41.4% y flwyddyn flaenorol ac yn disgyn ychydig o dan gyfartaledd Cymru o 41.4%. Mae'r canlyniad hwn yn ein symud o'r 5ed ffigur uchaf yng Nghymru y flwyddyn flaenorol i lawr i'r 10<sup>fed</sup>.


#### Yn fodlon ar swyddi - nid yw data wedi'i ddiweddarau ar gael o achos COVID-19

- ⊙ Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 fod 78.9% o'r rhai a gymerodd ran yn gymedrol neu'n **fodlon iawn ar eu swyddi**, mae hyn yn is na'r canlyniad blaenorol o 82.5% ac rydym wedi symud i lawr o'r 11<sup>eg</sup> safle i'r 17<sup>eg</sup> safle yng Nghymru. Oherwydd COVID-19, nid oes data wedi'i ddiweddarau ar gael ar gyfer y mesur.

## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Pentre Awel

Bydd Pentre Awel yn sicrhau manteision sylweddol o ran cyflogaeth, recriwtio a hyfforddiant, y gadwyn gyflenwi ac ymgysylltu cymunedol. Mae tîm trawsadrannol wedi gweithio'n helaeth i baratoi'r tendr uchaf ei werth i'w osod gan yr Awdurdod ar tua £70m. Mae datblygu meini prawf ansawdd, mwy o ansawdd yn erbyn dosrannu prisiau (gwyro oddi wrth y sefyllfa ddiodyfyn) a phwyslais ar fudd i'r gymuned yn anelu at sicrhau'r effaith gymdeithasol ac economaidd leol fwyaf posibl. Gan edrych yn ôl ar y flwyddyn, cyrhaeddwyd y cerrig milltir pwysig hyn a fydd yn gosod seiliau cadarn i'r prosiect ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:



- Cymeradwyo Achos Busnes y Fargen Ddinesig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar 17 Mawrth 2021;
  - Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio a gynhaliwyd ar gyfer safle'r Gwesty ym mis Ionawr;
  - Cwblhau dyluniad Cam 3 RIBA;
  - Cynllunio gwasanaeth COVID-19 i sicrhau bod Pentre Awel yn ymateb i ffyrdd newydd o weithio;
  - Gwaith ecoleg (arolygon rhywogaethau a warchodir, trawsleoli) ar gyfer amodau cynllunio;
  - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda phartneriaid addysg, iechyd ac ymchwil.
- Darparom gymorth ychwanegol i helpu a chynghori busnesau a thrigolion Sir Gaerfyrddin pan darodd y pandemig. Sefydlwyd llinell gymorth bwrpasol ac roedd ar gael saith diwrnod yr wythnos i ddechrau. Roedd swyddogion y cyngor wrth law i roi arweiniad ar gymorth ariannol a chymorth arall i fusnesau sy'n mynd i'r afael ag effaith y pandemig. Hefyd, sefydlwyd *tîm busnes pwrpasol* i siarad â busnesau'n uniongyrchol.
- **Gwnaethom helpu dros 4,000 o fusnesau i dderbyn taliadau grant ardrethi busnes Llywodraeth Cymru o rhwng £10,000 a £25,000 gyda chyfanswm o dros £46 miliwn.**
- Cafodd diffyg ymwelwyr â chanol trefi effaith ar fasnach yn ein *neuaddau marchnad*, cynigiom i'n tenantiaid rent am ddim rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, a chynnig gostyngiad o 25 y cant ar rent rhwng mis Gorffennaf a mis Medi i fasnachwyr, a ddangosodd fod hyn wedi cael effaith ar eu trosiant. Hefyd cefnogwyd masnachwyr gan amrywiaeth o grantiau Llywodraeth Cymru.
- Bu i 1,000 o fusnesau ymateb i *holiadur/arolwg ffôn* a gynhaliwyd ym mis Mai 2020 i gael gwybod mwy am yr effaith roedd Covid-19 wedi ei chael ar fusnesau yn Sir Gaerfyrddin - gan nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt yn y tymor byr, tymor canolig a thymor hir, fel y gallwn roi'r cymorth y mae arnynt ei angen fwyaf yn y dyfodol. Bydd canfyddiadau'r ymgysylltu hwn yn rhoi'r llwyfan i ni ddatblygu ein hymateb economaidd a'n cynigion adfer yn y dyfodol
- Cafodd arddangosfa ar-lein newydd ei lansio gan roi sylw i'r busnesau annibynnol lleol gorau yn Sir Gaerfyrddin. Mae cynllun [100% Sir Gâr](#) wedi'i greu gennym gyda chymorth cynghorau tref a chymuned, grwpiau busnes a manwerthu, i roi llwyfan i fanwerthwyr a chynhyrchwyr lleol dynnu sylw at eu cynnyrch. Gall unrhyw fusnes neu gynhyrchydd annibynnol lleol gofrestru i gael ei gynnwys a chymryd mantais ar y cyfle marchnata hwn sydd am ddim. Drwy gofrestru byddant hefyd yn gallu cael cymorth i dyfu a gwella eu busnes. Mae 100% Sir Gâr yn ffenestr siop rithwir, sy'n tynnu sylw at ystod eang o gynhyrchion cartref a chynhyrchion wedi'u gwneud â llaw gan bobl leol dalentog, ac sy'n adnodd hanfodol i bobl siopa, yn ogystal â chefnogi masnachwyr lleol pan fydd angen hynny arnynt fwyaf.

Dyweddodd Shelley Williams-Davies, sy'n rhedeg *Attic Vintage Interiors*, yn Heol y Brenin, Caerfyrddin: "Bydd 100% Sir Gâr yn rhoi cyfle i ni ddenu cwsmeriaid newydd ac arddangos yr hyn sydd gan ein siop i'w gynnig. Gobeithio y bydd yn annog pobl i gefnogi busnesau annibynnol lleol bach hefyd."



- ⊙ Talwyd **97.3% o'n hanfonebau** o fewn 30 diwrnod - ein perfformiad gorau erioed. Mae talu'n brydlon yn hanfodol i fusnesau, yn enwedig ar adeg pan fo ansicrwydd oherwydd y pandemig.
- ⊙ Gweithiodd y [Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol](#) gyda chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i fesur effaith economaidd pandemig COVID-19 a'i effaith ar sgiliau, a lluniodd adroddiadau ar yr effaith ar draws y rhanbarth. Bu i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol nodi nifer o sgiliau allweddol sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig sy'n cysylltu â phrosiectau'r Fargen Ddinesig. Parhau wnaeth y gwaith gyda busnesau i ddeall effaith economaidd COVID-19 a'r effaith ar sgiliau a hyfforddiant. Mae'r Cynllun Busnes Sgiliau a Thalentau bron wedi'i gwblhau, ac mae cyflwyniadau wedi'u gwneud i Fwrdd Rhaglen y Fargen Ddinesig a'r Bwrdd Strategaeth Cyflogwyr gydag adolygiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021.

## Y Ffordd Rydym yn Gweithio

### Sut rydym wedi helpu ein busnesau



Ar ôl cael ei ddiswyddo gan ei gyn-gyflogwr, sefydlodd *Ryan Jones* ei fusnes newydd, *Pentre Plumbing & Heating*, ym mis Ebrill 2019.

Gyda chymorth grant o bron i £3,000 gan *Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin* a oedd yn gweithredu bryd hynny, prynodd Ryan yr holl offer a chyfarpar angenrheidiol ar gyfer darparu ei wasanaethau ac enillodd gcontractau'n gyflym iawn gyda chleientiaid fel Leekes a Chyngor Tref Rhydaman, yn ogystal ag adeiladu enw da fel plymwr domestig a pheirianydd gwresogi. Mae'r fenter hon nid yn unig wedi creu a sicrhau swydd amser llawn i Ryan ond hefyd wedi gosod y sylfaen i greu swydd arall o bosibl o fewn y busnes yn y dyfodol agos.

Er bod galw mawr am ei waith gan ei fod yn blymwr ag enw da, o achos dyfodiad COVID-19 a chau Leekes a chyfleusterau Cyngor Tref Rhydaman, a chanslo gwaith

gan gleientiaid domestig nad oeddent am gael unrhyw grefftwyr yn eu cartrefi, daeth gwaith Ryan i ben i bob pwrpas yn anffodus.

Gofynnodd Ryan am gymorth drwy **linell gymorth COVID** newydd y Cyngor lle cafodd ei gyfeirio at swyddog cymorth busnes i gael cyngor. Gan ei fod yn fusnes newydd heb unrhyw rwymedigaethau o ran ardrethi busnes, yn anffodus disgynnodd drwy rwyd llawer o'r cynlluniau cymorth busnes a oedd yn cael eu cyflwyno bryd hynny, ond fe'i cadwyd ar restr wrth gefn a'i gynghori i wneud cais am Gredyd Cynhwysol i'w helpu drwy'r cyfyngiadau symud.

Ar ôl lansio *Cronfa Cychwyn Busnes COVID* a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin ac a roddwyd ar waith gan Gyngor Sir Caerfyrddin, cysylltwyd â Ryan a chafodd ei gynghori i wneud cais gan ei fod yn bodloni'r meini prawf. Drwy'r cynllun hwn, derbyniodd Ryan £2,500 i helpu i gadw ei fusnes i fynd nes y gallai ailddechrau ei wasanaethau'n llawn.

Dywedodd Ryan "Rwy'n ddiolchgar i Gyngor Sir Caerfyrddin am y gefnogaeth rwy' wedi'i gael wrth sefydlu *Pentre Plumbing and Heating*. O ddechrau'r cwmni y llynedd i roi cefnogaeth pan aeth popeth yn dawel yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'r cymorth wedi bod yn amhrisiadwy i gadw'r busnes i fynd a chynnal fy swydd".

### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 7

# Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

### Rydym wedi darparu dros 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy.

Rydym wedi darparu **1,129** o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu *iechyd a llesiant*, gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- ⊙ Mae tai fforddiadwy o ansawdd da, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, yn dda i'r Bobl a'r Amgylchedd – mae ein tai wedi'u hinswleiddio'n dda ac mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf (paneli solar a batris i storio ynni) sydd nid yn unig yn lleihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol, ond yn hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy i'n tenantiaid. Gall yr arbedion cyfartalog i filiau tanwydd fod cymaint â 60% y flwyddyn.
- ⊙ Mae'n dda i'r *Strwythur Cymdeithasol* - mae codi tai fforddiadwy yn y manau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- ⊙ Mae'n dda i'r *Economi* – Bydd ein cynlluniau i gynyddu tai fforddiadwy yn golygu y bydd buddsoddiad o dros £150m dros y deng mlynedd nesaf yn y sir. Bydd hyn yn helpu i ysgogi'r economi leol, tyfu'r diwydiant adeiladu, y gadwyn gyflenwi leol a'r economi werdd. Bydd hyn hefyd yn creu swyddi i bobl leol yn ogystal â darparu rhagor o dai i helpu pobl leol i aros yn eu cymunedau.


### Mesur Llwyddiant

**+ 158** o Dai Fforddiadwy Ychwanegol yn ystod 2020/21



### Egluro'r Canlyniadau

### Perfformiad o ran Tai Fforddiadwy – Perfformiad Cyffredinol o fis Ebrill 2016 1,129 o Dai Fforddiadwy wedi'u darparu



## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

- Trwy ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy roeddem wedi bwriadu darparu mwy na 1000 o dai fforddiadwy ychwanegol rhwng 2016 a 2021. Rydym yn falch o roi gwybod ein bod wedi rhagori ar y targed hwn ac wedi darparu **1,129** o dai fforddiadwy ychwanegol. Rydym wedi darparu'r tai drwy'r atebion canlynol:


**247:** *Asiantaeth Gosod Syml*  
(32: 16/17; 63: 17/18; 61: 18/19;  
61:19/20; 30 20/21)

**256:** *Tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto*  
(28: 16/17; 63: 17/18; 67: 18/19;  
64:19/20; 34 20/21)

**245:** *Prynu tai'r sector preifat*  
(45: 16/17; 69: 17/18; 81: 18/19;  
43:19/20; 7: 20/21)

**240:** *Datblygiadau tai newydd Cymdeithasau Tai*  
(45: 16/17; 20: 17/18; 17: 18/19;  
107:19/20; 51: 20/21)

**141:** *Cyfraniad Adran 106 gan Ddatblygwyr*  
(23: 16/17; 20: 17/18; 21: 18/19;  
41:19/20; 36 20/21)



*Mae ein tai fforddiadwy newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon wedi'u hinswleiddio'n dda ac mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf a fydd yn lleihau ein hallyriadau carbon 70% ar gyfartaledd ac yn lleihau biliau tanwydd i denantiaid hyd at 60% gan hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy, tyfu'r economi werdd a chreu cymunedau cynaliadwy.*

- Ym mis Medi 2019, gwnaethom gyhoeddi ein cynlluniau i adeiladu dros 900 o dai cyngor newydd yn ein cymunedau. Bydd ein cynlluniau'n helpu i ysgogi'r economi leol ac yn tyfu'r economi werdd gan greu tai sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a swyddi lleol y mae mawr eu hangen. Mae ein safonau adeiladu newydd yn rhagori ar ofynion y Rheoliadau Adeiladu ac yn dilyn egwyddorion model tai SOLCER Ysgol Bensaerniaeth Cymru Prifysgol Caerdydd ar gyfer ynni ac yn cynnwys:

- o *Walïau, toeau a llorïau sydd wedi'u hinswleiddio'n dda*
- o *Ffenestri gwydr triphlyg*
- o *Paneli Solar Ffotofoltäig*
- o *Storfa Fatris ar gyfer unrhyw drydan nas defnyddir a gynhyrchir gan y paneli solar*
- o *Pwyntïau Gwefru Ceir Trydan*
- o *Goleuadau LED*
- o *Cyflawni sgôr ynni gyfartalog (lefel SAP) rhwng 98 a 105*



- Ar hyn o bryd mae gennym 8 o adeiladau newydd y cyngor ar waith, gan gynnwys: Dylan, Garreglwyd, Teras Glanmor, Gwynfryn, Maespiode, YMCA yn Llanelli, Teras Coleshill a Glanaman. Bydd y datblygiadau hyn yn creu 145 o dai fforddiadwy newydd. A bydd 18 safle arall yn cael eu paratoi ar gyfer cynllunio neu dendro. Mae hyn yn cynnwys 6 safle mewn ardaloedd gwledig a gaiff eu datblygu ar sail deiliadaeth gymysg ac a fydd yn darparu tai ar gyfer perchentyaeth cost isel
- Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adroddiad ar gynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'r adroddiad yn nodi: "*Mae rhaglen adeiladu tai newydd Sir Gaerfyrddin yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni yn y sector tai cymdeithasol*".



### Adeiladu dros 30 o dai Cyngor arloesol newydd yn Nheras Glanmor, Porth Tywyn

#### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 8

Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach  
(mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Gwnaed cynnydd rhagorol o ran arallgyfeirio ein cynnig iechyd a llesiant i drigolion Sir Gaerfyrddin drwy ddatblygu cyfleoedd i ymgysylltu ar-lein tra'n cefnogi pobl i gadw'n iach yn lleol yn ystod y flwyddyn heriol hon

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Gan fod ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- ⊙ Yr her yw atal salwch.
- ⊙ Mae byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- ⊙ Mae llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
- ⊙ Chwarae rhan yn darparu gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, cyffrous a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Mae'r ddau ganlyniad [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn seiliedig ar lefel ymateb is o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd cyfyngiadau ac adnoddau oherwydd COVID-19:-

#### Iechyd Cyffredinol yn Dda neu'n Dda lawn



**70%** o oedolion yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda lawn  
70% o'r blaen

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dywedodd **70%** o'r bobl gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin fod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda lawn**, ac mae hyn yr un peth â'r flwyddyn flaenorol, ac rydym wedi symud o'r 21<sup>ain</sup> i'r 15<sup>fed</sup> safle yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i hyrwyddo

amgylchedd iach i drigolion Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ymarfer corff, maeth ac aer glanach.

#### Salwch Hirdymor



**51%** o oedolion yn dweud bod ganddynt salwch hirdymor  
51% o'r blaen

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dywedodd **51%** o'r bobl gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin **fod ganddynt salwch, anabled neu lesgedd hirdymor**, ac mae hyn yr un fath â chanlyniad yr arolwg blaenorol, rydym wedi symud o'r 15<sup>fed</sup> safle i'r 6<sup>ed</sup> safle yng Nghymru. Er bod gan y mesur hwn nifer o ddylanwadau, rydym yn

parhau i weld cynnydd yn nifer ac effaith cynlluniau fel y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff gyda bron i 1,400 o atgyfeiriadau yn ystod y 12 mis diwethaf.

Oherwydd COVID-19, nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael ar gyfer y ddau ganlyniad Arolwg Cenedlaethol Cymru canlynol:-

#### Iechyd Meddwl Oedolion - nid yw'r data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19

- ⊙ Dangosodd **sgôr llesiant meddyliol** 2018/19 fod gan gyfranogwyr Sir Gaerfyrddin sgôr o 51 allan o sgôr bosibl o 70, yr un fath â'r sgôr gyfartalog i Gymru. Mae wedi'i seilio ar 14 o ddatganiadau wedi'u geirio mewn ffordd bositif a ofynnwyd fel rhan o arolwg sy'n cynrychioli rhinweddau cadarnhaol llesiant ac sy'n cwmpasu sut mae rhywun yn teimlo ac yn gweithredu, yn wahanol i salwch ac anhwylder meddwl ac mae'n addas i'w defnyddio yn y boblogaeth gyffredinol.

#### Llai na 2 Ymddygiad ffordd o fyw iach - nid yw data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19.

- ⊙ Dangosodd canlyniad cyfunol 2018/19 a 2019/20 fod gan **12.4%** o'r cyfranogwyr **lai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach**. Roedd hyn wedi gostwng ar y canlyniad blaenorol o 8.8% ac wedi symud i lawr o'r 5<sup>ed</sup> i'r 18<sup>fed</sup> safle yng Nghymru.

## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

- ⊙ Mae ein tîm gwaith cymdeithasol arbenigol wedi asesu 138 o oedolion sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- ⊙ Buddsoddwyd £130k o gronfa Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn Llyn Llech Owain sydd wedi cynnwys ardal chwarae newydd i blant bach, gwelliannau i'r fynedfa a'r llwybrau cerdded, gwelliannau i'r Rhodfa Bren a'r Ganolfan Ymwelwyr ac ardal awyr agored well ar gyfer y caffï.
- ⊙ Mae ein gwasanaethau Llyfrgell wedi darparu mynediad ar-lein i breswylwyr drwy gydol y pandemig, ac mae 226,543 o ymweliadau'n cael eu gwneud i'n gwefan Llyfrgelloedd Corfforaethol, ac mae gwasanaeth 'clicio a chasglu' newydd yn cael ei sefydlu yn y tair llyfrgell ranbarthol.
- ⊙ Mae dros £500k wedi cael ei wario yng Nghanolfan Hamdden Rhydaman er mwyn ailwampio ystafelloedd newid ochr wlyb y pwll, gyda chynlluniau pellach i uwchraddio'r cae pob tywydd a gwella'r cyfleusterau parcio ceir ar y safle.
- ⊙ Mae gwaith uwchraddio allanol Canolfan Hamdden Caerfyrddin bron â'i gwblhau, gydag arwyneb AstroTurf 2G newydd wedi'i osod, y 4 o Gyrtiau Tennis cymunedol allanol wedi'u hail-arwynebu, y Trac Athletau wedi'i ail-arwynebu a'i ehangu, a mesurau parcio ac arafu traffig ychwanegol ar waith. Mae gwaith hefyd ar y gweill yn Llanymddyfri, lle gwneir buddsoddiad o £350k er mwyn addasu'r ysgol i ddarparu cyfleusterau iechyd a ffitrwydd ar gyfer y dref, a hynny ar bwys y pwll nofio.
- ⊙ Mae cynlluniau ar gyfer y cyfleuster hamdden newydd yn Llanelli bellach yn symud ymlaen gyda dros £25 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer canolfan hamdden newydd ar safle Pentre Awel.
- ⊙ Yn ystod COVID-19, rydym wedi cefnogi Chwaraeon Cymru gyda 66 o Geisiadau Clwb Chwaraeon ar gyfer y Gronfa Cymorth mewn Argyfwng, sef cyfanswm o dros £40k o gyllid i ddiogelu clybiau yn ystod y cyfyngiadau symud. Dros y misoedd diwethaf, mae ein tîm chwaraeon cymunedol Actif mewnol wedi bod yn hanfodol wrth hyrwyddo a chefnogi dyfarnu Cyllid Cymorth mewn Argyfwng, lle dibynnai Chwaraeon Cymru (corff cyllido) ar ein canllawiau a'n cyngor wrth ddyrannu cyfran o'r £500k+ o gyllid cenedlaethol i glybiau a sefydliadau yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn parhau wrth i Chwaraeon Cymru newid i fecanwaith 'Cyllid Sport Relief' gwerth £8m+ wrth symud ymlaen.
- ⊙ Oherwydd y pandemig, ataliwyd y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, er gwaethaf hyn rydym wedi cadw mewn cysylltiad â 583 o'n cleientiaid Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Cenedlaethol, gan wneud 13,657 o gysylltiadau yn cymryd bron i 6,820 o oriau, gyda 693 o raglenni cartref yn cael eu hanfon at gleientiaid agored i niwed.
- ⊙ Yn ystod y cyfnod mae ein cyfleusterau hamdden wedi bod ar gau, rydym wedi creu nifer o ddsbarthiadau ffitrwydd ar-lein i'n haelodau Hamdden Actif gael mynediad iddynt yn rhad ac am ddim, gan ddatblygu cynnig newydd Actif Unrhyw Le i ddarparu aelodaethau a gweithgareddau ar-lein yn y dyfodol.



Mae **John yn 72 oed** ac yn byw ar ei ben ei hun yn dilyn marwolaeth ei wraig. Mae'n byw yn Ne Sir Gaerfyrddin ond nid oedd yn aelod o Actif nes iddo weld hysbyseb ar gyfer platfform digidol newydd Actif Unrhyw Le ym mis Medi.

Mae'r platfform wedi bod yn achubiaeth i John yn ystod y pandemig gan y byddai fel arall wedi treulio'r rhan fwyaf o'i amser ar ei ben ei hun. Mae gan John gefndir crefft ymladd ac mae bellach yn gwneud Thai Chi.

Ers lansio'r platfform, John yw un o'r rhai sy'n mynychu amlaf ac mae'n un o'n cefnogwyr mwyaf. Mae wedi mynychu dros 170 o sesiynau hyd yma ac mae ei ferch neu ei wyrion yn ymuno ag ef weithiau pan fyddant yn ymweld. Dros gyfnod o fisoedd, rhoddodd John gynnig ar yr holl ddsbarthiadau sydd wedi

bod ar yr amserlen, a bellach ei ffefrynnau yw Ioga, Dawns, HIIT, BoxFit, Boliau, Coesau a Phenolau, a Cherdded y Ffordd i Wella'ch Ffitrwydd. Mae John yn dweud:

*"Bore da i gyd, newydd orffen HiiT gyda Cath. Fe wnaeth y sesiwn fy nihuno lan, fy nhwymo ar fore digon oer a'm cael yn barod i wynebu gweddill y dydd. Diolch i bawb yn Actif Unrhyw Le."*

## Cadeiriau Olwyn Traeth

Shwmae..

Y llynedd, fe wnes i eich e-bostio chi, gan ofyn am y posibilrwydd o gyflwyno cadeiriau olwyn traeth i Ben-bre. Mae angen ychydig funudau arnaf bob wythnos yn anadlu awyr y môr i gadw fy hun yn bwyllog ac yn hapus, ac fel arfer rwy'n fodlon eistedd yn fy nghadair neu sgwter un pen o'r traeth am 20 munud tra bo'r gŵr yn chwarae gyda'r ci.

Roedd hyn yn arfer bod yn hunllef, gan fod mynd ar y traeth yn anodd iawn, ac fel arfer roedd fy ngŵr yn gorfod llusgo'r gadair am yn ôl ar draws y tywod gyda chymorth unrhyw un oedd ar gael... ond bydd eich cadeiriau gwych chi'n newid hynny oll.

Roedd y gadair ei hun yn anhygoel, yn gyfforddus iawn yn wir, ac yn symud mor esmwyth ar draws y tywod. Fe wnaeth argraff fawr ar y gŵr.

Felly, diolch enfawr i chi am bopeth mae eich tîm yn ei wneud, mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

## Iechyd Meddwl

Mae **People Speak Up** yn fenter gymdeithasol, iechyd meddwl, y celfyddydau, iechyd a llesiant sydd â chynhwysiant, grymuso unigolion, a chyfranogiad cymunedol wrth ei gwraidd. Mae'n gweithio'n agos gyda'r gymuned leol yn Sir Gaerfyrddin a rhwydweithiau celfyddydau/iechyd.

### Cyrraedd 450 / presenoldeb cyffredinol o 2,000 / 15 prosiect o ddechrau'r pandemig ym mis Ebrill 2020 - Mawrth 2021

- **Storiâu Dros y Ffôn** – Trefnodd ein storiwyr a'n hymarferwyr proffesiynol alwadau wythnosol i bobl oedd yn byw ar eu pennau eu hunain ac yn byw â dementia: <https://wahwn.cymru/knowledge-bank/stories-to-the-door-and-stories-by-phone>
- **Stori Gofal a Rhannu** – sesiynau stori creadigol llesiant ac iechyd meddwl wythnosol ar gyfer pobl 18+ oed. Addaswyd y rhain yn ystod y pandemig i Zoom, ac ar hyn o bryd rydym yn cynnal gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- **Sesiynau Cartref Gofal** - Sesiynau dweud storiâu wythnosol, cyn y pandemig yn ein canolfan a'n cartrefi gofal. Ers y pandemig rydym wedi gweithio dros zoom.
- **Pontio'r Cenedlaethau** - Y prif nod yw dod â phobl hŷn ac iau at ei gilydd i ailgysylltu drwy rannu amser drwy weithio gyda storiwyr proffesiynol, Artistiaid y Gair Llafar ac Artistiaid Gweledol: <https://youtu.be/rVnLSsh4Dco>
- **Creative companions** – Cysylltu gwirfoddolwyr ifanc â pherson hŷn sy'n byw ar ei ben ei hun, i greu gwytnwch a chydlyniant.
- **Young people Speak up** – Sesiynau creadigol llesiant ar gyfer 11-24 oed/ wedi'u haddasu ar gyfer llwyfannau amrywiol ac wyneb yn wyneb. Mae'r bobl ifanc hyn wedi'u hintegreiddio i'n holl brosiectau eraill ac iechyd meddwl, cysylltedd, hyfforddiant a gwirfoddoli yw ein prif amcanion.

## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# Heneiddio'n Dda





## Amcan Llesiant 9

w'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi Cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### **Rydym wedi gweld cynnydd rhyfeddol mewn ysbryd cymunedol**

*Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn wyneb heriau enfawr COVID-19 rydym wedi gweld ein cymunedau'n cefnogi ei gilydd. Cymdogion yn helpu ei gilydd, cydweithwyr yn cefnogi ei gilydd, a dieithriaid yn cydweithio er lles y gymuned.*

Mewn arolwg a gomisiynwyd yn ddiweddar o Ganolbarth a De-orllewin Cymru, dywedodd 77% o'r rhai gafodd gyfweiliad fod cydlyniant cymunedol yn dda, gan godi i 92% a ddywedodd ei fod yn dda ond bod angen gwelliant. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder y gallai'r cynnydd hwn fod yn fyrhoedlog.

### **Pam mae'n bwysig**

- ⊙ Mae diogelwch a theimlad o berthyn yn bwysig i lesiant personol ac mae rhagor o bobl yn gwerthfawrogi pwysigrwydd caredigrwydd a bod yn rhan o gymuned.
- ⊙ Mae gan gyrff cyhoeddus rwymedigaethau clir i greu a chefnogi cymunedau cydlynus yng Nghymru. Cymunedau Cydlynus yw un o'r Nodau Cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cymuned Gydlynus yw un lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn rhannu perthnasoedd cadarnhaol, yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth, ac yn parchu ei gilydd a rhannu'r un gwerthoedd.
- ⊙ Mae Cydnerthedd Cymunedol hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi cymunedau i ymateb i sefyllfaoedd andwyol, eu gwrthsefyll a'u hadfer. Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd.

### **Mesurau Llwyddiant**

*Ymdeimlad o gymuned - nid yw data wedi'i ddiweddarau ar gael oherwydd COVID-19*

*Teimlo'n Ddiogel - nid yw data wedi'i ddiweddarau ar gael oherwydd COVID-19*

Fel arfer, rydym yn mesur llwyddiant yr Amcan Llesiant hwn gyda chanlyniadau uchod Arolwg Cenedlaethol Cymru, ond yn anffodus oherwydd COVID-19 ni ofynnwyd y cwestiynau hyn yn ystod 2020/21. Dangosodd y data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 fod **51.6%** o'r cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt '**Ymdeimlad o Gymuned**', sef y 14eg safle yng Nghymru. Y nifer oedd yn **teimlo'n ddiogel** oedd **76.1%** - y 7<sup>fed</sup> safle.

### **Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19**

#### **Cydlyniant Cymunedol**

Er mwyn sicrhau bod ein cymunedau mor gydlynus â phosibl, rydym yn gweithio gyda sefydliadau ar lawr gwlad i ddatblygu mentrau sy'n dod â phobl a chymunedau ynghyd ac yn rhoi cyfleoedd i bobl o wahanol gefndiroedd gyfarfod a dod i adnabod a deall ei gilydd.

- ⊙ Yn ystod 2020, roedd gennym ddwy gronfa Grantiau Bach Cydlyniant Cymunedol ar gyfer prosiectau ar draws y rhanbarth. Rydym wedi ariannu 20 o brosiectau ar draws y rhanbarth, dwy enghraifft yw:
  - Cysylltiadau Stori - People Speak Up Llanelli. Daeth y prosiect hwn â thua 200 o bobl o gymunedau amrywiol at ei gilydd i rannu gofod a chreu storïau, ac roedd yn cynnwys ystod eang o bartneriaid gan gynnwys Syria Sir Gâr, Pride Llanelli, Theatr Ffwrnes a'r gwasanaeth Ieuencid.
  - Prosiect 'Wynebau a Lleoedd' sy'n dathlu amrywiaeth ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r tîm Cydlyniant wedi cwblhau prosiect ymchwil yn ddiweddar, a gyflwynwyd gan y Prif Grŵp Ymgynghori i edrych ar effaith Brexit a COVID-19 ar gymunedau. Diben hyn oedd darparu sylfaen dystiolaeth, gan nodi manau problemus yn y gymuned, tensiynau a materion, ac argymhellion ynghylch sut rydym yn cynnwys arfer da yn ein gwaith wrth symud ymlaen. Rydym bellach yn ystyried sut i gynnwys nifer o argymhellion yn ein polisiau a'n strategaethau.



- ⊙ Un o'r meysydd gwaith allweddol rydym yn ymwneud ag ef yw cynyddu ymwybyddiaeth o *Droseddau Casineb* a sut i'w hadrodd. Mae sicrhau bod pobl yn deall beth yw trosedd gasineb, beth yw a beth nad yw'n ymddygiad derbynol mor bwysig ac rydym yn gweithio'n agos gydag asiantaethau fel Cymorth i Ddiodefwyr i ddatblygu ymgyrchoedd a phrosiectau sy'n cefnogi'r gwaith hwn.
- ⊙ Elfen allweddol arall o'n gwaith yw hyrwyddo *calendr Cydlyniant* o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd drwy gydol y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar ymgyrchoedd Cenedlaethol a thynnu sylw at y rhain gyda phersbectif rhanbarthol neu leol os yw'n bosibl.
- ⊙ Rydym wedi datblygu rhaglen ymyrraeth cyflawnwyr ar sail ranbarthol i fynd i'r afael â *Thrais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol*
- ⊙ Mae'r pandemig wedi rhoi cyfleoedd i droseddwyr gymryd mantais ar bobl a allai fod yn fwy agored i dwyll oherwydd y cyfyngiadau symud/gwarchod ac ynysu o rwydweithiau cymorth. Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn 2020 yn yr achosion o dwyll y rhoddwyd gwybod amdanynt yn genedlaethol. Mae Dyfeisiau Blocio Galwadau Niwsans trueCall, sydd wedi'u gosod mewn cartrefi preswylwyr oedrannus ac agored i niwed bregus yn y sir, wedi rhwystro 16,277 o alwadau niwsans ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Yn seiliedig ar wybodaeth genedlaethol nodwyd bod 4,883 o'r galwadau hynny o rifau a ddefnyddir gan droseddwyr hysbys.
- ⊙ Datblygwyd *system rybuddio arloesol Seraphimbeta* yn sgil y pandemig i roi gwybod i swyddogion yr awdurdod pryd roedd defnyddiwr trueCall yn cael nifer fawr o alwadau gan dwyllwyr tybiedig. Mae'r system wedi cynhyrchu 66 o rybuddion lefel uchel sy'n arwain at alwadau lles ac ymyrraeth gan swyddogion i atal pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu twyllo dros y ffôn. Mae cyllid wedi cael ei sicrhau i ddatblygu'r prosiect blocio galwadau ehangach ymhellach.

### Sir Gâredig - Rhannu Caredigrwydd Sir Gâr

- ⊙ Eleni, mae'r weithred o fod yn garedig i eraill wedi bod yn fwy cyffredin nag erioed oherwydd COVID-19, felly cyflwynwyd Sir Gâredig – Rhannu Caredigrwydd Sir Gâr gyda'r nod o gysylltu pobl mewn angen â'r rheiny sy'n gallu helpu. Roedd yn gyfle i ddarparu ffocws ar gyfer gweithgareddau cymunedol a them cyfeillgar y gallai pobl ei ddefnyddio i rannu straeon, delweddau a fideos cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgyrch hon hefyd yn gyfle i bobl gael eu hysbrydoli i ymuno a gwirfoddoli yn eu cymunedau. Helpu eu cymdogion a rhannu'r gwaith da a'r caredigrwydd a rennir ledled Sir Gaerfyrddin.



### Diogelwch Cymunedol yn Nhyisha

Mae sefydliadau partner yn cydweithio'n agos i fynd i'r afael â'r problemau cyffuriau, alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nhyisha, gyda'r nod o wneud yr ardal yn lle mwy diogel i fyw ynddo. Cafodd arolwg ei gwblhau gan 217 o drigolion Tyisha – 10% o aelwydydd - i roi gwybodaeth am sut maen nhw'n teimlo am blismona, tawelwch meddwl a diogelwch yn eu cymdogaeth. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi a bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â phryderon lleol.

Mae dau warden cymunedol, wedi eu hariannu'n rhannol drwy gais partneriaeth gyda Heddlu Dyfed-Powys i gronfa 'Strydoedd Diogelach' y Swyddfa Gartref, wedi cael eu recriwtio gan y Cyngor ac yn gweithio yn Nhyisha a Glan-y-môr i roi sicrwydd a chefnogaeth i'r gymuned leol a chodi ymwybyddiaeth o fesurau atal troseddau. Mae'r wardeiniaid cymunedol yn sefydlu cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth ac yn gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddau sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau ac alcohol ac i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys defnyddio teledu cylch cyfyng a fideo cloch drws a ddarperir gan y Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel gan ddefnyddio cyllid 'Strydoedd Diogelach' y Swyddfa Gartref. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â thimau plismona bro a chymdeithasau tai lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn tenantiaethau a chyflwyno cynlluniau gweithredu cadarn i'w atal rhag digwydd eto.

Cyflwynodd y Cyngor Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO) i rannau o Ganol Tref Llanelli ym mis Hydref 2020 i helpu i fynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a gwella ansawdd bywyd y gymuned leol.

## Mynd i'r Afael â Thrais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu a phartneriaid eraill er mwyn *mynd i'r afael yn llwyddiannus â 'Llinellau Cyffuriau'*, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chymryd rhan mewn wythnosau gweithredu wedi'u targedu. Mae Llinellau Cyffuriau yn derm a ddefnyddir ar gyfer rhwydweithiau delio cyffuriau anghyfreithlon, sy'n cael eu rheoli fel arfer gan berson sy'n defnyddio rhif ffôn - sef y 'Llinell cyffuriau'. Maent yn dosbarthu cyffuriau drwy ddefnyddio 'rhedwyr' sy'n blant ac oedolion agored i niwed sy'n cael eu recriwtio i gludo cyffuriau ac arian parod ledled y DU. Yn aml mae'r drosedd hon yn gysylltiedig â throseddau difrifol eraill fel camfanteisio rhywiol, trais, gwyngalchu arian a masnachu pobl.

Datblygwyd Strategaeth 'INTACT' newydd ar gyfer 2021-24 gan bartneriaid i fynd i'r afael â Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol ledled Dyfed-Powys. Mae cynllun gwaith wedi'i lunio, sesiynau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth wedi'u trefnu ar gyfer staff sefydliadau partner ac mae negeseuon atal clir yn cael eu hyrwyddo'n eang i'r cyhoedd, gyda thema newydd bob mis. Mae Tîm Ymyrraeth gynnar ac Atal newydd yn cael ei gyflwyno, yn cynnwys 10 swyddog cymorth cymunedol ar draws y rhanbarth a dadansoddwr. Nod y tîm hwn yw atal plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed rhag cymryd rhan mewn Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, neu ddioddef troseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd y tîm hwn yn datblygu ac yn darparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar, gan nodi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau difyr, ymgymryd â phatrolau penodol i nodi pobl agored i niwed a chefnogi partneriaid wrth weithio gyda phobl ifanc.

### Addewid dim goddefgarwch i hiliaeth

Rydym wedi addo mabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch tuag at hiliaeth yn yr awdurdod.

Rydym wedi ymuno â sefydliadau ac unigolion eraill sydd wedi llofnodi'r polisi fel rhan o ymgyrch Dim Hiliaeth Cymru sydd wedi cael ei lansio gan Gyngor Hil Cymru.

Drwy lofnodi'r addewid mae'r cyngor yn ymrwymo i hyrwyddo ymagwedd dim goddefgarwch tuag at hiliaeth ym mhob rhan o'r sefydliad, mae hyn yn golygu:

- ⦿ Byddwn yn sefyll yn erbyn hiliaeth ac yn hyrwyddo cymdeithas fwy cynhwysol a chyfartal i bawb.
- ⦿ Ni fyddwn yn goddef rhagfarn hiliol, gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio, chamdriniaeth, na thrais yn erbyn unrhyw unigolyn.
- ⦿ Byddwn yn sefyll mewn undod, yn dod at ein gilydd, ac yn dweud 'na' wrth hiliaeth, yn ei holl ffurfiau.
- ⦿ Byddwn yn hyrwyddo cysylltiadau hiliol da rhwng pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol mewn sefydliad.
- ⦿ Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal a theg i bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol i gael dyrchafiad.
- ⦿ Byddwn yn cael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, aflonyddu, fictimeiddio a chamdriniaeth.



## Y ffordd rydym yn gweithio

### Byw yn y gymuned

Rydym wedi aildatblygu eiddo i ddarparu llety i unigolion sy'n gadael gofal preswyl.

Mae'r unigolion wedi byw gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer mewn cartref gofal yn Sir Gaerfyrddin a oedd i gau. O ystyried eu hanghenion sylweddol a chymhleth, y canlyniad tebygol oedd y byddent yn cael eu rhoi mewn gwahanol sefydliadau preswyl eraill. Defnyddiwyd grant Cronfa Gofal Canolraddol yn y prosiect hwn i ddod o hyd i eiddo preswyl mawr addas oedd â gofod awyr agored i ddiwallu eu hanghenion a chynnal eu perthynas hirsefydlog.



Cafodd eiddo ei brynu, a symudodd tri unigolyn i mewn ym mis Hydref 2020 gyda chymorth 24/7. Cawsant eu hannog i helpu i addurno a gosod eu cartref newydd, yn enwedig o ran personoli eu hardaloedd byw a'u hystafelloedd eu hunain. Maent hefyd wedi ailenwi'r eiddo.

Mae'r gymuned leol yn cynnig llawer o gyfleoedd i gymryd rhan, yn ogystal â llawer o weithgareddau hamdden o fewn pellter teithio hawdd. Ymgynghorwyd ag aelodau o'r teulu drwy gydol hyn a bellach maent yn edrych ymlaen at ymweld â'u perthnasau yn eu cartref newydd, gan gynnal y cysylltiadau pwysig hyn.

### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn canolbwyntio'n benodol ar *Gydlyniant Cymunedol* a bydd y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 ac yn cael ei hailenwi:

**Byw'n Dda - Cefnogi cydlyniant cymunedol, gwydnwch a diogelwch**



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 10

neiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a 'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

### **Mae cymorth i bobl hŷn wedi parhau er gwaethaf y pandemig:**

*Rydym wedi parhau i gefnogi pobl hŷn a sicrhau y gallant aros mor annibynnol â phosibl a chadw eu hurddas, er gwaethaf heriau'r pandemig.*

### **Pam mae'n bwysig**

- Ymgynghoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i unigolion yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
- Mae ein poblogaeth sy'n fregus yn cynyddu a bydd angen cymorth arnynt i fod mor annibynnol â phosibl.
- Mae'n hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.

### **Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau**

#### **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Da ar gael yn yr ardal**



**66%**

Cytuno bod gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal

(47.5% o'r blaen)

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Yn ôl holiaduron misol [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) a gwblhawyd rhwng mis Mai a mis Medi 2020, roedd **66%** o'r cyfranogwyr yn credu bod **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da yn yr ardal**. Mae'r canlyniad hwn yn seiliedig ar lefel ymateb is na blynyddoedd blaenorol gan fod llai wedi ymateb oherwydd COVID-19.

Mae hwn yn welliant da ar y canlyniad blaenorol o 47.5%,

a'r pandemig allai fod yn gyfrifol am hynny'n rhannol, gan ei fod wedi amlygu gwaith gwych ac ymroddiad staff Gofal Cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn.



**99%**

o'r bobl a holwyd gennym yn ystod y pandemig o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn dweud ein bod wedi ymateb yn gyflym i'w hanghenion

*"Ymateb cyflym iawn i fy anghenion yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol"*

### **Cynydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19**

- Gwnaethom weithredu prosesau a gweithdrefnau newydd i sicrhau bod unigolion yn cael eu hasesu a'u cefnogi'n effeithiol ac yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19.
- Gwnaethom ddiwygio'r dull o gefnogi rhyddhau o'r ysbyty er mwyn sicrhau bod y risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 yn cael ei lleihau i bawb.
- Darparwyd cymorth amgen gennym yn hytrach na gwasanaethau dydd a seibiant nad ydynt wedi bod yn bosibl yn ystod y pandemig; mae hyn wedi cynnwys mwy o gymorth i unigolion a'u gofalgwyr gartref yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio ar brosiect CONNECT i sicrhau y gall pobl gael cyswllt cymdeithasol rheolaidd. (*Gweler Amcan Llesiant 11*)
- Mae ymgynghori eang â defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalgwyr oedd yn mynychu canolfannau dydd cyn eu bod yn cau o achos cyfyngiadau COVID-19 wedi arwain at fodel cymorth diwygiedig mewn partneriaeth â'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys cynllun peilot cymorth 1 i 1 gartref a datblygu cynnig rhithwir sy'n caniatáu i bobl ymuno â gweithgareddau mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.



- Canfu Gwiriad Sicrhau Ansawdd Arolygiaeth Gofal Cymru 2021 fod yr awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, bod eu dewis pobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt eu hunain yn rheolaidd, a bod prosiect Delta/Connect wedi llwyddo i hyrwyddo atal ac ymyrraeth gynnar a lleihau'r angen am gymorth cynyddol neu ffurfiol gan asiantaethaustatudol.

## Cefnogi Cartrefi Gofal yn y Sir yn ystod y Pandemig

O fewn wythnosau i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, roedd achosion o Covid-19 yn effeithio ar sawl cartref gofal ac roedd nifer sylweddol o staff a phreswylwyr yn dal y feirws. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn sefyllfa ddigynsail fel comisiynydd lleoliadau cartrefi gofal, ac fel yr asiantaeth allweddol i helpu, cynghori a chefnogi cartrefi gofal i ddelio â'r heriau cysylltiedig â COVID-19 roeddent yn eu hwynebu. Mae gan Sir



Gaerfyrddin fwy o gartrefi gofal nag unrhyw sir yng Nghymru sef 91, er taw dim ond y boblogaeth 4edd fwyaf sydd ganddi.

Yn wyneb yr her hon, sefydlwyd cyfarfod Rheoli Gweithredol Dyddiol rhithwir ac roedd pob agwedd ar y system gwasanaethau cymunedol integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei chynrychioli.

Y nod oedd helpu i atal ysbytai aciwt rhag cael eu llethu gan sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel ac yn amserol o'r ysbyty ac atal derbyniadau i'r ysbyty lle nad oes eu hangen, yn ogystal â sicrhau bod darparwyr gofal yn cael eu cefnogi'n effeithiol. Roedd hyn yn galluogi nodi'n gyflym y rhannau o'r system a oedd dan bwysau, a dull datrys problemau ar y cyd i godi rhywfaint o'r pwysau hynny a sicrhau bod gwelyau ar gael mewn ysbytai i'r rheiny oedd eu hangen fwyaf. Hwn oedd y tro cyntaf i ystod eang o wasanaethau gael eu dwyn ynghyd, a oedd yn gyflawniad sylweddol.

Roedd y cyfarfod Rheoli Gweithredol Dyddiol yn goruchwyllo effaith atal derbyniadau dros dro i Gartrefi Gofal ar y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan - pan ddaeth gwelyau Nyrsio yn brin iawn, gwaethygodd y broblem a phenderfynwyd ailagor yr Ysbyty Maes er mwyn atal oedi hir o ran gallu rhyddhau cleifion sy'n aros am y lleoliadau hyn.

Datblygwyd Gweithdrefn Uwchgyfeirio Cartrefi Gofal. Roedd yn nodi glasbrint ar sut y dylid rheoli achosion, gan fabwysiadu dull amlasiantaethol safonol ar gyfer cefnogi cartrefi gofal yn ystod achosion. Arweiniodd Tîm Comisiynu'r Cyngor dîm amlddisgyblaethol a oedd yn cynnwys Comisiynu, Rheoli Gofal, Atal a Rheoli Heintiau'r Bwrdd Iechyd, Iechyd yr Amgylchedd, Nyrsio Cymunedol, a Gofal Sylfaenol i helpu'r cartref gydag adolygiadau rheoli heintiau, helpu i gynnal lefelau staffio derbyniol a chymorth nyrsio, ac arhosodd y tîm yn ei le tan fod yr achosion wedi dod i ben. Roedd y prosesau a roddwyd ar waith yn galluogi ymateb cyflym i sefyllfa o achosion a'r mesurau llwyddiant oedd nad oedd diffyg gwelyau ysbyty aciwt ar unrhyw adeg, ac nid oedd unrhyw gartref gofal wedi methu darparu gofal priodol i'w breswylwyr ar unrhyw adeg.

### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 yn dangos Amcan Llesiant 10 wedi'i gyfuno ag Amcan Llesiant 11 i greu'r amcan canlynol - ***Heneiddio'n Dda - Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny***



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 11

Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

**Gwnaed dros 10,000** o alwadau llesiant rhagweithiol dros y flwyddyn ddiwethaf

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae heneiddio'n dda – '*ychwanegu bywyd at flynyddoedd, nid blynyddoedd yn unig i fywyd*' – yn bwysig i bob un ohonom, ac i'n gwlad yn gyffredinol. Dylai pobl hŷn gael eu gweld fel rhan hanfodol o'r gymdeithas a dylent allu cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn ein heconomi a'n cymunedau a chyfrannu atynt. Mae pobl hŷn yn gaffaeliad sylweddol i'n cymuned a'n heconomi.
- ⊙ Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.
- ⊙ *Y Comisiynydd Pobl Hŷn, Heléna Herklots* sy'n pennu'r uchelgais o ['Sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn'](#)

### Mesur Llwyddiant

*Teimlo'n Unig - nid yw'r data wedi'i ddiweddarau ar gael oherwydd COVID-19*

Fel arfer, rydym yn mesur llwyddiant yr Amcan Llesiant hwn gyda chanlyniad uchod Arolwg Cenedlaethol Cymru ond yn anffodus oherwydd COVID-19 nid oes data wedi'i ddiweddarau ar gael ar gyfer y mesur. Yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, roedd **16.2%** o oedolion a gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn **ystyried eu hunain yn unig**, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.43% ond wedi gostwng o'r canlyniad blaenorol o 18.3%.

### Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

- ⊙ Rydym wedi cyflwyno rhaglen CONNECT ledled Sir Gaerfyrddin sy'n darparu cymorth llesiant rhagweithiol, gan gynnwys galwadau lles rhagweithiol a chynhwysiant digidol.
- ⊙ Rydym wedi ariannu prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau lle hyrwyddwyd y cysylltiad rhwng plant a phobl hŷn, fel y plant ysgol oedd yn mynychu cartrefi gofal yn 'rhithwir'.
- ⊙ Rydym wedi cynyddu cynhwysiant digidol pobl hŷn mewn ymateb i bandemig COVID-19.
- ⊙ Rydym wedi lansio *Cysylltu Sir Gâr*, sef llwyfan bancio amser a chynlluniau gwirfoddoli mewn partneriaeth â'r trydydd sector i hyrwyddo cysylltioldeb cymdeithasol.



**CYSYLLTU**  
Sir Gâr  
**CONNECT**  
Carmarthenshire

## Prosiect Sir Gaerfyrddin CONNECT yn cyrraedd rownd derfynol gwobr

Mae Sir Gaerfyrddin wedi dylunio a gweithredu rhaglen arloesol a mawr sy'n canolbwyntio ar gefnogi annibyniaeth pobl hŷn a #llesiant drwy ddull technolegol a digidol sydd wedi'i gydnabod fel arfer da nid yn unig ledled Cymru ond ledled y DU. Enw'r rhaglen hon yw **CONNECT** ac fe'i cyflwynir mewn partneriaeth â Llesiant Delta, iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, a ariennir gan gronfeydd Trawsnewid Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect yn Sir Gaerfyrddin wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Rhagoriaeth Trawsnewid y Sector Cyhoeddus, gan ei fod yn enghraifft o'n huchelgais o weithio ar draws ffiniau'r sector i sicrhau bod dull radical sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei arddel ar gyfer llesiant, gofal a chymorth.

Mae'n cynnwys gweithredu model newydd o hunangymorth a gofal rhagweithiol, wedi'i alluogi gan Ofal trwy Gymorth Technoleg, sy'n gwella llesiant unigolion. Yn ei dro mae hynny'n galluogi pobl i aros yn annibynnol am gyfnod hirach, gan leihau'r galw am ofal hirdymor neu ofal aciwt.

Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar fodel sydd ar waith yn Sbaen a addaswyd gennym ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Nid yw hyn wedi cael ei wneud o'r blaen yn y DU, ac yn bendant nid ar y raddfa a weithredir yn Sir Gâr. Ers mis Chwefror 2020 mae bron i 2,000 o drigolion Sir Gaerfyrddin wedi cael eu cefnogi gan y prosiect ac mae wedi bod yn allweddol yn ein hymateb i bandemig COVID. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- Galwadau llesiant
- Pecynnau cymorth digidol a Gofal trwy Gymorth Technoleg
- Helpu i ail-ymgysylltu â'r gymuned leol (yn ddigidol ar hyn o bryd, ond yn gorfforol yn y tymor hwy)
- Mynediad i Dîm Ymateb Cymunedol priodol 24/7, os mewn argyfwng



Cwblhawyd dros **10,000** o alwadau llesiant rhagweithiol rhwng Ebrill 20 a Ionawr 2021


**9,000** o alwadau llesiant ychwanegol i ddarparu cymorth COVID



Pan gawsant eu holi, roedd **88%** o gleientiaid yn teimlo'n llawer mwy diogel gyda'r gwasanaeth



# Stori Raymond...



*Symudodd Raymond, sy'n ŵr gweddw, i lety gwarchod ar ôl i'w annwyl wraig gollu ei brwydr yn erbyn canser ychydig flynyddoedd yn ôl. Cafodd ei gyfeirio at CONNECT ar ôl bod yn yr ysbyty am chwe wythnos. Gan dalu teyrnged i'w deulu, dywedodd er ei fod bob amser wedi cael llawer o gefnogaeth ganddynt, nad oedd yn gallu eu gweld oherwydd COVID-19 gan ei fod wedi derbyn llythyr gwarchod yn ei gynghori i hunanynysu.*

*Heb allu treulio amser gyda'i anwyliaid a'i ffrindiau yn gymdeithasol, ac heb unrhyw weithgareddau chwaraeon yn cael eu cynnal i fynd iddynt a'u gwylio, dechreuodd deimlo'n "isellawn ac yn unig."*

*Drwy CONNECT, mae Raymond yn derbyn galwadau llesiant wythnosol hanfodol. Mae hyn yn cynnwys gwirio bod ganddo ddigon o fwyd gartref a'i fod yn gallu cael gafael ar unrhyw bresgripsiynau neu feddyginiaeth.*

*Wrth siarad am fanteision y galwadau llesiant, dywedodd wrthym, "Rwy' wir yn edrych ymlaen at y galwadau. Rwy'n eu gwerthfawrogi. Mae'n braf cael ffrind i siarad â hi. Roeddwn i'n arfer teimlo'n isellawn yn yr wythnos, ond nawr rwy'n edrych ymlaen at y galwadau bob bore dydd Llun. Maen nhw wedi fy helpu i adennill fy hyder, sy'n bwysig. Mae'r galwadau hyn yn helpu i achub bywydau. Byddwn i'n teimlo'n isellawn hebddynt ac yn debygol o fod angen mwy o gymorth gan y GIG. Rwyf wir yn teimlo fel person gwahanol ar ôl i ni siarad."*

*Drwy wasanaeth CONNECT, mae gan Raymond linell bywyd â botwm coch hefyd, y gall ei wasgu unrhyw bryd y mae angen cymorth neu gefnogaeth arno ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â Chanolfan Fonitro 24/7 y tîm. Mae CONNECT hefyd yn galluogi Raymond i gael mynediad 24/7 at ein Gwasanaeth Ymateb Cymunedol, pe bai argyfwng.*

## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 yn dangos Amcan Llesiant 10 wedi'i gyfuno ag Amcan Llesiant 11 i greu'r amcan canlynol - **Heneiddio'n Dda - Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny**



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus





## Amcan Llesiant 12

### Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

#### Yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd

Ym mis Chwefror 2020, ni oedd [yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd](#), sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at fod yn garbon sero-net yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Ni oedd un o'r cynghorau cyntaf yn y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan addo bod yn garbon sero-net erbyn 2030, sy'n darged uchelgeisiol a heriol - 20 mlynedd cyn targedau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ymhlith y camau gweithredu eraill y mae datblygu ffyrdd newydd o leihau carbon yn adeiladau'r Cyngor, prynu fflyd sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, cydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau newid ehangach, edrych ar gyfleoedd i blannu coed a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

#### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae'r Amgylchedd Naturiol yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau.
- ⊙ Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- ⊙ Mae perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.

#### Mesurau Llwyddiant (Nid yw'r wybodaeth ar gael adeg cyhoeddi.)



Cynhyrchwyd  
**1,059,364**  
**kWh** o ynni  
adnewyddadwy gennym yn ystod  
2020/21  
(wedi cynyddu o 997,480 kWh yn y  
flwyddyn flaenorol)



Cynyddodd Defnydd  
Ynni'r Cyngor  
(kWh) **???**%  
70,332,291 kWh  
yn 2019/20  
i **???** kWh yn 2020/21



Ein cyfradd ailgylchu  
yw **66.08%**  
(Mae hwn yn gynnydd ar  
ffigur y flwyddyn  
flaenorol sef 64.66%).  
(Mae tipio anghyfreithlon wedi  
cynyddu 29% a chynyddodd casglu wrth  
ymyl y ffordd 22%)

#### Egluro'r Canlyniadau

- ⊙ Gwnaethom gynhyrchu dros un miliwn kWh o ynni adnewyddadwy yn ystod 2020/21, a oedd yn gynnydd o 61,884 kWh (6%) o 997,480 kWh yn y flwyddyn flaenorol.
- ⊙ Y Defnydd o Ynni gan yr Awdurdod - byddwn yn adrodd ar ein data ynni sy'n gysylltiedig ag adeiladau i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2021, fel sy'n ofynnol gan ganllaw adrodd y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r fethodoleg a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru yn wahanol i'n methodoleg gyfredol. Fel rhan o hyn byddwn yn cymryd rhan cyn hir mewn adolygiad cymheiriaid ffurfiol gyda Sir Benfro i wneud yn siŵr bod ein data ni (a'u data hwy) yn 'gywir'
- ⊙ Cynyddodd **Ailgylchu** yn 2020/21 i 66.08% (51,494 tunnell y flwyddyn) o 64.66% (50,544 tunnell) y llynedd. Rydym yn parhau i ragori ar dargedau statudol Llywodraeth Cymru (64% ym mis Mawrth 2020) gan osgoi unrhyw gosbau ariannol.
  - Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn ailgylchu, diolch i drigolion a'r ffordd maent wedi defnyddio ein gwasanaethau ailgylchu.
  - Wrth edrych i'r dyfodol, bydd sut rydym yn casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y dyfodol a'r ffordd mae ein trigolion yn defnyddio ein gwasanaethau ailgylchu yn bwysicach fyth fel y gallwn gyrraedd targedau ailgylchu sydd hyd yn oed yn fwy llym a'n huchelgeisiau o ran lleihau carbon.



- Defnyddir y deunydd ailgylchadwy a gasglwn i wneud cynhyrchion newydd a gall hynny gynorthwyo'r economi gylchol, gan leihau'r angen am ddeunyddiau crai a lleihau ein hól troed carbon.
- Er mwyn caniatáu defnyddio'r deunydd gwastraff hwnnw yn effeithlon i wneud cynhyrchion newydd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y deunyddiau o'r ansawdd gorau posibl ac nad ydynt wedi'u halogi, gan y gallai hynny olygu nad oes modd eu hailgylchu.
- O ganlyniad, wrth edrych i'r dyfodol, bydd angen i ni adolygu ein strategaeth casglu gwastraff o ymyl y ffordd i fynd i'r afael â phroblemau presennol. Fodd bynnag, golyga hyn y bydd angen meddwl agored ar bob un ohonom, fel trigolion Sir Gaerfyrddin, tuag at ffyrdd newydd o gasglu gwastraff ailgylchadwy ac er mwyn mabwysiadu'r ffordd fwyaf effeithiol o ailgylchu yn y dyfodol agos. Ar ddiwedd y dydd, rydym yn diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Carbon Sero-net

- ⊙ Gan weithio tuag at fod yn Garbon Sero-net, rydym yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau ac mae'r tabl isod yn dangos, er bod y defnydd wedi cynyddu, mae'r allyriadau wedi lleihau.

Codwyd y tabl wedi'i ddiweddarau o [Adroddiad Cynllun Gweithredu Carbon Sero-net-Chwefror 2020](#):

	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2019/20 vs 2020/21	
	Canlyniadau				Cynnydd	% y newid
<b>Adeiladau Annomestig Nid yw'r wybodaeth ar gael adeg cyhoeddi.</b>						
Defnydd (kWh)	63,690,923	64,857,362	66,407,242	I'w gadarnhau		
Allyriadau Carbon (tCO2e)	16,258	14,822	14,443	I'w gadarnhau		
<b>Goleuadau Stryd</b>						
Defnydd (kWh)	4,873,979	4,202,381	3,925,149	3,875,843	Wedi gwella	1.3%
Allyriadau Carbon (tCO2e)	1,874	1,291	1,088	981	Wedi gwella	9.8%
<b>Milltired Fflyd</b>						
Milltired (Milltiroedd)	5,121,289	*5,293,249	5,154,668	4,427,070	Wedi gwella	14.1%
Diesel a Ddefnyddiwyd (litrau)	1,441,751	1,434,583	1,419,336	1,267,437	Wedi gwella	10.7%
Allyriadau Carbon (tCO2e)	3,852	3,856	3,814	3,407	Wedi gwella	10.7%
<b>Milltired busnes</b>						
Milltired (Milltiroedd)	3,948,586	3,846,615	3,971,513	2,251,986	Wedi gwella	43.3%
Allyriadau Carbon (tCO2e)	1,159	1,118	1,132	621	Wedi gwella	45.1%
<b>CYFANSWM</b>						
Defnydd (kWh)	68,564,902	69,059,743	70,332,391	I'w gadarnhau		
Milltired (milltiroedd)	9,069,875	8,829,043	9,126,181	I'w gadarnhau		
Ôl Troed Carbon (tCO2e)	23,143	21,087	20,477	I'w gadarnhau		
Nodyn:* Mae'r ffigur hwn wedi'i ddiweddarau i wneud iawn am gofnodion milltired anghywir						

- ⊙ Mae archwiliad mawr o'n holl fesuryddion trydan a nwy wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Bydd hyn yn ein galluogi ni i weithio gyda'n cyflenwyr ynni i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr o osod mesuryddion clyfar cyn gynted â phosibl. Byddwn wedyn yn canolbwyntio ar ymestyn mesuryddion clyfar i'n defnydd o ddŵr.
- ⊙ Mae Goleuadau Stryd yn gyfrifol am 6% o'n hól troed carbon, gyda 1,088 tCO2e yn cael ei allyrru yn 2019/20. Mae hwn yn ostyngiad o 16% ers 2018/19. Rydym wedi cwblhau'r gwaith o drosi bron i 100% o'n 20,000 o oleuadau stryd i oleuadau deuod sy'n allyrru golau (LED) ynni isel, a ariennir gan Raglen Gyllido Cymru ddi-log Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 33% yn y defnydd o drydan o oleuadau stryd dros y pum mlynedd diwethaf.

- ⊙ Rydym wedi cyfnewid bron i 5,000 o oleuadau cymunedol am unedau LED, gan weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned.
- ⊙ Fe wnaethom gwblhau Cam 1 ein Rhaglen Re:Fit Cymru, sef prosiect gwerth £2.5m a ariannwyd gan fenthyciad di-log gan Raglen Cyllid Cymru, sy'n anelu at gyflawni cyfleoedd effeithlonrwydd ynni yn ein hadeiladau annomestig. Er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19, cyflwynwyd mesurau effeithlonrwydd ynni ar draws 17 o ysgolion a 13 o adeiladau eraill y Cyngor gan gynnwys canolfannau hamdden, cartrefi gofal a swyddfeydd y Cyngor. Bydd y mesurau hyn yn arwain at arbedion carbon cyfatebol (tCO<sub>2</sub>e) o 675 tunnell ac arbedion cost o £315,726 bob blwyddyn.
- ⊙ Yn 2020/21 mae Milltired Busnes wedi gostwng 1,719,527 milltir (43.3%) ac mae'r swm a dalwyd wedi gostwng £757,904 (43%). Mae'r gostyngiad yn y milltired wedi lleihau ein hallyriadau carbon i 621 tCO<sub>2</sub>e (45.1%). Yn ogystal, mae nifer y staff sy'n gweithio gartref wedi lleihau'r milltired cymudo a'r allyriadau.
- ⊙ Mae archwiliad mawr o'n holl fesuryddion trydan a nwy wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda'n cyflenwyr ynni i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr o osod mesuryddion clyfar cyn gynted â phosibl. Byddwn wedyn yn canolbwyntio ar ymestyn mesuryddion clyfar i'n defnydd o ddŵr.
- ⊙ Rydym yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio a chyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn adolygu ein daliadau tir i benderfynu pa mor ddichonadwy ydynt ar gyfer ynni adnewyddadwy. Rydym hefyd yn mynd ar drywydd cyfleoedd eraill, gan gynnwys trefniant prynu pŵer posibl gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n gysylltiedig â fferm solar arfaethedig 500 kWp ar eu safle Hafan Derwen – byddai tua 50% o'r trydan a gynhyrchir ar gael i gyflenwi ein swyddfeydd ym Mharc Dewi Sant gerllaw.



**United Nations**



Prosiect rhyngwladol [Walk the Global Walk](#) yn Sir Gaerfyrddin.

- Dros y tair blynedd diwethaf, mae nifer cynyddol o ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Maent wedi cyhoeddi [Maniffesto](#) 8 pwynt Gweithredu er budd yr Hinsawdd Gôl-geidwaid Byd-eang Sir Gaerfyrddin ac wedi cyflwyno hyn yn Uwch-gynhadledd Hinsawdd Ieuenctid Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r maniffesto ac wedi cytuno i gynnwys y cynllun gweithredu hwn yn ei Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2021/22.
- Mae'r gwaith hwn yn rhan o brosiect *Walk the Global Walk* a ariennir gan yr UE ac sy'n cynnwys ysgolion mewn 12 gwlad.
- Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, bu i brosiect *Walk the Global Walk* gynnal gyfres o ddigwyddiadau ar-lein. Er enghraifft, trafodaeth ar ffurf y Cenhedloedd Unedig ynghylch newid yn yr hinsawdd, yn ogystal ag ysgol haf ryngwladol sy'n cynnwys disgyblion o wahanol wledydd.

*"Diolch am ein cysylltu â'r byd mawr y tu allan." Disgybl o Sir Gaerfyrddin*

## Yr Amgylchedd Naturiol

- ⊙ Mae clefyd coed ynn yn glefyd ffwngaidd sy'n cael effaith ddinistriol ar goed ynn ledled y DU - credir y gallai tua 95% o goed ynn farw o'r clefyd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gorfod cael gwared ar y coed yr effeithir arnynt y mae'n gyfrifol amdanynt ar hyd ffyrdd A a B ledled y sir gan fod y coed mewn perygl o gwmpo gan greu risg ddifrifol i'r cyhoedd. Mae tîrffeddiawyr eraill hefyd yn gorfod cymryd camau tebyg.
  - Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod wrthi'n chwilio am ardaloedd lle gellir plannu coed newydd er mwyn helpu i wneud iawn am y coed sy'n cael eu colli o achos clefyd coed ynn.
  - Yn ogystal â helpu i wneud iawn am golli coed ynn, bydd y rhain yn creu nifer o fanteision eraill. Bydd y coetiroedd newydd hyn, maes o law, yn amsugno carbon deuocsid, yn gwella ansawdd aer ac adeiledd pridd ac yn cefnogi bioamrywiaeth drwy ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd.
  - Rydym wedi gwaredu **648** o goed ynn o'n priffyrdd sy'n eiddo i'r Cyngor a **370** o goed ynn o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor. Rydym yn bwriadu plannu 8.8ha o goed newydd ac rydym wedi dechrau plannu **77** o goed ym Mharc Dewi Sant.

## Bioamrywiaeth

**Dychwelyd tir i laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau sy'n cefnogi pryfed peillio, ymlusgiaid, adar a mamaliaid.**

Mae Parc Gwledig Llyn Llech Owain yng Ngors-las yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin ac yn cael ei reoli ganddo. Mae'r parc yn gyrchfan boblogaidd lle gall pobl leol fwynhau cefn gwlad ysblennydd Sir Gaerfyrddin, sydd wedi bod yn bwysicach byth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



Yn y parc mae rhai cynefinoedd arbennig sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae un o'r safleoedd hyn ar ochr ogleddol y parc yn cynnwys ardal fawr o laswelltir a rhostir a oedd wedi dechrau cael ei esgeuluso oherwydd diffyg tir pori.

Ym mis Mawrth, roeddem yn ffodus o gael arian gan y Grant Adfer Gwyrdd i dalu am osod ffensys o amgylch y safle, ac rydym wedi trefnu bod gwartheg brid brodorol yn pori'r safle yr haf hwn i'w dychwelyd i laswelltir sy'n llawn rhywogaethau sy'n cefnogi pryfed peillio, ymlusgiaid, adar a mamaliaid.

Bydd y safle'n rhoi cyfle i ymwelwyr weld ffermio sy'n ystyriol o natur ar waith, gan ddangos manteision hyn o ran rheoli cynefinoedd a chynhyrchu bwyd cynaliadwy.

## Llifogydd

Mae'r sir wedi bod yn destun nifer o ddigwyddiadau tywydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

- Achosodd Storm Callum ddifrod eang yn 2018.
- Storm Lorenzo a Hannah ym mis Hydref 2019 a Storm Ciara a Dennis ym mis Chwefror 2020.
- Yn ystod 2020-21, Storm Ellen a Storm Francis ym mis Awst a Storm Alex ym mis Hydref

Ystyrir bod amllder y digwyddiadau hyn yn cynyddu a'u bod yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

Yn ystod stormydd diweddar bu aelodau o staff yn gweithio i gefnogi cymunedau yr effeithiwyd arnynt. Buom yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r gwasanaethau brys i baratoi ac ymateb i lefelau dŵr yn codi.

- ⦿ Rydym wedi helpu i reoli ac ymchwilio i lifogydd sylweddol drwy gydol gaeaf 2020/21. Er bod COVID-19 wedi effeithio ar hynny, mae'r holl asedau llifogydd risg uchel wedi'u harolygu.
- ⦿ Buom yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r gwasanaethau brys i baratoi ar gyfer ac ymateb i lefelau dŵr cynyddol yn Llanybydder, Castellnewydd Emlyn a Phont-tyweli, ac yng Nghaerfyrddin yng nghyffiniau Pensarn a'r Cei.
- ⦿ Rydym wedi datblygu cynlluniau gweithredol ac wedi prynu pypiau symudol i reoli perygl llifogydd mewn ardaloedd risg uchel yng Nghaerfyrddin.
- ⦿ Rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaeth tywydd pwrpasol i roi gwybodaeth well i'r swyddog am achosion o stormydd a glaw trwm.
- ⦿ Cafodd yr holl asedau rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol risg uchel eu harolygu.
- ⦿ Rydym wedi parhau i ddatblygu ein portffolio gwaith cyfalaf ac rydym yn parhau i ddatblygu cynlluniau i reoli perygl llifogydd ym Mhen-sarn, Llanybydder, Pont-tyweli, Llangennech, Rhydaman a Chastellnewydd Emlyn.
- ⦿ Rydym hefyd yn datblygu cynllun rheoli perygl llifogydd naturiol yn Rhydaman a fydd yn ceisio defnyddio proses naturiol i reoli perygl llifogydd.
- ⦿ Rydym wedi gweithio i fynd i'r afael ag erydiad y glannau ym Mharc Arfordirol y Mileniwm a'r Bynea, ac erydiad y glannau ym Mhorth Tywyn a Phen-bre.
- ⦿ Fel Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy rydym yn gweithio gyda datblygwyr proffesiynol ac amatur i'w cynghori ar systemau draenio cynaliadwy a mabwysiadu'r systemau pan fo hynny'n berthnasol.

## Ansawdd Aer

- ⊙ Mae tystiolaeth bod ansawdd aer wedi gwella ar draws y Sir yn ystod y cyfyngiadau symud. Ar draws pob safle yn 2020 gwelwyd y gwelliannau mwyaf i Ansawdd Aer yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf, yn enwedig yn ystod misoedd Ebrill a Mai gan fod teithio nad yw'n hanfodol wedi'i gyfyngu. Y ffyrdd prysuraf sydd fel arfer yn profi'r lefelau uchaf o Nitrogen Deuocsid gyda chyfrifau traffig uwch yn elwa fwyaf, gan adrodd [gostyngiadau o tua 50%](#) o gymharu ag [Adroddiad Effaith COVID-19 ar Ansawdd Aer 2019](#)

## Gwasanaethau Gwastraff

- ⊙ O ganlyniad i'r newidiadau yn ffyrdd o fyw pobl oherwydd y feirws, gwelwyd cynnydd syfrdanol yn y tunelli o ddeunydd ailgylchu oedd yn cael ei gasglu o ymyl y ffordd. Cynyddodd ailgylchu bagiau glas a gwastraff bwyd 28% yn ogystal â 706 tunnell yn fwy o ddeunyddiau gwastraff swmpus yn cael eu casglu drwy ein gwasanaeth casglu ar sail apwyntiadau. Roedd yn rhaid gwneud newidiadau i nifer yr apwyntiadau mewn diwrnod er mwyn ateb y galw am y gwasanaeth!



Cadwodd y trigolion forâl y criwiau'n uchel gyda'u paentiadau, nodiadau o ddiolch a phosteri a danteithion pobi cartref. Mae nifer ohonynt bellach yn cael eu harddangos yn eu cabiau. Rhoddodd *Domino's Pizzas* dros 100 o bizzas i'r gweithwyr allweddol yn ein depos gweithredol, ac yn y Pasg rhoddwyd Wyau Pasg gan Morrison's Caerfyrddin.

Gan fod Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gau, sefydlwyd manau darparu bagiau glas ychwanegol dros dro gennym er mwyn cydymffurfio â negeseuon 'teithio hanfodol – aros yn lleol' Llywodraeth Cymru. O ganlyniad mae 67,000 o roliau wedi'u dosbarthu i'r manau hyn a gwelwyd cynnydd pellach o 40% mewn dosbarthiadau i gartrefi oherwydd y galw. Unwaith eto, mae ein rhaglen o ddsbarthu bagiau ailgylchu glas a leinwyr gwastraff bwyd ar waith ers tro, ac mae criwiau'n gweithio oriau ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob un o'r 91,274 o aelwydydd yn derbyn eu bagiau ailgylchu erbyn diwedd gwanwyn 2021!

## Y ffordd rydym yn gweithio

**Mae rhai o'r newidiadau rydym wedi'u gwneud yn ystod y pandemig wedi bod mor llwyddiannus, byddwn yn newid y ffordd roeddem yn gweithio cyn y pandemig.**

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref - system apwyntiadau ar-lein ar gyfer ymweld

Er mwyn sicrhau bod Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn agor ar ôl cyfnod y cyfyngiadau cyntaf ar 26 Mai, gan gadw at holl ganllawiau'r llywodraeth, aeth swyddogion ati i drefnu system apwyntiadau ar-lein, er mwyn i ymweliadau gan drigolion fod yn ddiogel i bawb ac er mwyn gwneud gwaredu gwastraff mor hawdd â phosibl i bobl. O ganlyniad, mae 85,000 o apwyntiadau wedi'u gwneud yn llwyddiannus ers ailagor. Roedd gweithio mewn partneriaeth â Cwm Environmental, TG, marchnata a'r cyfryngau, a'r gwasanaethau cwsmeriaid yn hollbwysig i'r llwyddiant hwn.



## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



## Amcan Llesiant 13

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

### Helpu i gael mynediad drwy'r pandemig

Mae ein gwasanaethau cysylltiedig â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd yn hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel. Galluogi mynediad i farchnadoedd a nwyddau crai yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol. Rydym wedi parhau i ddatblygu Teithio Llesol drwy fuddsoddi mewn llwybrau a rennir a llwybrau beicio, gwella'r seilwaith ffyrdd i hybu gweithgarwch economaidd, a chynnal gwasanaeth bysiau gwledig drwy ein gwasanaeth Bwcabus a cheir cefn gwlad.

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae gan *drafnidiaeth a phriffyrdd* rôl allweddol o ran cynnal ein cymunedau. Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau'n ddiogel ac yn effeithlon; darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau adwerthu.
- ⊙ *Bod yn unedig a chysylltiedig* yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun '*Symud Cymru Ymlaen*'. Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- ⊙ Bydd *cynnal mynediad at wasanaethau* drwy gynlluniau Teithio Llesol yn sicrhau gwelliannau mewn iechyd a llesiant i bob rhan o'r gymuned gan gynnwys cerdded, beicio, teithio i deithwyr a thrafnidiaeth y ffyrdd.
- ⊙ Bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.

### Mesurau Llwyddiant

#### Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael:



**4.1%** o'n rhai Dosbarth A

(Gwelliant ar 5.4% yn 19/20)

**3.4%** o'n rhai Dosbarth B

(Gwelliant ar 4.7% yn 19/20)

**12.0%** o'n rhai Dosbarth C

(Gwelliant ar 12.5% yn 19/20)

**50%** o Ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yn

ystod 2020 i **55** (3<sup>ydd</sup> uchaf

yng Nghymru)

(111 yn 2019)

Ffynhonnell: Stats Cymru



### Egluro'r Canlyniadau

- ⊙ **Mae cyflwr y ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella yn ystod 2020/21.** Gan Sir Gaerfyrddin mae'r rhwydwaith priffyrdd ail fwyaf yng Nghymru (3,482 Km o briffyrdd) a mwy na dwbl cyfartaledd Cymru o 1,578Km. Mae gennym hefyd y traffig trydydd mwyaf yng Nghymru, sef 2.06 biliwn o gilometrau cerbydau y flwyddyn (2018) sy'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 1.33 biliwn (Caerdydd oedd fwyaf, sef 3.0 biliwn ac yna Rhondda Cynon Taf yn 2.15 biliwn). Mae % y ffyrdd dosbarth A, B ac C yn Sir Gaerfyrddin sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) wedi lleihau, ac mae canran y ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael wedi gostwng o 5.4% i 4.1%, ffyrdd B o 4.7% i 3.4% a ffyrdd C o 12.5% i 12.0%.
- ⊙ **Cafodd cyfanswm o 55 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol** ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2020, mae pob marwolaeth yn drasiedi, ond mae hwn yn ostyngiad o gymharu â 111 yn 2019. Er gwaethaf hyn mae gennym y ffigur 3ydd uchaf yng Nghymru ar ôl Caerffili (67) a Phowys (85). Mae'r rhain yn cynnwys 10 beiciwr modur (25 yn 2019) a 15 o bobl ifanc 16-24 oed (27 yn 2019). Mae cyfyngiadau symud COVID-19 yn ystod 2020 wedi cael effaith fawr ar y data hwn gan fod llawer llai o draffig ar y ffyrdd. Fodd bynnag, wrth i nifer y cerbydau ar ein ffyrdd ddychwelyd i'r niferoedd cyn y pandemig, mae'n debygol y bydd nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd yn cynyddu.

Un o fentrau Llywodraeth Cymru oedd lleihau'r niferoedd oedd yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd 40% o 2013 i 2020, a rhagorwyd ar hyn yn Sir Gaerfyrddin drwy ostyngiad o 53%. Er na allwn reoli nifer y digwyddiadau traffig ffordd ar rwydwaith ffyrdd y sir, rydym yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner i annog pobl i ddefnyddio'r ffordd yn fwy diogel, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ffordd risg uchel (beicwyr modur, yr henoed, a gyrwyr ifanc), buddsoddi mewn prosiectau peirianeg diogelwch ffyrdd a dargedir, a helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd gorfodi rheolau cyflymder a mynd i'r afael â phryderon ynghylch goryrru.

## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

- ⦿ Roedd yn hanfodol, er mwyn helpu cynifer o *fusnesau canol tref i ddychwelyd i* weithredu'n ddiogel cyn gynted â phosibl, ein bod yn creu amgylcheddau diogel yng nghanol y dref ac yn galluogi pobl i symud yn synhwyrol drwyddi draw, a oedd yn rhoi hyder i drigolion a busnesau ailddechrau gweithgarwch a busnes. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys: Arwyddion; Cyfathrebu â busnesau; Cyfleusterau Cyhoeddus; Gorsafoedd Bysiau; Meysydd Parcio; a Chelfi Stryd (e.e. meinciau) – gyda'r nod o gael gwell mynediad i gyswllt trafndiaeth gyhoeddus y dref. Cyflwynwyd ystod o fesurau rheoli traffig a mynediad yng nghanol trefi ynghyd â negeseuon cyhoeddus i annog siopwyr ac ymwelwyr i ddychwelyd i ganol ein trefi.
- ⦿ Er gwaethaf y cyfyngiadau a achoswyd gan COVID-19, gwnaethom hefyd ddarparu rhaglen gyfalaf lawn a oedd yn cynnwys gweithredu 25 o gynlluniau cymorth priffyrdd a 97 o gynlluniau gosod wyneb newydd ar ffyrdd.
- ⦿ Gostyngodd *trafnidiaeth gyhoeddus* yn sylweddol yn ystod y cyfyngiadau symud, ond mewn gwirionedd roedd y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus wedi gostwng llawer cyn y cyfyngiadau symud ffurfiol. Creodd hyn broblem i weithredwyr gan fod llai o incwm o lawer ar y llwybrau hynny y llwyddasant i gynnal y gwasanaeth arnynt. Mae hyn wedi creu problem gyllido wrth symud ymlaen. Gallai gymryd cryn dipyn o amser i adfer lefelau defnydd, a gan fod llawer wedi tyfu'n gyfarwydd â gweithio gartref gallai fod effeithiau andwyol hirdymor ar lefelau gwasanaeth. Er gwaethaf yr heriau efallai y bydd cyfle i ail-ymweld ac ail-flaenoriaethu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

*“Mae gyrwyr Bwcabus wedi mynd yr ail filltir... yn cynorthwyo gweithwyr allweddol... maen nhw'n wych ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr”*




- ⦿ Darparwyd *cludiant i'r ysgol* yn ystod y cyfnod ailagorodd ysgolion ddiwedd Mehefin a Gorffennaf. Roedd cludiant ar gael yn unol â'n polisi arferol ond dim ond i'r rhai ofynnodd amdano'n benodol. Roedd cludiant yn gweithredu fel arfer o fis Medi ymlaen. Bu i'r angen am gadw pellter cymdeithasol rhwng gyrrwr a theithiwr greu cryn her gan ei fod yn golygu bod angen gadael rhai o'r seddi agosaf at y gyrrwr yn wag, gan greu problemau llwytho a'r angen am gerbydau ychwanegol. Mae pryder hefyd y gallai fod prinder gyrwyr a chynorthwyrwyr teithwyr, o gofio proffil oedran hŷn llawer o'r rhain.

## Teithio Llesol

Eleni, oherwydd y pandemig ac oherwydd bod mwy o bobl yn gweithio gartref, mae cynnydd yn nifer y cerddwyr a'r beicwyr.

*Mae data sy'n seiliedig ar sampl o'n llwybrau beicio drwy'r flwyddyn yn dangos bod pobl wedi bod am dro 837,388 (274%) o weithiau a bod cynnydd o 311,827 (142%) mewn beicio wedi bod yn ystod y flwyddyn.*



Cyfanswm nifer y teithiau cerdded a gofnodwyd ar ein holl lwybrau beicio yn 2020 oedd 1,308,706 a 601,613 o deithiau beic, ond nid oes gennym ddata tebyg ar gyfer 2019 ar ein holl lwybrau beicio.




- £1,050,000 ar gyfer Prif Gynllun Llanelli: darparu'r cam cyntaf o ran creu llwybr defnydd a rennir hawdd ei ddefnyddio, sy'n ddi-draffig yn bennaf, drwy ganol Llanelli.

## Y ffordd rydym yn gweithio

- ⦿ I ddechrau, bu gweithwyr ffordd o'n depos yng Nghillefwr, Glanaman a Throstre yn cynorthwyo i ddsbarthu bwyd i'n hysgolion o Gastell Howell yn Cross Hands, ac yna'n helpu i ddarparu pecynnau bwyd yn unionyrchol i gartrefi o ysgolion.

Hefyd roedd nifer o weithwyr ffordd o'n depo yn Nhrostre wedi cael eu hadleoli bob dydd i'r Uned Gwastraff / Sbwriel fel gyrwyr mewn cerbyd cymorth ar rowndiau sbwriel. Fe wnaeth y cerbyd cymorth gludo un llwythwr o amgylch y rownd sbwriel gan ddilyn y lori sbwriel.



## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.





## Amcan Llesiant 14

### Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Byddwn yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd, a byddwn yn annog ac yn helpu sefydliadau'r sir i sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng cynyddol naturiol i'w gwasanaethau.



#### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae Sir Gaerfyrddin yn gadarnle ar gyfer y Gymraeg ac ystyrir bod y sir o bwysigrwydd strategol mawr i ddyfodol yr iaith.
- ⊙ Mae dwyieithrwydd o fudd i'r economi ac i unigolion drwy fuddion gwybyddol a chymdeithasol.
- ⊙ Mae'n bwynt gwerthu unigryw. Mae diwydiannau twristiaeth a lletygarwch ledled Ewrop bellach yn sylweddoli pwysigrwydd cynnig profiadau unigryw. Mae cael dwy iaith a synnwyr o hanes a diwylliant Cymru yn golygu bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref.
- ⊙ Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda.

#### Mesurau Llwyddiant

Fel arfer, rydym yn mesur llwyddiant yr Amcan Llesiant hwn gyda chanlyniad isod Arolwg Cenedlaethol Cymru ond yn anffodus oherwydd COVID-19 nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael ar gyfer y mesurau hyn:

##### *Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg - nid yw data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19*

Dangosodd y data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 fod **37.4%** o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn gallu **siarad Cymraeg**, a hwn yw'r 4<sup>ydd</sup> uchaf yng Nghymru o hyd er gwaethaf gostyngiad bach ers y canlyniad blaenorol (37.8%). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhoi syniad blynyddol da, yn seiliedig ar sampl o'r boblogaeth, o nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell sy'n rhoi ffigur poblogaeth gyfan, gyda 43.9% (78,000 o siaradwyr) wedi'u nodi yn 2011, sef y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw sir.

##### *Pobl a ymwelodd â Digwyddiadau Celfyddydol, Lleoedd Hanesyddol ac Amgueddfeydd - nid yw data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19*

Roedd y data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 ar gyfer cyfranogwyr o Sir Gaerfyrddin **sy'n mynychu digwyddiad celfyddydol, ymweld â lle hanesyddol neu ymweld ag amgueddfa** wedi cynyddu. Roedd ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol ac amgueddfeydd yn is na chyfartaledd Cymru o 70.4% a 42.5%, ond mae'r % sy'n ymweld â lleoedd hanesyddol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 62.5. *Noder bod y cwestiynau'n gofyn a oeddent wedi bod yn y lleoedd hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd.*



## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Iaith

- ⊙ Mae ein tîm Marchnata a'r Cyfryngau wedi sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ym mhob gohebiaeth yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol a'r holl negeseuon brys.
- ⊙ Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein cyfleoedd Cymraeg Gwaith i'n staff ac rydym wedi gweld cynnydd yn y staff sy'n cael mynediad i'r modiwlau Croeso ar-lein sydd ar gael drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ym mis Mawrth 2021, dyfarnwyd gwobr 'Cyflogwr y Flwyddyn' i Sir Gaerfyrddin yng Ngwobrau Cymraeg Gwaith 2020-21 drwy Brifysgol Aberystwyth. Rhoddwyd y gwobrau hyn ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Cyflwynwyd gwobr Cymraeg yn y Gweithle i ni am ein gwaith yn creu amgylchedd cefnogol iawn i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
- ⊙ Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gefnogi ein disgyblion a'n rhieni o fewn addysg cyfrwng Cymraeg ac wedi dosbarthu'r 'gwaith cartref Cymraeg.' Canllaw 'Dim problem!' i'r holl rieni. Nod y canllaw yw lleddfu unrhyw bryderon a allai fod gan rieni wrth gefnogi eu plant i astudio a chwblhau gwaith cartref drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ⊙ Er mwyn cefnogi ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac wrth ddefnyddio technoleg newydd, paratowyd canllaw electronig newydd i esbonio'r nodweddion allweddol sydd ar gael. Mae technoleg yn hwyluso'r defnydd o'r iaith bob dydd a chyda staff yn gweithio o bell ac yn cael mynediad at fwy o gyfarfodydd ar-lein, mae'r canllaw yn cyfeirio at adnoddau a nodweddion ar-lein yn Outlook a Teams.

### Diwylliant

- ⊙ Mae Adeilad Archif newydd bron â'i gwblhau yng nghefn Llyfrgell Caerfyrddin.
- ⊙ Sicrhawyd cyllid i sicrhau dyfodol Oriel Myrddin fel yr oriel celf a chreffft weledol fwyaf blaenllaw yng Ngorllewin Cymru. Prosiect datblygu a fydd yn gweld £1.9m yn cael ei fuddsoddi i adnewyddu ac ymestyn yr oriel, a fydd yn y dyfodol â'r capasiti a'r safonau diogelwch i ddenu benthyciadau o gasgliadau celf Cenedlaethol.
- ⊙ Buddsoddwyd £1m yn Amgueddfa Sir Abergwili a gwnaed gwelliannau i'r to a'r fynedfa i'r adeilad i adfer Palas yr Esgob i'w hen ogoniant.
- ⊙ Cafodd cyngerdd *West End at Christmas* ei ffilmio yn Theatr y Ffwrnes i breswylwyr a staff cartrefi gofal ledled Gorllewin Cymru. Cynigiwyd dolen i gartrefi gofal er mwyn gwyllo'r gyngerdd ar YouTube neu gael DVD wedi ei anfon yn y post Cofrestrodd **71** o gartrefi gofal ar draws Gorllewin Cymru ar gyfer y ddolen ar-lein i'w gwyllo, ac roedd **100** o gartrefi eraill wedi cael DVDs.
- ⊙ Helpodd Theatrau Sir Gâr gydweithwyr yng Nghyngor Sir Caerfyrddin i wneud cais llwyddiannus am arian cyfalaf o gais y Gronfa Gofal Integredig a oedd yn ariannu setiau teledu clyfar newydd, tabledi ac offer digidol arall i alluogi cartrefi gofal ledled Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i ddod yn fwy cysylltiedig yn ystod y pandemig. Roedd ein ffrydio byw o gyngherddau yn cyd-fynd â'r cais hwn ac wedi helpu'r cartrefi gofal i gael mynediad i theatr; rhywbeth nad oeddent wedi gallu ei wneud o'r blaen.
- ⊙ Cafodd cyfres o 4 gig Cymraeg eu ffrydio fel rhan o'n cyfres 'Yn Fyw o'r Ffwrnes' lle cafwyd perfformiadau gan ALFFA, GWILYM, MELLT ac Eädyth, ac roedd set Eädyth yn cyd-daro â Dydd Miwsig Cymru 2021.



Amgueddfa'r Sir, Abergwili



## Cymraeg mewn Busnes

Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r sector preifat weithredu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel Llywodraeth Cymru, yn awyddus i weld busnesau'r sir yn adlewyrchu dwyieithrwydd ein trigolion ac yn cynnig cyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg. Ein nod felly yw hyrwyddo'r Gymraeg, a hwyluso a chefnogi'r defnydd ohoni, gyda busnesau Sir Gaerfyrddin, yn unol â'n Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ystod 2020-21 achubom ar y cyfle i wneud hyn drwy gynhyrchu taflen gynhwysfawr, *Cymraeg mewn Busnes*, i gynorthwyo busnesau'r sir i weithredu'n ddwyieithog, a gwnaed hyn mewn partneriaeth â swyddogion busnes rhanbarthol *Llywodraeth Cymru a'r Mentrau Iaith*.

Casglwyd ymchwil gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru i ddarparu sail gadarn ar gyfer y wybodaeth yn y daflen. Yna, bu'r tîm yn gweithio gyda swyddogion *Helo Blod* ar ddyluniad a chynnwys y llyfryn o'r cychwyn cyntaf, gan gasglu astudiaethau achos lleol i roi blas lleol i'r daflen ac i sicrhau ei bod yn berthnasol i Sir Gaerfyrddin. Cynlluniwyd y cynnwys i adlewyrchu'r neges bod y Gymraeg i bawb; i'r busnesau hynny sydd am gymryd camau bach tuag at gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg i adlewyrchu dwyieithrwydd y sir, yn ogystal ag i fusnesau sydd am weithredu'n gwbl ddwyieithog.

Cafodd cynllun dosbarthu ei greu a oedd yn cynnwys sawl partner newydd. Trefnwyd bod y Cyngor yn dosbarthu'r cyswllt electronig drwy ein gwaith gyda datblygu economaidd, safonau masnach, prydlesu, twristiaeth a gofal plant. Buom hefyd yn gweithio gydag asiantaethau hybu busnes e.e. bu i Menter a Busnes anfon llyfryn at yr holl fusnesau oedd ar brosiect Cywain.



### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# Adeiladu Gwell Cyngor a Gwell Defnydd o Adnoddau





## Amcan Llesiant 15a - Adeiladu Gwell Cyngor

### Pan darodd y pandemig, roeddem mewn sefyllfa dda o ran TG

Nododd ein [Strategaeth Technoleg Ddigidol](#) ddull newydd a fyddai'n sail i bopeth rydym yn ei wneud fel Cyngor bron, a phan darodd y pandemig roeddem mewn sefyllfa dda o ran bod yn barod. Roeddem wedi bod yn manteisio ar blatfformau digidol newydd fel y gallai ein trigolion a'n busnesau gael gwybodaeth neu gwblhau eu hymwneud â'r Awdurdod Lleol mewn ffyrdd sy'n gyfleus iddynt hwy, gan arbed arian cyhoeddus hefyd. Mae'r weledigaeth a'r buddsoddiad hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa ffafriol ar y cychwyn i symud gwasanaethau ar-lein ac i hwyluso gweithio gartref.

### Pam mae'n bwysig

- Pwrpas cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud i hyn weithio mae 7 o feysydd allweddol o newid corfforaethol yn ofynnol gan y Ddeddf.

1 Cynllunio Corfforaethol	A gwmpesir gan
2 Rheoli Perfformiad	Adeiladu Gwell
3 Cynllunio'r Gweithlu	Cyngor
4 Cynllunio Ariannol	A gwmpesir gan
5 Asedau	Gwneud Gwell
6 Caffael	Defnydd o
7 Risg	Adnoddau

### Mesurau Llwyddiant

Fel arfer, rydym yn mesur llwyddiant yr Amcan Llesiant hwn gyda chanlyniadau uchod Arolwg Cenedlaethol Cymru ond yn anffodus oherwydd COVID-19 nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael ar gyfer y mesurau hyn. Dangosodd y data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020:

#### Gall Pobl Gyrchu Gwybodaeth - nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19

- **71.2%** o'r cyfranogwyr yn cytuno **y gallent gyrchu gwybodaeth amdanom ni yn y modd roeddent yn ei ffafrio**, mae hyn islaw cyfartaledd Cymru o 74.9%, ac rydym yn yr 17<sup>eg</sup> safle.

#### Gall pobl ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu - nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19

- **74.6%** o bobl yn cytuno **eu bod yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu**; is na chyfartaledd Cymru o 75.8% ac yn y 13<sup>eg</sup> safle yng Nghymru.

#### Pobl yn cael cyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud - nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19

- Dim ond **9%** o bobl yn cytuno **bod ganddynt gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau**. Ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 17% ac yn yr 21<sup>ain</sup> safle.

Rydym hefyd yn mesur ein llwyddiant gyda **data Salwch Staff**, mae canlyniad 2020/21 yn dangos bod: -



### Salwch Staff yn lleihau'n sylweddol i

# 7.7

diwrnod y flwyddyn

(10.7 o ddiwrnodau o'r blaen)

Mae lefelau salwch o fewn yr Awdurdod wedi gostwng ar gyfartaledd o **3 diwrnod cyfwerth ag amser llawn** fesul gweithiwr yn ystod 2020/21. O 10.7 diwrnod yn 2019/20 i 7.7 diwrnod.

Mae salwch tymor byr wedi gostwng dros 50% yn ystod cyfnod pandemig COVID-19, ac mae gwarchod a gweithio gartref yn ffactorau allweddol yn hyn o beth.

## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

Mae adeiladu ffyrdd newydd a gwell o weithio yn rhywbeth rydym wedi bod yn ceisio'i wneud ers cryn amser. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio ac wedi dysgu llawer i ni.

Drwy weithlu talentog ac ymroddedig, a buddsoddiad parhaus yn ein seilwaith digidol, rydym bellach mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell byth. Drwy ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu a moderneiddio'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau, mae gennym gyfle i wneud gwaith yn well i bawb wrth adeiladu Sir Gaerfyrddin sydd hyd yn oed yn well, yn fwy cynhyrchiol ac yn iachach, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Cynllunio Corfforaethol

- Cafodd ein *Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant* eu haddasu ddiwethaf ym mis Mehefin 2019, ac o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, Brexit a Newid yn yr Hinsawdd, rydym wedi addasu'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2021/22.

### Rheoli Perfformiad

- Cafodd *Adroddiad Blynyddol* ei gynhyrchu ar gyfer 2019/20 a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2020.
- Yn sgil y pandemig, ni roddwyd sylw llawn i lawer o'r camau gweithredu a'r targedau a bennwyd ar gyfer y flwyddyn, a chafodd *Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned* (effaith COVID-19) ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020 i gyfrif am hanner cyntaf y flwyddyn.
- Rydym wedi bod yn adrodd bob hanner blwyddyn ac yn chwarterol ar Fesurau Perfformiad ac Argymhellion yr Adroddiad Rheoleiddiol.

### Cynllunio'r Gweithlu

- Rhan annatod o'r broses cynllunio busnes. Yn 2015, gwnaethom ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer rheolwyr a chynnal sesiynau datblygu pwrpasol. Byddwn yn cynnal sesiynau datblygu pellach ar gyfer rheolwyr (a drefnir gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol) i helpu rheolwyr i ymateb i ofynion y gwasanaeth yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi'r broses, rydym yn parhau i ddarparu data am bobl at ddefnydd rheolwyr.
- Rydym wedi lansio proses arfarnu newydd sy'n canolbwyntio ar gryfderau'r unigolion. Ei nod yw **cydnabod** gwaith da a llwyddiannau, i helpu unigolion a'r gwasanaeth i **dyfu** drwy edrych ar yr hyn mae unigolion wedi'i wneud yn dda, a sut gallwn weithio **gyda'n gilydd** i gyflawni ein syniadau. Mae trafodaethau cychwynnol wedi dechrau gydag ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu proses arfarnu ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu.
- Yn ystod y pandemig, gwnaethom ddatblygu atebion digidol creadigol i gadw'r sefydliad yn dysgu ac i ailsgilio staff fel y gellid eu hadleoli i feysydd gwasanaeth hanfodol. Roeddem hefyd wedi cynnal archwiliad sgiliau a fydd yn adnodd defnyddiol iawn i wasanaethau
- Gwnaethom adleoli 900+ o staff yn ystod y pandemig i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol.

### Iechyd a Llesiant Staff

- Rydym wedi parhau i sicrhau ein bod yn rhoi cefnogaeth lawn i *helpu staff i gynnal ffordd o fyw iach*, sy'n cynnwys camau rhagweithiol ac ataliol, addysg i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pynciau iechyd allweddol a, lle bo'r angen, sicrhau bod absenoldeb salwch ymysg staff yn cael ei reoli'n ofalus er budd y staff a darpariaeth y gwasanaethau.
- Mae 160 o *Hyrwyddwyr Llesiant* gwirfoddol wedi cael eu hyfforddi ac yn gweithio, yn annog, ac yn cymell eu cydweithwyr - gan ddatblygu clybiau, timau, gweithgareddau a negeseuon corfforaethol sy'n gwella iechyd meddwl a chorfforol a llesiant.
- Mae'r Cyngor wedi ennill y wobr uchaf fel cydnabyddiaeth o'r gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi iechyd a llesiant ein staff. Y *Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm* yw'r marc ansawdd ar gyfer hybu iechyd yn y gweithle yng Nghymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru.



Ni yw'r Awdurdod cyntaf yng Nghymru i ennill [Gwobr Platinwm y Safon Iechyd Corfforaethol](#)

### Iechyd Meddwl Staff

- Rydym wedi ail-lofnodi'r *Addewid Amser i Newid*, sy'n cadarnhau ein cefnogaeth, ein blaenoriaeth a'n gwaith parhaus i leihau gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl a'r stigma ynghylch y pwnc. Yn ogystal â hyn, mae gwaith yn parhau ar ein cynllun gweithredu iechyd meddwl, sy'n cyd-fynd ag agenda llesiant yr Awdurdod.
- Ers llofnodi'r addewid gyntaf yn 2015 rydym wedi creu modiwl e-ddysgu iechyd meddwl ac wedi cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr a'r holl staff ar draws yr Awdurdod.
- Rydym hefyd yn awyddus i recriwtio gweithwyr cymorth cyntaf/goruchwylwyr iechyd meddwl ar draws yr awdurdod ac yn ein hysgolion, yn ogystal â recriwtio Cydgysylltydd Llesiant newydd a fydd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r mentrau sy'n cefnogi'r gwaith hwn.

### Y ffordd rydym yn gweithio

O safbwynt strategol, mae'r *tîm Trawsnewid, Arloesi a Newid (TIC)* wedi bod yn gyfrifol am werthuso ymateb y Cyngor i argyfwng Covid-19 er mwyn sicrhau bod unrhyw beth a ddysgwyd a newidiadau cadarnhaol yn cael eu defnyddio i lywio'r dull o ailosod gwasanaethau a fframwaith cyflenwi strategol a gweithredol y Cyngor yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cwestiynau allweddol canlynol:

*"Life has changed, and work life is changing too. Building on the learning through the pandemic, Carmarthenshire is transforming its working practices and accommodation to modernise, and support the shift to, the way we need to work. We will create vibrant, collaborative, and dynamic workspaces that are fit for purpose and flexible enough to sustain the way everyone works to deliver outstanding services. Case for Change (March 2021)*

*Beth sydd wedi mynd yn dda a sut y gall hyn fod wedi cyfrannu at ffyrdd gwell/clyfrach o weithio?*

*Beth sydd ddim wedi mynd yn dda a pham?*

*Beth o ran yr hyn a ddysgwyd yn benodol ac enghreifftiau o arferion da y mae angen inni sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys bellach yn ein dulliau gweithio yn y dyfodol?*

*Pa gymorth pellach/trefniadau eraill sydd angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau cadarnhaol yn gynaliadwy?*

Enghraifft o ffordd newydd o weithio a ddatblygwyd yn ystod pandemig COVID-19 y byddwn yn parhau â hi...

## Y Gwasanaeth Dydd Anabledd Dysgu i Oedolion

Cafodd y gwasanaethau hyn eu cwtdogi'n helaeth ar ddechrau'r cyfyngiadau symud. Er mwyn lliniaru effaith hyn ar ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyd gwasanaethau'n rhithwir yn ôl cynlluniau a diddordebau unigol megis coginio, garddio, bingo, karaoke ac ati. Hefyd darparwyd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y rhai â'r anghenion mwyaf drwy gymorth dros nos yn y cartref a gofal seibiant brys.

- Mae Defnyddwyr Gwasanaeth wedi gallu cael mynediad at ystod ehangach o sesiynau rhithwir ac ymgysylltu â nifer ehangach o gyfranogwyr, sydd wedi arwain at ffurfio grwpiau cyfoedion newydd.
- Mae gofalywyr wedi gallu cymryd rhan ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaeth yn y gweithgareddau ar-lein, sydd wedi eu galluogi i weld sut mae eu dibynnydd yn ymgysylltu ac yn ymateb i'r sesiynau, ymgysylltu â gofalywyr eraill, a chryfhau cysylltiadau â staff cymorth, ac, yn yr un modd, ffurfio grwpiau cyfoedion.
- Mae staff wedi cael cyfle i fod yn arloesol wrth ddatblygu a chyflwyno sesiynau ar-lein, ymgysylltu ag ystod ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalywyr.

Mae gweithgareddau wedi'u hehangu i roi "sgiliau bywyd" ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, roedd gwersi coginio rhithwir hefyd yn ystyried elfennau o gynllunio bwydlenni, sut i siopa am gynhwysion, paratoi bwyd, coginio a glanhau.



Chris Boner  
Pobi



Dean Bonnell gyda Phecyn  
Gweithgareddau Gwaith Coed

Gan fod llai o gapasiti yn ein gwasanaeth mewn adeiladau, mae angen i ni ddatblygu mwy o opsiynau yn y gymuned i sicrhau bod pawb yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r daith drawsnewidiol ar gyfer darparu gwasanaethau bob amser wedi anelu at wneud gwell defnydd o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau lleol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes hamdden a phartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu mynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth at ystod cydlynol o wasanaethau yn y gymuned. Bydd hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gostau teithio ac yn cefnogi'r agenda sero carbon net wrth i ni leihau nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n gorfod teithio [rhywfaint o bellter] i weithgareddau mewn adeiladau.

**Cefnogi oedolion i dyfu, datblygu a theimlo'n ddiogel, gan berthyn i'w cymuned**

## Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22 a bydd yn cael ei ailenwi:

**Llywodraethu yn Well**



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.





## Amcan Llesiant 15b - Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n fawr ar y sefyllfa ariannol a wynebir gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru, gyda Chyllid a Grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi ein cymuned yn ystod y pandemig hwn

### Pam mae'n bwysig

- ⊙ Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni *'mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'*.
- ⊙ Pwrpas cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud i hyn weithio mae **7 o feysydd allweddol** o newid corfforaethol yn ofynnol gan y Ddeddf.

4	Cynllunio Ariannol	<b>Gwneud</b>
5	Asedau	<b>Gwell</b>
6	Caffael	<b>Defnydd o</b>
7	Risg	<b>Adnoddau</b>

### Mesurau Llwyddiant

**Taliadau 'Ar-lein Amdani'** - Gweler y ffeithlun a'r sylwadau isod

**'Costau cynnal' sefydliadol** - Gweler y ffeithlun a'r sylwadau isod

**Pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn ac fel rhan o ymgynghoriad Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y gyllideb, rydym yn didoli barn aelodau a'r cyhoedd cyn pennu'r gyllideb** - nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael oherwydd COVID-19



Codiad o **16.09%** mewn Taliadau 'Ar-lein Amdani' (O 46,044 i 53,454 o drafodion)



**Effaith ariannol y pandemig oedd £30m** (£20m o gostau

ychwanegol a £10m o incwm a gollwyd). Bydd hyn yn cael ei hawlio'n ôl gan Lywodraeth Cymru.



**£72m** o Grantiau wedi'u talu i gefnogi busnesau lleol.

**£308K** o Grantiau Hunanynysu wedi'u talu.

**410 o wythnosau**

**person** o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu

### Egluro'r Canlyniadau

- ⊙ Oherwydd Pandemig COVID-19 a chan fod mwy o fynediad at y gwasanaethau ar-lein, mae hyn wedi creu newid naturiol gyda llawer o gwsmeriaid yn cysylltu â ni, yn cyflwyno ffurflenni a dogfennau, ac yn talu am ein gwasanaethau'n electronig gyda chynnydd o 16% yn nifer y taliadau ar-lein o 46,044 yn 2019/20 i 53,454 o drafodion gan gynyddu boddhad cwsmeriaid ac effeithlonrwydd gwasanaeth.
- ⊙ Rhagwelir tanwariant o £1.98 miliwn y mae £1.7 miliwn ohono'n ymwneud â thaliadau Cyfalaf nad aethpwyd iddynt yn ystod y flwyddyn oherwydd bod cynlluniau cyfalaf yn cael eu gohirio oherwydd y pandemig.
- ⊙ Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 fod nifer y cyfranogwyr a gytunai *ein bod yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb* oedd 9% (cyfartaledd Cymru 9.2%). Mae hwn yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol pan oedd yn 11.3% a bellach rydym yn y 9fed safle (7fed o'r blaen). Oherwydd COVID-19 nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael ar gyfer y mesur, er ein bod wedi parhau i gynnal ein hymgyngoriad cyllideb blyneddol ac ymgysylltu â chynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

- ⦿ Rydym wedi cefnogi busnesau lleol a chanol trefi, ac mae taliadau i'r swm o £72 miliwn wedi cael eu talu o 1 Ebrill 2020 mewn grantiau Dewisol ac Annewisol, i sicrhau bod busnesau lleol yn goroesi.
- ⦿ Talwyd £308K o gymorth ariannol i hawlwr cymwys y cysylltwyd â nhw gan Gynllun Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru i ddweud wrthynt am hunanynysu ar neu ar ôl 23 Hydref 2020 drwy'r Cynllun Taliadau Hunanynysu.
- ⦿ Drwy ddarparu Buddion Cymunedol, cyflwynwyd dros 410 wythnos person o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu gennym yn 2020/21 drwy brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ar draws y Sir.




## Cynnydd ar yr Amcan Llesiant hwn gan ystyried effaith COVID-19

### Cynllunio Ariannol:

- ⦿ Cytunwyd yn y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021 i bennu cynnydd o 3.45% yn y Dreth Gyngor am 2021/22, ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor Sir. Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd cyfartalog i'w dalu gan drigolion Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Hwn yw'r cynnydd 8fed isaf yng Nghymru ac mae'n llai na chyfartaledd Cymru o 3.84%.

(Ffynhonnell:Llywodroeth Cymru. Ystadegau Cymru)



- ⦿ Mae ein trefniadau adrodd ariannol wedi'u haddasu drwy gydol y flwyddyn, gan ystyried mynd i'r afael ag unrhyw bwysau yn sgil effaith barhaus pandemig COVID-19 yn ogystal ag effaith trefniadau masnachu ar ôl Brexit.
- ⦿ Defnyddiwyd dull cymysg o ganfod barn am gyllideb 2021-24, gan gynnwys cael mewnbwn Cyngorwyr ac Ymgynghori â'r Cyhoedd. Hysbysebwyd yr arolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg leol a rhanbarthol a'r radio, a thrwy grwpiau amrywiol gan gynnwys Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin, Rhwydwaith Heneiddio'n Dda, Cyngorair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gweithredu, a thrwy Gyngorau Tref a Chymuned. Cafodd yr holl ymatebion ddaeth i law eu hystyried fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

## Asedau:

### Rheoli Asedau

- ⊙ Dyma enghreifftiau diweddar o ble rydym wedi cwtdogi ar ddefnydd o adeiladau ac wedi cynhyrchu referniw o osodiadau neu gyfalaf o werthiannau:
  - Nant-y-ci, Caerfyrddin
  - Parc Dewi Sant (Bloc 14 a rhan o Bloc 3 ac 8), Caerfyrddin
  - 5-8 Heol Spilman, Caerfyrddin
  - 2-4 Teras Coleshill, Llanelli
- ⊙ Rydym wedi parhau i gefnogi perchnogaeth leol o asedau drwy ein gwaith *Trosoglwyddo Asedau Cymunedol*, gyda'r rhan fwyaf o gaeau chwarae a meysydd chwarae'r Cyngor yn cael eu trosglwyddo i Gynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol, gan alluogi ffynonellau ariannu newydd a diogelu'r asedau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- ⊙ Rydym hefyd wedi helpu ein tenantiaid busnes i ymateb i heriau'r 12 mis diwethaf drwy gonsesiynau rhent a thelerau hyblyg.

### Rheoli Cyfleusterau

- ⊙ O ganlyniad i ad-drefnu swyddfeydd yn barhaus, a'r strategaeth barhaus o weithio gartref, roedd modd cau dau adeilad a chyflwyno oriau neu ddiwrnodau cyfyngedig mewn sawl adeilad arall. Cynhaliodd ein tîm Eiddo wiriadau deddfwriaethol ychwanegol ar y safleoedd hyn, megis fflysio Legionella. Roedd angen gwneud hynny oherwydd bod risg gynyddol gan fod llai o staff yn yr adeiladau.

*Crëwyd ardaloedd gweithio ystwyth* mewn gwahanol swyddfeydd - Tŷ Elwyn, Llanelli; 3 Heol Spilman / Parc Dewi Sant, Parc Myrddin a Neuadd y Sir, Caerfyrddin; a Neuadd y Dref / Tŷ Parcyrhun, Rhydaman.

### Gwasanaethau Glanhau

- ⊙ Wrth i reoli heintiau a glanhau mewn ysgolion chwarae rhan bwysig o ran galluogi ysgolion i ailagor ddiwedd mis Mehefin, lansiwyd ymgyrch recriwtio sylweddol gennym ym mis Mai a mis Mehefin. O fewn cyfnod byr o 4 wythnos, gwnaethom gyflogi a hyfforddi dros 150 o weithwyr newydd i gynyddu'r tîm o lanhawyr o tua 550 i 700.

O achos y systemau glanhau newydd a'r recriwtio, roedd angen rhaglen ailhyfforddi enfawr a oedd yn cael ei chefnogi drwy ad-leoli staff ychwanegol o wasanaethau eraill gan gynnwys Diogelu'r Cyhoedd, Priffyrdd a'r Gwasanaethau Cynllunio. Cafodd trefniadau glanhau eu gwella ar draws ein holl adeiladau er mwyn sicrhau diogelwch ein staff a'r cyhoedd.

## Risgiau:

- ⊙ Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu gan y Tîm Rheoli Corfforaethol bob 2 fis a chan y Pwyllgor Archwilio bob 6 mis. Diweddarir Risgiau Corfforaethol, Adrannol a Gwasanaeth yn unol â strategaeth Rheoli Risg a Chynllunio Wrth Gefn 2018-22 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Caffael:

- ⊙ Cawsom rai anawsterau'n dod o hyd i gynhyrchion yr oedd galw mawr amdanynt, fel Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), felly buom yn ymgysylltu â sefydliadau partner megis Llywodraeth Cymru, y GIG ac Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru i ganfod y cynhyrchion hyn gan gyflenwyr arbenigol.

Drwy Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, sefydlwyd storfa PPE, hylendid a glanhau, sydd wedi bod yn gweithredu ar gyfer pob lleoliad gofal nad yw'n gymdeithasol ar draws yr Awdurdod.

- ⊙ Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith gyda'r *Ganolfan Strategaethau Lleol (CLES)* gyda'r Cyngor yn bartneriaid allweddol ym mhrosiect cronfa her economi sylfaenol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Edrychodd y prosiect ar ddull presennol y Cyngor, ar ein Gwariant Caffael, a'r modd roeddem yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflenwyr allweddol, er mwyn datblygu cynllun gweithredu caffael blaengar a fydd yn cefnogi ymhellach gyfleoedd i'r Cyngor wneud cyfoeth cymunedol yn rhan o'n gweithgarwch caffael. Bydd ymgorffori'r dull hwn yn ganolog i Gynllun Adfer Economaidd ehangach y Sir.

## Y ffordd rydym yn gweithio

### Gwneud Gwell Defnydd o'n Hadnoddau drwy Gefnogi ein Cyflenwyr a'n Darparwyr yn rhithwir



Oherwydd COVID-19 a'r cyfyngiadau o ran Ymgysylltu â Chyflenwyr, rydym wedi addasu ein ffordd o weithio ac wedi cynnal Sesiynau a Gweminarau Cymorthfeydd Caffael rhithwir i wella'r cymorth caffael sydd ar gael ymhellach. Mae cymorth caffael bellach yn cael ei gynnig yn rhithwir i gyflenwyr a darparwyr ac rydym wedi gweithio gyda Busnes Cymru i gynnal 'Gweithdai Tendo Byw'.

Nod y Gweithdai hyn, a reolir gan ein tîm Caffael Corfforaethol ac a gyflwynir gan Ymgynghorwyr Tendo Busnes Cymru, oedd ymgysylltu'n rhagweithiol â chyflenwyr sydd angen y lefel hon o gymorth i gyflwyno eu tendrau drwy'r porth tendro electronig, Bravo; enghraifft o hyn yw Digwyddiad Ymgysylltu â'r Farchnad Rithwir ar gyfer tendr y Rhaglen Dechrau'n Deg lle roedd 25 o ddarparwyr yn bresennol. Oherwydd natur busnes y sefydliadau oedd â diddordeb yn y tendr hwn, cynhaliwyd y digwyddiad ar ddydd Sadwrn gan roi cyfle i ddarparwyr gofal plant fynychu'r sesiwn rithwir.

Lluniwyd papur briffio ar gyfer y digwyddiad a oedd yn crynhoi gofynion a manyleb y tendr, a roddai cymaint o wybodaeth â phosibl i ddarparwyr cyn hysbysebu'r tendr. Roedd hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr ofyn cwestiynau mwy perthnasol yn y digwyddiad rhithwir. Dilynwyd hyn gan Weithdy Tendir Byw ar gyfer Rhaglen Gofal Plant Dechrau'n Deg a drefnwyd gennym ni ac a gynhaliwyd ar y cyd â Thîm Cymorth Tendo Busnes Cymru lle mynychodd 7 Darparwr



### Symud Ymlaen...

Yn ystod ein hadolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant, bydd yr Amcan hwn yn parhau i fod yn Amcan Llesiant yn y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 a bydd yn cael ei ailenwi:

### Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# ATODIADAU

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig hefyd. Roedd ein Cynllun Llesiant yn cyfuno'r gofynion ac mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn gwneud yr un peth.


### Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella bob blwyddyn. Nid oes yn rhaid iddynt newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.
- Yn y bôn mae ein Hamcanion Gwella yr un fath â'n Hamcanion Llesiant, gan eu bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac anghenion lleol. Rydym yn cymharu perfformiad ein gwasanaeth a'n canlyniadau bodlonrwydd â phob Cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwella lle mae angen i ni wella fwyaf.
- Mae dyletswydd arnom i wella, gan ddarparu'r 'un gwasanaethau neu fwy o wasanaethau, am lai o arian'.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut rydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

- a) Bod yn rhaid i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw **'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'**
- b) Mae'n rhaid i ni arddangos 5 ffordd o weithio:  
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol (gweler **Atodiad 1**)
- c) Mae'n rhaid i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.



Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus roedd yn ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant oedd yn mwyhau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

## Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

Amcanion Llesiant 2019/20 Sir Gaerfyrddin			7 Nod Llesiant Cenedlaethol						
			Llewyrch	Cydnheredd	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog a'r	Cyfrifoldeb Byd- eang
Dechrau'n Dda	1	Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.	✓	✓	✓	✓	✓		
	2	Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
	3	Cefnogi a gwella cynnydd a chyrrhaeddiad yr holl ddysgwyr	✓	✓		✓		✓	✓
	4	Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol.	✓	✓	✓	✓	✓		
Byw'n Dda	5	Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	✓	✓	✓	✓	✓		
	6	Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
	7	Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	8	Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Heneiddio'n Dda	9	Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel	✓	✓	✓	✓	✓		✓
	10	Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
	11	Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus	12	Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	✓	✓	✓				
	13	Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
	14	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	✓	✓		✓	✓	✓	
	15	Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

**Mesurau  
Llwyddiant ar  
gyfer ein  
Hamcanion  
Llesiant**




Amcan Llesiant		Mesurau Llwyddiant	Diweddarwyd ar gyfer 2020/21	
			DO	NADDO
1	Cychwyn Gorau mewn Bywyd	Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy (PAM/029)	DO	
2	Plant – Ffyrdd iach o fyw	Gordewdra yn ystod plentyndod (Rhaglen Mesuriadau Plant GIG)	DO	
3	Parhau i wella cyrhaeddiad i bawb	Cyrhaeddiad addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio (Disgyblion Blwyddyn 11) (PAM/032)		NADDO
		Cyfraddau presenoldeb ysgolion (Cynradd) (PAM/007)(Uwchradd) (PAM/008)		NADDO
		Bodlonrwydd ar ysgol gynradd plentyn (ACC)		NADDO
4	Lleihau Nifer y Bobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)	Nifer y gadawyr nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant ( <b>NEETs</b> ) (PAM/009) Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 (5.1.0.2)	DO	
5	Taclo Tlodi	Bwlch yn y sgôr 9 pwynt cyfartalog wedi'i chapio (Disgyblion Blwyddyn 11) ar gyfer y rheiny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys (DLIC)		NADDO
		Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (PAM/012) (DLIC)	DO	
		Aelwydydd ag amddifadedd sylweddol (DLIC)		NADDO
		Aelwydydd sy'n byw mewn Tlodi (Data 'PayCheck' CACI)	DO	
6	Creu Swyddi a Thwf	Ffigurau cyflogaeth (SYG – Arolwg Poblogaeth Blynyddol) (DLIC)	DO	
		Tâl wythnosol gros cyfartalog (SYG – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)	DO	
		Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu'n uwch (StatsCymru) (DLIC)	DO	
		Pobl yn fodlon iawn neu'n lled fodlon ar eu swyddi (ACC) (DLIC)		NADDO
7	Tai Fforddiadwy	Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir (7.3.2.24)	DO	
8	Bywydau Iach	Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda iawn (ACC)	DO	
		Oedolion sy'n dweud bod ganddynt salwch hirdymor (ACC)	DO	
		Sgôr llesiant meddwl oedolion (ACC) (DLIC)		NADDO
		Oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach (CNC) (DLIC) (Dim ysmegu, yfed 14 o unedau neu lai, bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, meddu ar fynegai mäs corff iach, bod yn gorfforol egniol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol).		NADDO
9	Cefnogi Cysylltiadau Da	% sy'n dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned (ACC) (DLIC) (Yn deillio o deimlad o berthyn; gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch.)		NADDO
		Pobl yn teimlo'n ddiogel (ACC) (DLIC) (Yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio)		NADDO
10	Bywydau Annibynnol	Cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal (ACC)	DO	
		Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PAM/015)	DO	
11	Heneiddio'n dda	Pobl sy'n unig (ACC) (DLIC)		NADDO
12	Amgylchedd Iach a Diogel	Yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir (kWh)	DO	
		Defnydd Ynni'r Cyngor (kWh)		NADDO
		Cyfraddau ailgylchu (PAM/030)	DO	
13	Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Cyflwr y ffyrdd (PAM/020, PAM/021 a PAM/022)	DO	
		Nifer a laddwyd/anafwyd mewn damweiniau ar y ffyrdd (5.5.2.21)	DO	
14	Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant	Medru siarad Cymraeg (ACC) (DLIC)		NADDO
		Pobl a fu mewn digwyddiadau ym maes y celfyddydau yng Nghymru y llynedd (ACC)		NADDO
		Pobl a wnaeth ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru y llynedd (ACC)		NADDO
		Pobl a wnaeth ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru y llynedd (ACC)		NADDO
15	Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Taliadau 'Ar-lein Amdani'	DO	
		Pobl yn cytuno y gallant gyrchu gwybodaeth am yr Awdurdod yn y ffordd y byddent yn ei dymuno. (ACC)		NADDO
		Pobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu (ACC)		NADDO
		Pobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol. (ACC)		NADDO
		Lefelau absenoldeb oherwydd salwch staff (PAM/001)	DO	
		'Costau cynnal' y sefydliad	DO	
		Pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn cyn pennu ei gyllideb. (ACC)		NADDO

**Allwedd:** PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol.

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM)

Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn gyfres genedlaethol o fesurau y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu, ond oherwydd COVID-19 mae Data Cymru sy'n casglu'r data'n ganolog ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi penderfynu peidio â chasglu data ar gyfer 2019/20 neu 2020/21. Felly, ni allwn fesur sut rydym yn perfformio o gymharu ag awdurdodau eraill ar gyfer 2020/21.		Ein canlyniad yn 2019/20	Ein canlyniad yn 2020/21
<b>Amcan Llesiant 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd</b>			
<b>1</b>	% y Plant mewn gofal â 3 lleoliad neu fwy yn y flwyddyn (PAM/029)	<b>8.6%</b>	<b>4.7%</b>
<b>2</b>	Byddwn yn cynyddu canran yr asesiadau plentyn a gwblheir ar amser (PAM/028)	Newid mewn diffiniad	<b>93.6%</b>
<b>Amcan Llesiant 3 - Cefnogi a gwella cynnydd a chyrraedd yr holl ddysgwyr</b>			
<b>3</b>	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (PAM/007)	<b>93.9%</b>	Ddim ar gael
<b>4</b>	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (PAM/008)	<b>93.5%</b>	Ddim ar gael
<b>5</b>	Sgôr 9 wedi'i chapio ar gyfartaledd ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 (PAM/032)	Sgôr <b>367.2</b>	Ddim ar gael
<b>Amcan Llesiant 4 - Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)</b>			
<b>6</b>	% y Rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) (PAM/046)	Ddim ar gael	<b>1.8%</b>
<b>Amcan Llesiant 5 - Trechu tldi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi</b>			
<b>7</b>	% yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (PAM/012)	<b>46.4%</b>	<b>46.4%</b>
<b>Amcan Llesiant 7 - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael</b>			
<b>8</b>	% y tai yn y sector preifat y gellir eu hailfeddiannu (PAM/013)	<b>7.72%</b>	<b>6.88%</b>
<b>9</b>	Nifer y cartrefi newydd a grëir o ganlyniad i aildechrau defnyddio eiddo gwag (PAM/045)	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>10</b>	Nifer y tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (PAM/036)	<b>22</b>	<b>11</b>
<b>11</b>	Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gwblhau'r holl atgyweiriadau tai (PAM/037)	<b>13.8</b> diwrnod	<b>10.5</b> diwrnod
<b>12</b>	% y tai sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) (PAM/038)	<b>100%</b>	<b>100%</b>
<b>13</b>	% y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag (PAM/039)	<b>3.4%</b>	<b>4.3%</b>
<b>Amcan Llesiant 8 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra ymysg oedolion)</b>			
<b>14</b>	% y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnir gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (PAM/040)	<b>97.5%</b>	<b>86.1%</b>
<b>15</b>	Ymweliadau â chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (PAM/017)	<b>7,768</b>	<b>734</b>
<b>16</b>	% y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff sy'n cwblhau'r rhaglen 16 wythnos (PAM/041)	<b>57.4%</b>	<b>0.00%</b>
<b>17</b>	% cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (PAM/042)	<b>78.4%</b>	<b>68.4%</b>
<b>18</b>	% y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd (PAM/023)	<b>96.02%</b>	<b>88.65%</b>

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM)		Ein canlyniad yn 2019/20	Ein canlyniad yn 2020/21
<b>Amcan Llesiant 10 - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio</b>			
<b>19</b>	Nifer y diwrnodau a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PAM/015)	<b>176</b> diwrnod	<b>347</b> diwrnod
<b>Amcan Llesiant 12 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol</b>			
<b>20</b>	% yr holl geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd (PAM/018)	<b>71.6%</b>	<b>60.3%</b>
<b>21</b>	% yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd (PAM/019)	<b>80.0%</b>	<b>53.8%</b>
<b>22</b>	% y strydoedd sy'n lân (PAM/010)	<b>98.0%</b>	<b>97.8%</b>
<b>23</b>	Nifer gyfartalog o ddiwrnodau gweithio mae'n cymryd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon (PAM/035)	<b>2.5</b> diwrnod	<b>5.2</b> diwrnod
<b>24</b>	Cilogramau o wastraff trefol nad yw'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person (PAM/043)	<b>156.3Kg</b>	<b>155.8Kg</b>
<b>25</b>	% y Gwastraff trefol sy'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (PAM/030)	<b>64.66%</b>	<b>66.08%</b>
<b>Amcan Llesiant 13 - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth</b>			
<b>26</b>	% y Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael (PAM/020)	<b>5.4%</b>	<b>4.1%</b>
<b>27</b>	% y Ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (PAM/021)	<b>4.7%</b>	<b>3.4%</b>
<b>28</b>	% y Ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (PAM/022)	<b>12.5%</b>	<b>12.0%</b>
<b>Amcan Llesiant 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau</b>			
<b>29</b>	Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. (PAM/001)	<b>10.7</b> diwrnod	<b>7.7</b> diwrnod
<b>30</b>	Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol fesul 1,000 o weithwyr (PAM044)	<b>34.4</b>	<b>27.0</b>
 <p><b>Nid oes modd cymharu rhai mesurau'n llawn o flwyddyn i flwyddyn oherwydd tarfu ar y gwasanaeth o achos COVID-19. Mae manylion a sylwadau llawn am y canlyniadau ar gael yn y ddolen diweddariadau Ymrwymiad ar waelod pob Amcan Llesiant</b></p> <p><b>Cofiwch nad oes Mesur(au) Cenedlaethol wedi'u pennu ar gyfer pob Amcan Llesiant</b></p>			

## Adroddiadau Rheoleiddiol 2020/21

### Cyhoeddwyd nifer o adroddiadau rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

- ⊙ Mae adroddiadau lleol, sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin, i'w gweld isod.
- ⊙ Cynhelir adroddiadau cenedlaethol/thematig gan reoleiddwyr i edrych ar bob Cyngor yng Nghymru (mewn rhaglen waith integredig yr ymgynghorwyd yn ei chylch ac y cytunwyd arni â llywodraeth leol) er mwyn nodi arfer gorau.
  - Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion. Weithiau mae'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig a/neu llywodraeth leol.
  - Nid oes rhaid bod yr holl argymhellion a geir mewn adroddiadau yn berthnasol i Sir Gaerfyrddin, oherwydd mewn rhai achosion efallai mai ni fydd yr arfer gorau a gynigir, efallai ein bod ni eisoes yn gwneud yr hyn a nodwyd, neu efallai nad yw'n berthnasol.
- ⊙ Mae'r holl argymhellion hyn sydd yn yr adroddiad wedi cael eu nodi ar system fonitro'r Cyngor ac mae unrhyw resymau dros ddiystyru argymhellion yn cael eu hesbonio a'u cofnodi. Caiff cynnydd yn erbyn argymhellion perthnasol ei fonitro a'i adrodd.
- ⊙ Mae COVID-19 wedi amharu'n ddifrifol ar waith rheoleiddio y cytunwyd arno yn ystod 2020/21.

### Cyhoeddwyd y rhestr ganlynol o adroddiadau rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf:



Gorffennaf 2020	Cysgu Allan yng Nghymru - Problem i Bawb; Cyfrifoldeb Neb
Awst 2020	Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin
Medi 2020	Deddfu Gwell
Hydref 2020	Y Fenter Twyll Genedlaethol Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol
Ionawr 2021	Crynodeb archwilio blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2020



Mawrth 2020	Adolygiad cenedlaethol o'r defnydd o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru
Gorffennaf 2020	<b>Llythyr adolygu perfformiad blynyddol awdurdod lleol 2019/20</b> Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r gwerthusiad o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol (gwasanaethau oedolion a phlant) yn ystod 2019/20.
Medi 2020	Atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia
Awst 2020	Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol 2018-19
Ebrill 2021	Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Caerfyrddin

---

Mehfin 2020	Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf
Gorffennaf 2020	Ysgolion Cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd yr ysgol
Gorffennaf 2020	Cydnherthedd dysgwyr - meithrin cydnherthedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion
Awst 2020	Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch
Hydref 2020	Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid
Hydref 2020	Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant
Tachwedd 2020	Paratoi ar gyfer Cwricwlwm Cymru
Ionawr 2021	Partneriaethau ôl-16
Ionawr 2021	Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion mewn ymateb i COVID-19
Mawrth 2021	Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol
Mawrth 2021	Cymorth ar gyfer llesiant emosiynol ac iechyd meddwl dysgwyr
Mawrth 2021	Saesneg iaith a llythrennedd mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd
Mawrth 2021	Dysgu Cymraeg



Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020** ar gynnydd y Ddeddf dros y 5 mlynedd diwethaf a gwneud nifer o argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus; argymhellion y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae'r *Comisiynydd* hefyd wedi gwneud rhai argymhellion ar ôl y pandemig i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu hystyried fel y nodir isod. Byddwn yn ystyried y rhain fel rhan o'n gwaith adfer cynllunio:

1	Datblygu pecyn ysgogi economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cefnogi datgarboneiddio tai, drwy adeiladu tai fforddiadwy carbon isel newydd a buddsoddi mewn rhaglen genedlaethol i wella effeithlonrwydd ynni'r tai sy'n bodoli eisoes.
2	Buddsoddi mewn ffyrdd gwell o gysylltu a symud pobl drwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
3	Buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant i gefnogi'r newid i ddyfodol gwell, gan greu swyddi gwyrddach newydd.
4	Buddsoddi mewn natur a blaenoriaethu cyllid a chymorth ar gyfer adfer cynefinoedd a bywyd gwylt ar raddfa fawr, creu a chysylltedd ledled Cymru – gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd naturiol, i weithredu'r goedwig genedlaethol newydd, ac i sicrhau bod rheoli defnydd tir ac amaethyddiaeth yn cefnogi cadwyni bwyd lleol diogel a dosbarthiad.
5	Buddsoddi yn niwydiannau a thechnolegau'r dyfodol, ac mewn cefnogaeth i fusnesau a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel a sicrhau cyfoeth a swyddi mewn ardaloedd lleol gan fuddsoddi yn yr economi sylfaenol.